

**TORFAEN
COUNTY
BOROUGH**



**BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN**

Adroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol

HYDREF 2022



EIN GWELEDIGAETH AR GYFER TORFAEN

Torfaen: Lle diogel, ffyniannus, cynaliadwy ble mae gan bawb y cyfle i fod y gorau medrent

EIN GWERTHOEDD FEL SEFYDLIAD

Cefnogol, Teg, Effeithiol, Arloesol





Ein Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol 2021-2022

Rhagair

- | | |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------|
| 1. Cefndir | tud 5 |
| 2. Adrodd am ein Hamcanion Llesiant | tud 6 |
| <ul style="list-style-type: none"> - Bwrdeistref sirol glân a gwyrdd - Cefnogi Lles Plant a Phobl Ifanc a Chodi Cyrhaeddiad Addysgol - Cymorth i Drigolion Mwyaf Bregus Torfaen | |
| 3. Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd | tud 38 |
| 4. Crynodeb o'r Gwelliannau Sydd Eu Hangen | tud 40 |
| 5. Torfaen: Dod yn Gyngor Rhagorol | tud 43 |
| 6. Y Gwersi Allweddol a Ddysgwyd yn sgil Ein Hunanasesiad | tud 45 |
| 7. Cyd-gysylltu ein Gofynion Deddfwriaethol | tud 56 |
| 8. Costau ein Gwasanaethau | tud 59 |
| 9. Ymgynghori ynghylch ein Perfformiad | tud 60 |
| 10. Cyflawni a Monitro ein cynnydd | tud 61 |



Rhagair

Croeso i'n hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol ar gyfer 2021–2022.

Mae ein hadroddiad blynyddol yn cynnwys y diweddaraf am y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran cyflawni 3 blaenoriaeth allweddol ein cyngor - ein hymrwymiaadau i, sicrhau bwrdeistref sirol sy'n lân ac yn wyrdd, cefnogi lles plant a phobl ifanc a chodi cyrhaeddiad addysgol a chefnogi'r trigolion mwyaf bregus yn Nhorfaen.

Mae ein hadroddiad hefyd yn cyfuno ein canfyddiadau allweddol yn dilyn ymarfer hunanasesu sefydliadol. Rydym wedi bod drwy broses o ddatblygu fframwaith 8 nodwedd y byddwn yn ei ddefnyddio i hunanasesu ein cynnydd tuag at fod yn Gyngor rhagorol. Mewn blynyddoedd i ddod, bydd ein dull newydd o berfformio a llywodraethu yn parhau i ddefnyddio ein fframwaith. Bydd hyn yn cefnogi ein cyngor i ddatblygu a meithrin diwylliant lle rydym yn gallu herio ein hunain yn barhaus i wella ac i ofyn cwestiynau am yr hyn rydym yn ei wneud a sut y gallem ei wneud yn well.

Er bod ein hadroddiad yn edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaethom i raddau helaeth yn 2021-22, rydym wrthi'n llunio Cynllun Sirol newydd, sy'n amlinellu uchelgais a dyhead newydd i Dorfaen. Mae'n ymwneud â sut y byddwn yn gwneud pethau'n wahanol wrth ymateb i'r anghenion, yr heriau a'r cyfleoedd i'n trigolion a'n cymunedau.

Ni fydd ein cynllun newydd yn lasbrint diffiniol ar gyfer ein gwaith, ond fframwaith fydd yn ein galluogi i annog newid, cyfeirio'r newid hwnnw ac ymateb iddo. Bydd ein cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac wrth i gynlluniau a phrosiectau gael eu datblygu, byddant yn rhan o gynllun cyflawni blynyddol sy'n symud ein huchelgais i'r cam gweithredu. Bydd ein dull o weithredu yn sicrhau bod ein cynllun yn parhau i fod yn ailadroddol ac yn ystwyth fel y gellir ymateb i fentrau, heriau a chyfleoedd newydd drwy gydol oes y cynllun.

Wrth wraidd ein cynllun mae pedair thema ganolog fydd yn arwain ein ffyrdd o lunio polisïau a dylunio gwasanaethau dros y blynyddoedd nesaf – Cysylltedd, Llesiant, Cynaliadwyedd a Hunaniaeth a Diwylliant. Y themâu hyn fydd yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau a chynlluniau yn canolbwyntio ar y darlun mawr, a'r weledigaeth ar gyfer Torfaen.

Mae pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw presennol wedi ein hatgoffa am bwysigrwydd gwasanaethau rheng flaen a rôl ganolog y cyngor wrth gefnogi cymunedau. Cadarnhaodd hefyd bŵer cydweithio i fynd i'r afael â materion allweddol ac i wneud gwelliannau i fywydau pobl. Mae'r rhagolygon ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol yn heriol dros ben ac yn rhoi cyd-destun i'n Cynllun Sirol wrth i ni ganolbwyntio ar ba wasanaethau sydd bwysicaf a pha adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni.

Pan fyddwn yn adrodd eto yn 2023, byddwn yn cynnwys ein hasesiad cynhwysfawr cyntaf o gynnydd yng nghyd-destun ein Cynllun Sirol newydd. Rydym yn realistig ynglŷn â maint yr her - mae colli cyllid y llywodraeth, costau cynyddol a newid gofynion, yn golygu wynebu dewisiadau anodd ynglŷn â ble i ganolbwyntio adnoddau. Er bod y sefyllfa ariannol yn heriol iawn nid yw hwn yn gyfnod i leihau ein huchelgais. Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw ein gwasanaethau o ddydd i ddydd i drigolion a busnesau a'n bod i gyd yn rhannu uchelgais ar y cyd i wella gwasanaethau ar draws Torfaen. Felly, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn mabwysiadu dull newydd o weithredu, gan herio ein hunain i fod yn fwy arloesol a chwestiynu'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau, er mwyn cyflawni'n dyheadau ar gyfer Torfaen.



Y Cynghorydd Anthony Hunt

Arweinydd y Cyngor

Stephen Vickers

Prif Weithredwr



1. Cefndir

Ein Hadroddiad Blynyddol

Mae ein 'Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant' blynyddol yn nodi hunanasesiad blynyddol o sut yr ydym yn perfformio a lle rydym yn hoelio'n sylw yn y flwyddyn i ddod. Er bod llawer o'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd yn 2021-22, mae hefyd yn rhoi'r cefndir ar gyfer newid sylweddol o ran y sefydliad, a fydd yn ein tywys i 2022-23 a thu hwnt.

Mae'n ofynnol i ni, fel pob corff cyhoeddus arall ledled Cymru gydymffurfio â dyletswyddau penodol. Mae ein 'Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant' blynyddol, yn cyfuno ein gofynion adrodd statudol a'n dyletswyddau cyhoeddi statudol, dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, sy'n galw arnom i;

- Gyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos ein cynnydd mewn perthynas â'n hamcanion Llesiant (DLICD 2015); a
- Chyhoeddi Adroddiad Hunanasesiad blynyddol sy'n nodi i ba raddau yr ydym yn bodloni ein 'gofynion perfformiad'.

Dyma ein hadroddiad cyntaf dan ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae'r deddfwriaethau newydd yn gosod nifer o ddyletswyddau ar gyrff cyhoeddus, ond yn ganolog i'r drefn berfformio newydd mae'r gofyniad i bob cyngor barhau i adolygu eu trefniadau perfformio. Bydd cynghorau'n gwneud hyn drwy hunanasesu cadarn a pharhaus y mae'r canfyddiadau'n cael eu hadrodd drwy'r adroddiad blynyddol hwn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf LICD) wedi ymwreiddio saith nod llesiant sydd o flaenoriaeth mewn cyfraith, y mae'n rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt. Maent yn manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio, a chydweithio i wella lles yng Nghymru.

Wrth weithio tuag at y nodau hyn, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith eu penderfyniadau yn y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Dethol ein Hamcanion

Fe wnaethom fabwysiadau ein Cynllun Adfer Corfforaethol o fis Mawrth 2022, yn seiliedig ar 3 blaenoriaeth a oedd eisoes yn rhan o Flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol cyfredol.

Wrth fabwysiadau'r blaenoriaethau hyn, cytunwyd y byddai ein cynllun adfer yn integreiddio i'n Cynllun Corfforaethol a dylai'r blaenoriaethau barhau fel ein hamcanion llesiant. Fe wnaeth COVID-19 amharu ar bron i'r holl wasanaethau a gynlluniwyd yn ystod 2020/21, sef blwyddyn olaf ein 3^{ydd} Cynllun Corfforaethol.

Mae ein cynllun yn nodi tri maes fydd, yn ein barn ni, yn cyflawni;

- cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy sy'n destun balchder i drigolion lleol,
- pob person ifanc yn cael y cyfle gorau ym mywyd drwy gael addysg dda, a
- chymunedau iachach ble mae pobl fregus yn cael cymorth i fyw bywyd annibynnol, sy'n eu cynnwys yn gymdeithasol ac sydd heb anghydraddoldeb.

Mae ein blaenoriaethau yn cydnabod yr heriau y mae trigolion yn Nhorfaen yn eu hwynebu o ganlyniad toriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus, y galw am wasanaethau, er bod hynny o fewn fframwaith o ddatganiadau blaenoriaeth diwygiedig sy'n gysylltiedig ag effeithiau'r pandemig byd-eang COVID-19. Y tri amcan llesiant y cytunwyd arnynt yw:

- Sicrhau bwrdeistref sy'n lân ac yn wyrdd
- Darparu cymorth i les plant a phobl ifanc a chodi cyrhaeddiad addysgol
- Cymorth i'r trigolion mwyaf bregus yn Nhorfaen

Mae'r cynllun yn nodi nid yn unig beth y byddwn yn ei wneud ond hefyd y meysydd y byddwn yn eu cefnogi, drwy weithio ochr yn ochr â phartneriaid, cymunedau lleol, gwirfoddolwyr a thrigolion.

Mae copi o'r fersiwn lawn o'r [Cynllun Adfer Corfforaethol](#) ar gael i'w ddarllen neu ei lawr lwytho.

2. Adrodd ar ein Hamcanion Llesiant


Felly, bydd ein Hadroddiad Llesiant a Pherfformiad Blynyddol yn dangos ein bod yn cydymffurfio â'n gofynion deddfwriaethol, drwy ddangos ein hymrwymiad i gyflawni yng nghyd-destun y tri maes blaenoriaeth yn ein cynllun corfforaethol ein hunain, gan nodi sut rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar y pethau cywir a gwella'r meysydd sydd fwyaf pwysig i ddinasyddion Torfaen.

Diffiniwyd set o'n canlyniadau ar gyfer pob un o'n hamcanion gwella/blaenoriaethau cynllun corfforaethol, i sicrhau bod yna welliannau i ddinasyddion ym mhob un o'r meysydd hyn. Mae'r adran ganlynol yn adolygu'r gwaith yr ydym wedi'i wneud tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant, yn ystod y flwyddyn 2021/22. Adroddwyd ar y diweddariadau hyn a chawsom adroddiadau arnynt gan ein meysydd gwasanaeth trwy gydol y flwyddyn, drwy ein prosesau rheoli perfformiad a chynllunio gwasanaethau.


Sut mae ein hamcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant:


	Cymru lewyrchus		Cymru o gymunedau cydlynus		Cymru sy'n fwy cyfartal		Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
	Cymru gydnerth		Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu		Cymru iachach	Allwedd = Nodau Llesiant Cenedlaethol	

Torfaen sy'n lân ac yn wyrdd

Gall gwirfoddoli wella hunan-barch a lles meddyliol, dod â phobl a chymunedau ynghyd a chysylltu â byd natur a'i werthfawrogi. Gall hefyd ddarparu cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd a all agor y drws i fyd gwaith yn y dyfodol. 

Bydd rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn helpu i gefnogi bioamrywiaeth a chyfrannu at wytnwch ecolegol. Gall adnoddau naturiol wedi'u rheoli'n dda hefyd gefnogi gwydnwch yr hinsawdd yn awr ac yn y dyfodol a helpu i fynd i'r afael â byd natur sy'n lleihau yn fyd-eang.

Bydd cymryd camau i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn lleol, yn helpu i liniaru effeithiau byd-eang ar newid yn yr hinsawdd. 

Bydd cymryd camau i atal tipio anghyfreithlon, taflu sbwriel a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel baw cŵn yn diogelu adnoddau naturiol sydd o bwys diwylliannol i Dorfaen ac yn eu gwneud yn fwy diogel i bobl fwynhau'r manteision sydd yn gysylltiedig â bod yn actif yn yr awyr agored. 

Mae mwy o deithio llesol yn golygu nid yn unig llai o allyriadau carbon, ond mae hefyd yn dda i'n hiechyd, drwy leihau llygredd aer a'n cadw ni'n actif. 

Mae ecosystemau iach sy'n gweithio yn sylfaenol i'n hiechyd - maent yn cynhyrchu ocsigen, yn helpu i reoleiddio'r hinsawdd, rheoli dŵr, gwella ansawdd yr aer a gallant leihau sŵn.

Mae galluogi pob rhan o'n cymunedau i elwa o gael mynediad i fan gwyrdd a'i fanteision iechyd yn cyfrannu tuag at Dorfaen sy'n fwy cyfartal.

Mae gweithio gyda'r rheini sy'n berchen ar dir preifat, a chymunedau, i gynnal mannau agored, yn cyfrannu at gymunedau mwy cydlynol. 

Bydd cynyddu swm y gwastraff o gartrefi sy'n cael ei ddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio, yn Nhorfaen, yn helpu i fynd i'r afael ag adnoddau anghynnaladwy ac anghyfartal.

Bydd sicrhau bod yna ddatblygu priodol ar yr adeg gywir a'r lle cywir, ac sy'n ymateb i'r heriau sy'n codi o ran darparu tai a chyflogaeth, yn ogystal â diogelu seiwlaith gwyrdd a bioamrywiaeth, hyrwyddo teithio cynaliadwy ac ymateb i newid yn yr hinsawdd, oll yn cefnogi lles cymunedau yn Nhorfaen yn y tymor hir.



Cefnogi Lles Plant a Phobl Ifanc a Chodi Cyrhaeddiad Addysgol

Wrth fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad addysgol a gwella deilliannau addysgol, yn enwedig i bobl ifanc o deuluoedd incwm isel neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gellir dileu rhwystrau i gyflogaeth yn ddiweddarach yn eu bywydau a helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn rhai o'n cymunedau.

Bydd cefnogi presenoldeb yn yr ysgol ac ymddygiadau cadarnhaol yn atal pobl ifanc rhag ymddieithrio.

Bydd darparu cefnogaeth ac annog pobl ifanc i'w hatal rhag dod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yn eu galluogi i ddod yn rhan o weithlu lleol, medrus.



Bydd gwella cyfleusterau dysgu a lleihau effaith eu hól-troed carbon drwy raglen ysgolion yr 21ain ganrif yn helpu i gefnogi cenedlaethau o blant a phobl ifanc, yn awr ac yn y dyfodol i ffynnu a chyfrannu at y daith tuag at allyriadau sero net.

Bydd gwella darpariaeth addysg Gymraeg yn helpu i ddiogelu diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd cefnogi pobl ifanc i ddatblygu'n ddinasyddion cyflawn sy'n teimlo cyswllt â'r byd ehangach a'r grym i 'feddwl yn fyd-eang' ac i 'weithredu'n lleol', yn cefnogi cymunedau cydlynus.



Bydd darparu cefnogaeth i bobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl a lles ehangach yn cefnogi disgyblion bregus i gyflawni eu potensial ym mywyd.

Bydd sicrhau bod gan blant amgylchedd difyr a diogel i chwarae a darparu cyfleoedd i gwblhau'r filltir ddyddiol, i brofi gweithgareddau celf, crefftau a gweithgareddau diwylliannol eraill, yn cefnogi iechyd meddwl a chorfforol da a gall feithrin diddordeb gydol oes mewn chwaraeon a bod yn actif.

Gall chwarae yn yr awyr agored gynnig cyfleoedd i bobl ifanc gysylltu â natur a dysgu am werthoedd byd natur.



Darparu cefnogaeth i'r trigolion mwyaf bregus yn Nhorfaen

Bydd cadw pobl yn iach, yn byw yn y gymuned, ac allan o'r ysbyty am gyfnod hirach yn helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy annibynnol ac i deimlo'n rhan o'u cymunedau.

Bydd cefnogi Cymunedau Sy'n Ystyriol o Dementia yn helpu i greu Torfaen sy'n diwallu anghenion ei thrigolion mwyaf bregus.

Bydd gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned a'r sector gwirfoddol i gefnogi pobl fregus yn helpu i wella cydlyniad cymunedol a chefnogi mwy o gydraddoldeb yn Nhorfaen.



Bydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau yn helpu diwylliant a hunaniaeth Gymreig i ffynnu.



Bydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir yn eu helpu i gael dechrau da mewn bywyd a thyfu i fyny'n iach ac yn cael gofal.

Bydd amddiffyn plant a theuluoedd Torfaen rhag wynebu cam-fanteisio, trais a chamdriniaeth yn cefnogi eu hiechyd a'u lles yn y tymor hir, ac yn cyfrannu at gymunedau mwy diogel.

Gall cefnogi trigolion sy'n wynebu anhawster ariannol i gael yr incwm uchaf posib, gyfrannu at les meddyliol a chorfforol a rhoi'r cyfle i bobl fforddio dewisiadau iachach.

Bydd atal digartrefedd a darparu cyngor ar dai yn helpu i sicrhau bod anghenion sy'n gysylltiedig â thai yn lleol, yn cael eu bodloni a bydd hyn yn cefnogi iechyd a lles yn y tymor hir



Bydd cefnogi'r rhai mwyaf bregus yn y farchnad lafur, drwy ein rhaglenni cyflogadwyedd, i gynnal cyflogaeth ddiogel, gyda lefelau cyflog teg a chyfle i ddatblygu yn y gwaith, yn cyfrannu at Dorfaen mwy ffyniannus a chyfartal.



Bydd cysylltu diwydiannau amaethyddol gwledig â chanol trefi drwy'r prosiect Bwyd i Dyfu yn cefnogi arloesi ac arallgyfeirio ymysg busnesau yn hyrwyddo bwyd lleol



Bydd hyrwyddo ac annog adfywio canol trefi a defnyddio Cynlluniau Lleoedd Canol Trefi fel sbardunau ar gyfer buddsoddi cyfalaf, yn cefnogi lleoedd diogel, gwydn, deniadol a chynhyrchiol.

Bydd denu mwy o ymwelwyr, yn cynnwys y rheini o dramor, i Safle Treftadaeth Byd Torfaen, sydd o bwysigrwydd byd-eang yn helpu diwylliant lleol i ffynnu ac ennyn balchder y gymuned.



Blaenoriaeth ein Cynllun Corfforaethol ac Amcan Llesiant ar gyfer 2021/22 ... Sicrhau bwrdeistref sirol sy'n lân ac yn wyrdd

Cadw'r fwrdeistref lleol yn lân a thaclus ac heb sbwriel...

Strydlun

Mae sbwriel yn broblem sylweddol yn Nhorfaen ac yn fater sy'n peri gofid i lawer o'n boblogaeth. Yn fras, rydym yn gwario dros £1.36M y flwyddyn ar hyn o bryd yn glanhau, codi sbwriel a chlirio eitemau sydd wedi eu tipio'n anghyfreithlon mewn mannau cyhoeddus.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, yn rhan o'r ymgyrch genedlaethol i waredu ar sbwriel, fe wnaethom lansio [strategaeth sbwriel a thipio anghyfreithlon](#) newydd ar gyfer cyfnod o bum mlynedd. Y strategaeth yw ein hymrwymiad i gadw Torfaen yn lle glân a gwyrdd i fyw a gweithio ac ymweld ag ef, a'n nod yw annog trigolion i ddangos yr un ymrwymiad a helpu i leihau'r costau glanhau sydd gennym bob blwyddyn. Bydd y strategaeth yn benodol yn helpu i gyflawni'r ymrwymadau a ganlyn:

- Byddwn ni'n cadw'r fwrdeistref yn lân a heb sbwriel
- Byddwn yn cefnogi trigolion sy'n gweithio i wella golwg eu cymuned leol
- Byddwn yn disgwyl i drigolion beidio â gollwng sbwriel, tipio'n anghyfreithlon na chaniatáu i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus




Ar ddechrau 2021, cafwyd cyllid gan LC drwy Cadw Cymru'n Daclus, i gyflogi cydlynedd tan fis Mawrth 2023, i gyflwyno rhaglen o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau yn ein Strategaeth Sbwriel.

Fe wnaeth mwy o waith partneriaeth barhau i fynd rhagddo gyda Cadw Cymru'n Daclus o dan faner Caru Cymru, gan gynnwys menter Gwanwyn Glân Cymru a chefnogaeth dydd i ddydd gan hyrwyddwyr sbwriel yn y gymuned a aeth ati'n wythnosol i gasglu sbwriel.

Cynhaliodd grwpiau gwirfoddol a gwirfoddolwyr unigol yn y gymuned, gyfres o sesiynau casglu sbwriel a glanhau afonydd yn ardal Torfaen, dros gyfnod o bythefnos yn y gwanwyn a'r hydref yn 2021. Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, mae 91 o wirfoddolwyr a gofrestrodd wedi bod wrthi'n casglu sbwriel ac mae 100% o'r eitemau a gafodd eu tipio'n anghyfreithlon wedi cael eu casglu o fewn yr amser ymateb. Mae hyn yn helpu i gynnal lleoedd diogel i bobl a bywyd gwyllt. Rydym yn gwerthfawrogi cyfranogiad pobl leol yn fawr iawn ac mae hon yn elfen bwysig iawn o'n hagenda 'glân a gwyrdd' sy'n helpu i gadw'r fwrdeistref yn rhydd o sbwriel a darparu cyfleoedd i ymgysylltu a rhyngweithio'n gymdeithasol.

Ochr yn ochr â gweithio gyda chymunedau lleol, rydym hefyd wedi ymgysylltu â'n harchfarchnadoedd lleol Asda a Morrisons i helpu i leihau nifer y troliau sy'n cael eu gadael, au hannog i weithredu cynllun cadw. O ganlyniad, mae nifer y troliau yr adroddir eu bod yn cael eu gadael, wedi bod yn isel.

Er bod yna gynnydd cyson wedi bod mewn tipio anghyfreithlon er 2019/20, gyda chynnydd sylweddol yn 2020/21, rydym (ers hynny) wedi gwella ein perfformiad o ran clirio tipio anghyfreithlon o fewn 5 diwrnod gwaith. Cwtogwyd ein gallu i glirio tipio anghyfreithlon yn 2020/21 o ganlyniad i lai o staff, oherwydd y pandemig, a mwy o eitemau'n cael eu tipio'n anghyfreithlon.



Mae ein gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yn parhau i weithio gyda Strydlun a thrigolion/gwirfoddolwyr o ran adroddiadau o dipio anghyfreithlon, mewn ymdrech i ganfod yr unigolyn neu'r unigolion sy'n gyfrifol am y gwastraff a'r tipio anghyfreithlon er mwyn cychwyn camau gorfodi, lle bo hynny'n briodol.

Diogelu'r Cyhoedd

Mae Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (GDMAC) yn helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ym mis Medi 2021, fe wnaethom adolygu ein GDMAC, sy'n ymwneud â rheoli cŵn i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac effeithiol, wrth i gadw Torfaen yn lân ac yn wyrdd.

Mae ein GDMAC yn Nhorfaen yn cynnwys tri math o gyfyngiad, y mae'n rhaid eu hadolygu bob tair blynedd. Mae'r cyfyngiadau, fel a ganlyn:

- Cŵn yn baeddu: Mae hwn yn GDMAC sy'n bodoli drwy'r fwrdeistref, ble mae peidio â chodi baw ci oddi ar unrhyw dir y mae gan y cyhoedd fynediad iddo, yn drosedd.
- Mannau Gwahardd Cŵn: Mae 140 o ardaloedd yn y fwrdeistref lle mae cŵn yn cael eu gwahardd, gan gynnwys tiroedd ysgol, ardaloedd chwarae i blant a chaeau chwaraeon pwrpasol. Hefyd, mae cŵn wedi'u gwahardd o ardal fridio'r Gornchwiglen ger Gwarchodfa Natur Llynnoedd y Garn.
- Mannau Cŵn ar Dennyn: Mae hefyd yn drosedd gadael ci oddi ar dennyn mewn ardaloedd penodedig, gan gynnwys Llynnoedd y Garn, Llyn Cychod Cwmbrân, a'n holl fynwentydd.



Fel rhan o'n hadolygiad, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad gyda'n trigolion yn gofyn iddynt gadarnhau a oeddent: yn dal i gefnogi'r GDMAC, a hoffent weld unrhyw newidiadau, neu a ydynt yn credu y dylid dileu'r GDMAC.

Cafwyd lefel dda o gyfranogiad cyhoeddus gan drigolion gyda 98% o'r ymatebwyr yn cadarnhau eu bod o blaid cadw cyfyngiadau'n ymwneud â baw cŵn, 84% o blaid cadw'r rhai sy'n ymwneud â pharthau gwahardd cŵn a 90% o blaid cadw cŵn ar dennyn.

Ym mis Tachwedd 2021, cyflwynwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus i'n Haelodau Cabinet a gymeradwyodd ymestyn y GDMAC presennol i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau, a chytunwyd i Swyddogion ddechrau adolygu'r meysydd ychwanegol a gynigiwyd gan aelodau'r cyhoedd yn ystod yr Ymgynghoriad. Mae'r gwaith hwn yn parhau ar hyn o bryd a bydd aelodau'n cael gwybod y canfyddiadau, ar ôl iddo gael ei gwblhau.

ein mesurau perfformiad	Cyfeiriad y daith	targed	perfformiad a adroddwyd 21/22	perfformiad a adroddwyd 20/21	Taflwybr 2-flynedd
% y priffyrdd a'r tir perthnasol a archwiliwyd oedd o safon uchel neu dderbyniol o ran glendid	Gorau po uchaf	98	97.5 (238 o raddau uchel neu dderbyniol o;r 243 o arolygiadau)	97.2	=
Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon	Gorau po isaf	1.5 diwrnod	0.78	2.91	↑
% yr achosion o dipio anghyfreithlon a gafodd eu clirio o fewn 5 diwrnod gwaith	Gorau po uchaf	99	99.89 (Clirwyd 899 o achosion o'r 900 o ddigwyddiadau a adroddwyd)	82.03	↑
% y gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon oedd yn cynnwys tystiolaeth yn dangos ei darddiad, a arweiniodd at gamau gorfodi ffurfiol gan Ddiogelu'r Cyhoedd	Gorau po uchaf	50	55.5 (10 achos o orfodi ffurfiol o'r 18 darn o dipio anghyfreithlon oedd yn cynnwys tystiolaeth)	44.1	↑
% y cwynion am wydr wedi torri yr ymatebwyd iddynt o fewn 1 diwrnod	Gorau po uchaf	86	98.1 (Ymatebwyd i 156 o gwynion ar darged o'r 159 o gwynion)	90.10	↑
% yr achosion o faw cŵn ar arwynebau caled yr ymatebwyd iddynt o fewn 3 diwrnod	Gorau po uchaf	95	98.4 (Ymatebwyd i 184 o gwynion ar darged o'r 187 o gwynion)	98.31	=
% y cwynion am ordyfiant/rhwystrau yr ymatebwyd iddynt o fewn 10 diwrnod	Gorau po uchaf	60	32.48 (Ymatebwyd i 102 o gwynion ar darged o'r 314 o gwynion)	51.9	↓
Mynegai Glendid (Mesur Blynyddol)	Gorau po uchaf	78	77.6	AMH – ni wnaeth Cadw Cymru'n Daclus Iunio adroddiad SRAALI	AMH

Gwastraff ac Ailgylchu

Rydym wedi parhau i weithredu cynllun gweithredu ein [strategaeth gwastraff](#) fel y mabwysiadwyd gan ein Haelodau Cabinet, yn Ebrill 2019. (Mae hyn yn sefydlu'r flaenoriaeth strategol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer gwastraff yn y dyfodol hyd at 2025).



Mae ein Strategaeth yn mynd y tu hwnt i fodloni targedau Llywodraeth Cymru yn unig. Trwy gyflwyno un strategaeth integredig, rydym wedi dangos sut y byddwn ni'n:

- cyflawni ein gweledigaeth;
- datblygu'r seilwaith sydd ei angen i wneud hyn,
- cydweithio ag eraill,
- ymgysylltu â thrigolion a'u haddysgu yn y lle cyntaf, a, lle bo'n briodol cymryd camau gorfodi, a
- gosod nodau Llesiant Cenadaethau'r Dyfodol wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud.

Trwy gydol 2021/22 rydym wedi:

- Dychwelyd i weithredu tri mewn cab yn dilyn newid i weithio fel confoi, fel y gwnaed ar ddechrau'r pandemig, ar ôl ymgysylltu â'r criwiau. Mae hyn yn golygu ein bod wedi dychwelyd i'r fethodoleg fwyaf effeithlon.
- Ar ôl ymgysylltu â'r criwiau a chael eu sêl bendith, fe wnaethom newid eu harferion gwaith fel ein bod bellach yn casglu ailgylchu a gwastraff ar y mwyafrif o ylliau banc gan wella'r gwasanaeth i drigolion.
- Ailgyflwynwyd y gofyniad i drigolion ddidoli bagiau yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref er mwyn lleihau maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w waredu a chynyddu maint y deunydd sy'n cael ei ailgylchu.
- Recriwtiwyd Rheolwr Gweithrediadau newydd a fydd yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaeth casglu effeithlon ac effeithiol i'n trigolion.
- Cwblhawyd 7 miliwn o gasgliadau gwastraff ar wahân, yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ailgylchu mewn blychau du, gwastraff o'r ardd, bwyd, cardbord a gwastraff gweddilliol, gan ddarparu gwasanaeth ailgylchu a gwaredu gwastraff effeithlon ar gyfer ein cymunedau.
- Fe wnaethom barhau i gaffael cerbydau ar gyfer rhan o'r fflyd cerbydau a fydd yn ein galluogi i gyflwyno gwasanaeth Glasbriant LIC yn ôl pob tebyg, gan arwain at wella gwasanaethau ar gyfer ein cymunedau. Mae'r broses gaffael cerbydau ailgylchu wedi ei chwblhau ers hynny a chyflwynwyd archeb ar gyfer 2 gerbyd trydan. Mae disgwyl i'r cerbydau fod ar waith erbyn diwedd Mai 22.
- Bydd trafodaethau parhaus yn ymwneud â chaffael safle arall ar gyfer ein cyfleuster ailbrosesu deunyddiau a fydd yn welliant ar y cyfleuster presennol, ac os caiff ei ddatblygu bydd yn derbyn yr holl wastraff o'r cerbydau newydd sy'n galluogi casglu ac ailgylchu mwy o ffrydiau ailgylchu a chreu gwelliannau i'r gwasanaeth casglu.
- Ymestynnwyd ein contract gweithrediadau a rheoli'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC), gan sicrhau bod gan ein cymunedau CAGC addas.
- Fe wnaethom gaffael contract newydd ar gyfer ein prosesydd gwastraff gwyrdd, gan sicrhau bod ein casgliadau gwastraff gwyrdd yn cael eu prosesu'n briodol.
- Symudom ymlaen i gaffael tryciau codi newydd ar gyfer cyfleuster ailbrosesu deunyddiau Tŷ Coch, gan wella gweithrediad y cyfleuster.
- Fe wnaethom weithio gydag awdurdodau lleol eraill a WRAP, sy'n ymwneud â'r gwelliannau posibl i'r dechnoleg gan gynnwys technoleg ail-osod a thechnoleg mewn cabiau fydd yn arwain at wella gwasanaethau yn y dyfodol, gwella profiadau cwsmeriaid a gwella effeithlonrwydd.
- Fe wnaethom barhau â'n gwaith gyda Capital Valley Plastics i gasglu ac ailgylchu deunyddiau plastig sy'n ymestyn. Mae'r gwaith hwn wedi'i atal oherwydd tân yn Capital Valley, ond y gobaith yw y bydd hyn yn cael ei ailgyflwyno pan fydd eu cyfleuster yn cael ei ailadeiladu ac yn caniatáu inni adfer ailgylchu'r ffrwd hon.
- Ar ôl cau'r siop ail-ddefnydd am fod un o'r partneriaid wedi tynnu'n ôl, rydym wedi trafod a sicrhau darparwr newydd a bydd y cyfleuster yn cael ei ailagor yn fuan, gan ganiatáu i ni werthu eitemau a oedd wedi cael eu cyfrannu i'w hailgylchu neu i waredu arnynt. Hyd yn hyn, mae'r siop ail-ddefnyddio yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Y Dafarn Newydd yn boblogaidd iawn ymysg trigolion ers iddo ailagor ym mis Rhagfyr. Ym mis Ionawr 2021, cafodd mwy na 3,100 o eitemau cartref eu hail-ddefnyddio yn hytrach na chael eu hailgylchu neu eu troi'n ynni.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd pandemig COVID-19 yn parhau, ac mae hyn wedi effeithio'n sylweddol ar weithrediad ein Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu, yn bennaf oll am fod Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi cael ei orfodi i gau, a rhoddwyd y gorau i ddiidoli bagiau yn y GAGC. Mae hyn bellach wedi ei ailgyflwyno.

Er gwaethaf y pandemig y gobaith oedd y byddai'r camau gweithredu yn ein Strategaeth Wastraff yn ein galluogi i gyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70% yn 2024/25. Wrth ymchwilio i'r rhesymau am y gostyngiad mewn perfformiad, ni ellir pennu rhesymau penodol am hyn. Fodd bynnag, y ffactor mwyaf arwyddocaol fu cynnydd y gwastraff gweddilliol o gasglwyd wrth ymyl y ffordd o gymharu â'r deunyddiau ailgylchu a gasglwyd wrth ymyl y ffordd. Credir mai'r rheswm am hyn oedd y newid a orfodwyd mewn ymddygiad yn ystod y pandemig, fel gweithio gartref, a mwy o ddefnydd o'r capasiti gwastraff gweddilliol yn parhau. O ran cyfranwyr eraill, roedd hi hefyd yn wir fod y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref yn gweld llai o ailgylchu a gwastraff, ac fel cyfrannwr at y targed, cafodd hyn effaith hefyd.



Rydym yn parhau i fonitro perfformiad o fewn y maes hwn a byddwn yn parhau i ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Rhaglen Gweithredu Adnoddau Gwastraff i barhau i geisio gwella ar ein perfformiad, a fydd nid yn unig yn cyflawni targedau'r llywodraeth, ond a fydd yn ennyn "cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall ein trigolion fod yn falch ohono.

ein mesurau perfformiad	Cyfeiriad y daith	targed	perfformiad a adroddwyd 21/22	perfformiad a adroddwyd 20/21	Taflwybr 2-flynedd
% y gwastraff trefol a gasglwyd yn yr awdurdod lleol, a gafodd ei ailgylchu	Gorau po uchaf	45.5	41.53 (17,836 tonnell o wastraff a ailgylchwyd o'r 42,952 tonnell a gasglwyd)	42.28	=
% y gwastraff trefol a gasglwyd yn yr awdurdod lleol a gafodd ei baratoi i'w aildddefnyddio	Gorau po uchaf	0.5	1.02 (438.2 tonnell o wastraff a gafodd ei aildddefnyddio o'r 42,952 tonnell a gasglwyd)	0.6	↑
% y gwastraff trefol a gasglwyd yn yr awdurdod lleol fel biowastraff a gafodd ei ddiidoli a'i gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall	Gorau po uchaf	18	19.63 (8,433 tonnell o wastraff a gafodd ei drin yn fiolegol o'r 42,952 tonnell a gasglwyd)	19.2	↑

ein mesurau perfformiad	Cyfeiriad y daith	targed	perfformiad a adroddwyd 21/22	perfformiad a adroddwyd 20/21	Taflwybr 2-flynedd
% y gwastraff trefol a gasglwyd yn yr awdurdod lleol a gafodd ei baratoi i'w ailddedfnyddio a/neu ei ailgylchu, yn cynnwys biowastraff sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall	Gorau po uchaf	64	62.18 (cyfuniad o 3 mesur a ddangosir uchod)	62	=
Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul person	Gorau po isaf	200	190.2	204.59	↑
Tunelledd o wastraff y gwaredwyd arno	Gorau po isaf	16,800	18,039	19223.3	↑

Gweithio mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol...

Datgarboneiddio

Rydym wedi gweithredu ystod o brosiectau datgarboneiddio a chynaliadwyedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf gyda'r nod o leihau'r ynni yr ydym yn ei ddefnyddio, yn cynnwys uwchraddio goleuadau stryd, ailwampio goleuadau LED a gosod nifer o Systemau Rheoli Ynni mewn adeiladau sector cyhoeddus.

Yn fwy diweddar, yn 2021, uwchraddiwyd goleuadau stryd ar ddau achlysur, gan ddefnyddio Rhaglen Ariannu Cymru. Mae deuodau allyrru golau, modern (LED) wedi disodli 1,922 o oleuadau stryd hen ffasiwn, ac mae'r rhain chwe gwaith yn fwy effeithlon na'r unedau blaenorol. Bydd yr uwchraddio'n arbed £50k ychwanegol yn flynyddol a lleihau allyriadau carbon ymhellach. Y disgwyl yw y bydd benthyciadau Rhaglen Ariannu Cymru yn cael eu talu 'nôl dros sawl blwyddyn, a hynny o'r arbedion sy'n cael eu gwneud ar filiau ynni, gan olygu bod y gwelliannau'n gost niwtral.



Ochr yn ochr â'r uwchraddio gyda Salix, mae'r awdurdod lleol hefyd wedi buddsoddi dros £614,000 mewn prosiectau a ariennir yn gorfforaethol gan gynnwys optimeiddio foltedd, goleuadau LED, pypiau pwll a boeleri newydd ar draws cyfleusterau cyhoeddus gan gynnwys y Ganolfan Ddinesig a chyfleusterau Hamdden. Mae'r prosiectau hyn wedi helpu i ostwng y biliau ynni blynyddol £120,000 ac arbed 549 o dunelli o garbon deuocsid.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae gennym gynlluniau pellach i wella'n hól-troed carbon a'n helpen werdd a'n gobaith yw buddsoddi mewn mwy o dechnolegau adnewyddadwy. Rydym yn asesu hyfywedd gosod tyrbinau gwynt yn y fwrdeistref.


Rydym wedi bwrw ymlaen â gwaith yn y prosiectau a ganlyn drwy gydol 21/22:

- asesu'r potensial i ddatgarboneiddio ein fflyd, drwy gerbydau trydan, sydd wedi'u leoli yn ein depo yn Y Dafarn Newydd. Sicrhwyd cyllid o £300K yn 2021/22 i'n cefnogi i ddatgarboneiddio'r fflyd, £25K i gefnogi adnoddau i ddatgarboneiddio a phrynu fan gwbl drydanol, newydd ar gyfer ein tîm gorfodi iechyd cyhoeddus, disodli dau gerbyd disel, mewn ymgais i sicrhau gwelliannau i'r gwasanaeth a diogelu'r amgylchedd rhag allyriadau niweidiol.

- Cwblhau 10 pwynt gwefru trydan deuol newydd i gerbydau yn Nhorfaen. Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill yng Ngwent, rydym wedi cael cyfran o £459,000 o gyllid gan Swyddfa Llywodraeth y DU ar gyfer Cerbydau Allyriadau Isel (OLEV), er mwyn dechrau datblygu'r seilwaith ar gyfer cerbydau'r dyfodol. Cafodd cais ar y cyd ei baratoi gan yr awdurdodau, gyda chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'i gyflwyno gan Gyngor Blaenau Gwent. O ganlyniad, mae 67 o bwyntiau gwefru cyflym yn cael eu gosod ar draws Gwent. Mae'r prosiect hefyd wedi cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a chyfoeth Naturiol Cymru.

Cynllunio

Mae egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi ei hymwreiddio yn y ddeddfwriaeth a'r polisiau Cynllunio a Rheoli Adeiladu sy'n bodoli eisoes, a chaiff ei chymhwysu drwy Gymru'r Dyfodol, y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), penderfyniadau Rheoli Datblygu, a Rheoliadau Rheoli Adeiladu. Felly, mae cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi bod yn ymhlwg ym mhob penderfyniad a wnaed gan ein Tîm Cynllunio a Rheoli Adeiladu ac mae Pandemig Covid 19, y mae'r gwasanaeth Cynllunio yn parhau i ymateb iddo, wedi pwysleisio pwysigrwydd y Ddeddf hon.



Mae cynllunio yn swyddogaeth amlweddol sy'n ceisio sicrhau gwell lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy sicrhau bod datblygu priodol yn mynd rhagddo ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir.

Mae penderfyniadau cynllunio yn Nhorfaen yn cael eu llywio gan y CDLI, sy'n ofyniad statudol i ddarparu'r cyfarwyddiadau strategol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y Fwrdeistref.

Mae CDLI cyfredol yn llywio penderfyniadau cynllunio lleol ac mae'r CDLI newydd ([CDLIN](#)) yn anelu i sicrhau bod unrhyw ddatblygu yn y dyfodol yn ymateb i'r heriau newydd sy'n dod i'r amlwg yn Nhorfaen. Ymhlith y rhain mae darparu tai a chyflogaeth, diogelu/integreiddio seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau, hybu teithio llesol a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Daeth yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir i ben yn 2021, ond mae'r oedi oedd yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 a gwaith ychwanegol sydd ei angen o ganlyniad i drafodaethau ymysg rhanddeiliaid, casglu tystiolaeth bellach a gofynion cynllunio cenedlaethol, i gyd wedi codi nifer sylweddol o faterion, sydd angen eu hystyried o ran cynnydd y CDLIN. Felly, mae angen adolygu: y cynllun ac amserlen newydd, ar gyfer paratoi'r cynllun. Y gobaith yw rhoi'r manylion llawn i'r Cyngor o ran sut yr ydym yn mynd i symud ymlaen â'r CDLIN, maes o law.

Cynnal manau agored ar dir sy'n eiddo i'r cyngor i safon sy'n dderbyniol a gweithio gyda perchnogion tir preifat a phartneriaid lleol i sicrhau hyn...

Yr Amgylchedd a Strydlun – Y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd

Yn 2021, fe wnaethom fabwysiadu'r [Strategaeth Seilwaith Gwyrdd](#) gyda'r bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), sy'n nodi'r fframwaith i gynnal, gwella a hyrwyddo'n amgylchedd naturiol i gyflawni nodau a champau gweithredu ehangach yn nhermau llesiant. Dyluniwyd y strategaeth er mwyn helpu i lywio a chydlynu'r gwaith o wella a rheoli seilwaith gwyrdd yn Nhorfaen, i ddarparu manteision lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd nawr ac yn y dyfodol, (yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru). Mae'r strategaeth yn ein helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a'r



blaenoriaethau a nodwyd gan drigolion a sefydliadau rhanddeiliaid yn Asesiad Llesiant Torfaen.

O fewn cyd-destun y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, rydym hefyd wedi mabwysiadu strategaeth newydd o reoli coed a choetir sy'n ceisio datblygu dull mwy cydlynol o blannu, rheoli, amddiffyn a gwerthfawrogi coed. Mae'r strategaeth wedi cefnogi ceisiadau ariannol gan amrywiaeth o ffynonellau grant.

Yn benodol, mae'r arian grant allanol wedi ein helpu i ddechrau cyflawni ein hymrwymiaidau cadarn yn nhermau'r amgylchedd, drwy newid cyfundrefnau torri porfa, plannu coed, gweithgareddau ar sail natur, ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, adfer mawnogydd a gwella mynediad. Mae'r gweithgareddau hyn wedi ein galluogi i gychwyn ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, fel a ganlyn:

- plannu 1206 o goed, sy'n cynnwys coed brodorol yn bennaf, fel derw digoes, ffawydd, masarn bach a'r ddraenen wen.
- sefydlu dwy berllan newydd ym Mharc Brooklands a Llyn Cychod Cwmbrân gan blannu coed afalau ac eirin brodorol, lleol, sef Pride of the Valleys (Merthyr Tudful).
- plannu coed ar safle Llyn Cychod Cwmbrân, Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon a Pharc Pont-y-pŵl, i gyfrannu at brosiect Canopi Gwyrdd y Frenhines.
- gosod arwyddion a byrddau dehongli ym Mharc Pont-y-pŵl, ar gyfer enillydd Coeden y Flwyddyn yng Nghymru, Coed Cadw 2019 (Castan)
- sefydlu partneriaeth gyda chyngor Caerdydd, Sir Fynwy a Blaenau Gwent i gymryd rhan mewn contract fframwaith ar y cyd, ar gyfer gwaith torri coed a gwaith cynnal a chadw
- datblygu rhaglen waith i ddelio â chlefyd coed ynn
- arallgyfeirio ein parciau a'n mannau gwyrdd er budd pobl a bywyd gwylt, trwy wahanol gyfundrefnau rheoli porfa, i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol, yn ogystal â dal a storio mwy o garbon, gan adeiladu ar ymrwymiaidau blaenorol a wnaed gennym, yn unol â dyletswyddau deddfwriaethol.

Mannau Agored

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed gwelliannau i barciau Garn yr Erw, Y Dafarn Newydd a Gerddi Oakfield i wella cyfleoedd i blant chwarae, ac annog oedolion sy'n goruchwyllo i dreulio amser yn yr awyr agored.

Rydym hefyd wedi cyrraedd ein targedau o ran rheoli bioamrywiaeth a mynediad y cyhoedd, gan gynnwys gwarchodfeydd natur lleol, y bartneriaeth bioamrywiaeth leol, y fforwm mynediad lleol (gyda Blaenau Gwent) ac wedi darparu cyngor amserol i dimau eraill sy'n ymwneud ag ecoleg, y dirwedd, mynediad a threftadaeth i gefnogi datblygu cynaliadwy. Mae'r gwaith yma wedi cynnig mannau i bobl leol ac ymwelwyr dreulio amser yn yr awyr agored, mewn ardaloedd sy'n gyfoeth o natur, ac felly'n gwella lles a bioamrywiaeth.

Rydym hefyd wedi datblygu Asesiadau o Fannau Agored a thirweddau, ecoleg a mynediad ar gyfer holl Safleoedd Ymgeisiol ychwanegol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn hanfodol o ran ein helpu i gyflawni gofynion statudol Cynllun Datblygu Lleol y dyfodol, gan sicrhau dull cynllunio cytbwys wrth ddefnyddio tir, sef un sy'n ystyried hamdden, seilwaith gwyrdd, coed, bioamrywiaeth a chwarae wrth symud ymlaen.

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ein parciau a'n mannau agored yn Nhorfaen, ac un o'n cyflawniadau mwyaf yn 2021/22 oedd pan ddyfarnwyd statws Baner Werdd i bedwar o'n safleoedd. Dyfarnwyd baneri i Lyn Cychod Cwmbrân, Gwarchodfa Natur Leol Llynnoedd y Garn, Parc Panteg a Pharc Pont-y-pŵl, a hynny i gydnabod eu cyfleusterau rhagorol i ymwelwyr, eu safonau amgylcheddol uchel a'u hymrwymiad i gyflawni man gwyrdd o safon ardderchog.



Yn ystod haf 2021, aethpwyd ati i recriwtio a chyflogi Swyddog Camlas. Mae deiliaid y swydd yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth a cheisio ffynonellau cyllid allanol i adfer a chynnal a chadw'r gamlas, ledled y fwrdeistref.

Ym mis Tachwedd 2021, dechreuodd y gwaith o greu ardal newydd i bobl sydd â diddordeb mewn bywyd gwylt, a hynny

ar hyd y gamlas yng Nghwmbrân. Roedd y cynlluniau yn cynnwys platfform i archwilio'r pyllau dŵr newydd a seddi ar hyd ymyl y gamlas ger Parc Pontnewydd, yn ogystal â llwybrau troed gwell a phont droed newydd i'r parc. Bydd mynedfa newydd i'r parc, wedi'i thirlunio hefyd yn cael ei hadeiladu cyn hir, i gyflwyno ymwelwyr i'r gamlas.

Mae'r prosiect yn rhan o Raglen Triongl Antur Camlas Mynwy ac Aberhonddu, gyda'r nod o ddatblygu gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored, twristiaeth a hamdden ar hyd y gamlas yn Nhorfaen a Chaerffili a hefyd yn cysylltu ardaloedd ucheldirol Mynydd Maen.

Dangosodd y pandemig i ni pa mor bwysig yw parciau a manau gwyrdd o safon uchel i'n cymunedau, a gyda mwy o ymwelwyr nag erioed yn mwynhau ein manau gwyrdd, rhaid canmol gwaith caled y staff a'r gwirfoddolwyr, o ran ein helpu i gynnal safonau ardderchog yn y safleoedd hyn.

Canfod cyfleoedd i gynyddu nifer y teithiau hanfodol a wneir drwy gerdded a seiclo...

Teithio Llesol

Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu a gweithredu llwybrau teithio llesol newydd yn y Fwrdeistref. Adroddir yn flynyddol ar gyfanswm hyd y llwybr teithiau llesol mewn metrau. (Fel rhan o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae'n rhaid i ni, ac awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, fapio, cynllunio ar gyfer gwella a hyrwyddo cyfleoedd teithio llesol. Mae Teithio Llesol yn golygu cerdded a beicio wrth deithio bob dydd ee fel cyrraedd yr ysgol, y gwaith, siopau, gwasanaethau iechyd a hamdden ac nid at ddibenion hamdden yn unig).

Aethpwyd ati i recriwtio Swyddog Teithio Llesol ar ddechrau 2021 a chyflogwyd swyddog newydd.

Fel rhan o'n cam i adolygu ein Map Rhwydwaith Integredig, ar ddiwedd Mehefin 2021, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad i ddarganfod gan ein trigolion sut y byddai modd gwella llwybrau cerdded a beicio ledled Torfaen, mewn ymgais i annog trigolion i ymatal rhag defnyddio'u, ar gyfer teithiau bob dydd.

Nod yr ymgynghoriad oedd darganfod sut y gellir gwella ac ymestyn y rhwydwaith. Roedd hefyd yn gyfle i ddarganfod yr heriau gwahanol y mae cerddwyr a beicwyr yn eu hwynebu a'r hyn y gellir ei wneud i helpu. Er enghraifft, beicwyr yn defnyddio eu clychau i rybuddio cerddwyr, a pherchnogion cŵn yn sicrhau bod anifeiliaid anwes ar dennyn, pan fydd angen i feicwyr basio.



Fe wnaeth dros 1000 o bobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac fe wnaeth yr ymatebion hynny helpu i lunio drafft o Fap Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNM) i Dorfaen.

O ganlyniad, ychwanegwyd 111km ychwanegol o lwybrau i'r rhwydwaith, a chynhaliwyd ymgynghoriad pellach yn gofyn i drigolion roi eu barn ar y rhannau newydd, ynghyd â'r llwybrau presennol sydd angen gwelliannau.

Mae'r adriafiad newydd o'r map rhwydwaith teithio llesol ar gyfer Torfaen wedi ei gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Cychwynnom hefyd ar godi Gorsaf Rheilffordd Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd. Mae hyn yn rhan o brosiect gwerth £7.9m, a fydd yn cynnwys gwella gorsafoedd, manau newydd i wefru cerbydau trydan, a phont droed a lifft, gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n teithio mewn modd cynaliadwy o bob rhan o'r fwrdeistref a'r ardaloedd cyfagos.

Cyngor Torfaen, Dinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r cynllun, a bydd yn un o gynlluniau cyntaf Metro Plus Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gael eu cyflawni.

ein mesurau perfformiad	Cyfeiriad y daith	targed	perfformiad a adroddwyd 21/22	Perfformiad a adroddwyd 20/21	Tafllwybr 2-flynedd
Gwelliannau a wnaed i lwybrau teithio llesol mewn metrau (Mesur Blynyddol)	Gorau po uchaf	250	495	AMH – mesur newydd ar gyfer 21/22	AMH

Datblygu a gweithredu ein cynllun gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur...

Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur

Yn 2019, fe wnaeth Cyngor Torfaen ddatgan argyfwng hinsawdd ac ymrwmo i fod yn garbon sero net erbyn 2030. Ers y cyfnod hwn, mae'r Cyngor hefyd wedi datgan argyfwng natur ar 21 Medi 2021, i gydnabod y bygythiad difrifol yn sgil llai o fioamrywiaeth. Roedd datblygu'r cynllun yn cynnwys swyddogion o bob rhan o'r Cyngor gan gynnwys Arweinyddiaeth, y Fforwm Datblygu Polisi a'r Fforwm Penaethiaid Gwasanaeth. Fe wnaeth argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau a Busnes hefyd lunio ein dull gweithredu.

Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein gweledigaeth, ein blaenoriaethau a'n hamcanion, gwnaethom ofyn i'n cymunedau sut y gallent helpu i leihau allyriadau carbon ar draws y fwrdeistref.

Roedd cyfranogiad pellach gan y gymuned yn cyd-fynd â Chynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP 26) ym mis Hydref/Tachwedd 2021, lle buom yn cynnal gweithgareddau amrywiol ar y cyfryngau cymdeithasol, i godi ymwybyddiaeth ac i ofyn i'n cymunedau beth oedden nhw'n ei feddwl o'r camau a nodwyd yn y cynllun gweithredu drafft, a pha gamau eraill y dylid eu cymryd yn eu barn nhw. Ymgysylltwyd â staff hefyd ar yr adeg hon.

Lansiwyd Rhwydwaith Llysgenhadon Hinsawdd hefyd ym mis Tachwedd 2021 - i gydnabod bod angen eiriolwyr a hyrwyddwyr ar y gymuned sy'n efelychu arferion gorau ac sy'n cydnabod nad mater i'r Cyngor yn unig yw newid yn yr hinsawdd a natur sy'n prnhau ond yn hytrach, bod angen i bawb weithio gyda'i gilydd.

Ym mis Chwefror 2022, cymeradwywyd ein [Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur](#) gan y Cabinet, a wnaeth gydnabod yr angen, a chytuno i sefydlu Is-grŵp Cabinet i oruchwyllo'r cynnydd a'i weithrediad llwyddiannus.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf is-grŵp y Cabinet ym mis Mawrth 2022.



**Blaenoriaeth Ein Cynllun Corfforaethol ac Amcan Llesiant 2021/22e...
... Darparu cefnogaeth i Les Plant a Phobl Ifanc a Chodi Cyrhaeddiad
Addysgol**

Gweithio gydag ysgolion, cyrff llywodraethu a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) i gyflawni addysg o ansawdd a gwella canlyniadau i ddysgwyr...

Cyrhaeddiad

Fel awdurdod lleol rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwella cyfleoedd bywyd er mwyn galluogi pobl i wireddu eu potensial a chyfrannu at yr economi leol. Mae gweithio i sicrhau bod gan bob dysgwr sgiliau llythrennedd a rhifedd effeithiol yn un o'r prif flaenoriaethau sydd gennym wrth sicrhau eu bod wedi eu harfogi i ddod yn rhan o weithlu cynhyrchiol, a fydd yn cefnogi Cymru lewyrchus.

Mae'r newidiadau sy'n gysylltiedig â datblygiad Cwricwlwm newydd i Gymru ac effaith y pandemig ar arholiadau cyhoeddus wedi golygu bod awdurdodau wedi gorfod addasu'n gyflym ar sut i farnu cynnydd a safonau yn ein hysgolion ac i nodi'n gywir y gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion unigol.

Nid oes gennym bellach y cyfoeth o ddata perfformiad na data Categorioreiddio Cenedlaethol a lywiodd ein ffordd o feddwl o'r blaen, felly rydym wedi gorfod dibynnu ar ffynonellau gwybodaeth ehangach fel rhan o'n deialog barhaus gydag ysgolion, gwasanaethau'r ALI a'n partner gwella ysgolion rhanbarthol, y GCA.

Er gwaethaf popeth a daflwyd atom yn sgil y pandemig, ni allwn ond pwysleisio a sylweddoli holl egni a dyfalbarhad anhygoel ein dysgwyr a'r holl staff addysgu/staff ysgol.

Ar y cyfan, roedd canlyniadau arholiadau Haf 2021 yn Nhorfaen, yn braf galonogol iawn ac yn dilyn tueddiadau cenedlaethol, gyda'r canlyniadau'n gwella'n gyffredinol ac yn sylweddol ar raddau uwch A*/A. Fe wnaeth ddysgwyr ôl-16 Torfaen dderbyn eu set gyntaf o ganlyniadau cadarnhaol iawn gan ein Parth Dysgu newydd yn Nhorfaen.

Efallai bod y pandemig wedi arwain at fylchau sylweddol yn addysg disgyblion. Mae maint yr her hon yn ddibynnol ar ystod o faterion sy'n cynnwys effeithiolrwydd strategaethau dysgu o bell, mynediad disgyblion at dechnoleg ddigidol ac ansawdd y gefnogaeth gartref. Ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar i asesu effaith cyfnod y pandemig yn llawn ar safonau a chynnydd dysgwyr, er mai'r ffocws mawr wrth symud ymlaen, ar gyfer pob lleoliad a'r Awdurdod Lleol fydd yr her barhaus ynghylch adennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr, i sicrhau y gall yr holl ddysgwyr yn Nhorfaen gyrraedd eu canlyniadau disgwylidig.

ein mesurau perfformiad	cyfeiriad y daith	targed	perfformiad a adroddwyd 21/22	perfformiad a adroddwyd 20/21	Taflwybr flynedd
<p><i>Mae Llywodraeth Cymru wedi atal cyfrifo a chyhoeddi mesurau perfformiad allweddol ar gyfer cyrhaeddiad ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021 a 2022, felly ni allwn gyflwyno'r data hwn. Fodd bynnag, rydym yn ceisio datblygu systemau a phrosesau newydd a fydd yn darparu data ystyrlon a fydd yn ein helpu i bennu ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn well yn 2022/23.</i></p>					

Presenoldeb

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn parhau i fod yn ffocws parhaus i'r Gwasanaeth Addysg, o ganlyniad y pandemig.

Mae'r hyn yr ydym ni wedi ei etifeddu yn dilyn cyfnod COVID 19, o ran polisi presenoldeb cenedlaethol a lleol, a chynnydd yn nifer y rhieni sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref, wedi cael effaith andwyol ar gyfraddau presenoldeb cyffredinol ar draws y fwrdeistref.

Felly, rydym yn bwriadu gweithio ar y cyd gyda'n hysgolion i atgyfnerthu ein menter "Ymdrechu i daro'r 95", i wella presenoldeb disgyblion a lleihau absenoldeb parhaus ac absenoldeb heb awdurdod yn ein hysgolion, wrth symud ymlaen.



a/neu ddysgu yn y gweithle (yr uchaf yng Nghymru). Roedd y farchnad gyflogaeth ym mis Mehefin-Hydref (sef y cyfnod y mae pobl ifanc yn chwilio am gyrchfan) yn gyfnewidiol o ganlyniad pandemig Covid-19 a oedd, o ystyried dewis y dysgwyr i ddechrau ym myd gwaith, yn cyflwyno risg ychwanegol yn Nhorfaen eleni.

Unwaith y daw data i law ynghylch cyrchfannau rhagfynegol, bydd y grŵp Llwybrau Cadarnhaol yn ystyried pa gymorth pellach y gellir ei rhoi i bobl ifanc sy'n chwilio am waith os bydd y tueddiadau hyn yn parhau.

Er bod nifer y rheini nas gwyddys amdanynt wedi codi oherwydd cyfyngiadau ar olrhain, mae'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r GCA.

Blwyddyn	NEETs (%) Torfaen	NEET GCA (%) ar gyfartaledd	NEET Cymru (%) ar gyfartaledd	Anhysbys yn Nhorfaen (%)	Anhysbys i'r GCA ar gyfartaledd (%)	Anhysbys yng Nghymru ar gyfartaledd (%)
2014	2.2	3.1	3.1	0.0	0.5	0.6
2015	1.9	2.3	2.8	0.0	0.2	0.5
2016	2.0	2.0	2.0	0.0	1.4	0.8
2017	1.1	1.6	1.6	0.0	0.4	0.5
2018	1.8	1.7	1.6	0.7	1.4	3.5
2019	2.1	1.7	1.8	0.4	1.1	1.1
2021	2.6	1.9	1.6	0.9	1.3	1.2

Trwy gydol 2021/22 rydym wedi parhau i baratoi cynllun busnes ar fodel y dyfodol ar gyfer prosiectau NEETS, unwaith y bydd cyllid yr UE yn dod i ben yng ngaeaf 2022. Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, ni fydd y DU bellach yn gallu cael arian Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a fu'n brif gyllidwr prosiectau cyflogadwyedd Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd yr arian allanol sydd ar gael i gyflenwi prosiectau cyflogadwyedd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gostwng o £3.5M i £700K, oni bai bod ffynonellau cyllid eraill ar gael.

Ym mis Ebrill 2022, rhyddhaodd Llywodraeth y DU fanylion pellach am y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), gan gynnwys y galw ar awdurdodau lleol weithio'n rhanbarthol i gynhyrchu Cynllun Buddsoddi rhanbarthol erbyn 1 Awst. Mae pob Awdurdod Lleol wedi derbyn dyraniad o gyllid ar gyfer 2022/23/24.

Yn y 18 mis diwethaf, mae swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi arwain ymdrechion i ddod â phob un o'r 10 awdurdod lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ynghyd i adolygu'r blaenoriaethau cyflogadwyedd, myfyrio arnynt a'u hail-lunio, yn barod ar gyfer lansio Cyllid Ffyniant Cyffredinol yn y dyfodol. Wrth ddilyn y camau hyn, mae'r 10 awdurdod lleol bellach wedi paratoi cyflwyniad ar y cyd i'w gynnwys yng Nghynllun Buddsoddi drafft CFfG. Mae hyn yn cynnwys modd o ariannu i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn ogystal â chymorth cyflogadwyedd ehangach i'r rhai 16+ sydd ar hyn o bryd yn NEET.

Cydlynu a darparu cymorth sy'n hybu llesiant staff a disgyblion ymhob ysgol...

Ysgolion Iach

Mae llawer wedi ei wneud i annog ysgolion i ymateb ac adrodd yn gywir ar achosion o fwlio sydd wedi eu cadarnhau, a rhoi blaenoriaeth i waith gwrth-fwlio.

Mae data am fwlio wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod lleol bob tymor, trwy gydol 2021/22. Mae ysgolion cynradd yn defnyddio SIMS sydd yn cynnwys systemau adrodd. Mae ysgolion uwchradd wedi cwblhau a dychwelyd ffurflen fwlio (ar bapur) yn dymhorol. Mae'r ddwy system yn cyd-fynd â'r Nodweddion Gwarchoddedig, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae ysgolion yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd ynghylch eu rhwymedigaeth i roi gwybod am ddigwyddiadau sydd wedi'u cadarnhau i'r awdurdod lleol yn ystod y tymor, a hynny drwy e-bost, ac mae e-byst dilynol yn

cael eu hanfon i ysgolion sy'n methu ymateb neu sy'n adrodd 'dim' bwlio. Cofnodir canlyniadau mewn Log Camau Gweithredu Gwrth-Fwlio. Mae cyngor i ysgolion, sy'n annog adrodd am achosion o fwlio sydd wedi'u cadarnhau yn parhau, a darperir hyn drwy e-bost a sgysiau ffôn.

Mewn ymateb i gynnydd mewn achosion honedig o aflonyddu rhywiol/bwlio (a adroddwyd gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 drwy Arolwg Gwrth-Fwlio Torfaen), comisiynodd yr awdurdod lleol elusen iechyd rhywiol Brook i ddarparu hyfforddiant "Arf Hyfforddiant Goleuadau Traffig Ymddygiadau Rhywiol". Roedd yr hyfforddiant hwn yn helpu staff yr ysgol i adnabod, deall, ymateb, ac adrodd am aflonyddu rhywiol/bwlio mewn ysgolion.

Mae hyfforddiant rhithwir pellach gan VAWDASV Gwent wedi cael ei argymhell i'r ysgolion hynny lle cafwyd honiadau o aflonyddu rhywiol/bwlio.

Datgelodd aelodau Fforwm Ieuenctid Torfaen anghysondebau yn y modd yr ymatebodd staff yr ysgol pan adroddwyd am achosion o fwlio (e.e. materion na chymerwyd o ddifri, dim canlyniad boddhaol). Er mwyn mynd i'r afael â hyn ac i atgyfnerthu pwysigrwydd cofnodi ac adrodd achosion o fwlio a gadarnhawyd, comisiynodd yr awdurdod lleol *Positive Vibes International* i gyflwyno cyfres o bedwar gweithdy, trwy gydol 2021/22. Arweiniodd hyn at weithgor yn datblygu ffeithlun i annog cysondeb wrth adrodd am fwlio ar draws yr awdurdod lleol.

ein mesurau perfformiad	cyfeiriad y daith	targed	perfformiad a adroddwyd 21/22	perfformiad a adroddwyd 20/21	Taflwybr 2-flynedd
Nifer yr ysgolion sy'n adrodd gostyngiad mewn achosion o fwlio a chynnydd mewn lefelau dysgu	Gorau po uchaf	10	16	0	↑


Iechyd Meddwl

Ym mis Tachwedd 2021, cymeradwyodd ein Cabinet gynlluniau i fuddsoddi £1.2 miliwn i helpu'r gymuned i adfer yn dilyn COVID-19 ac fel rhan o'r buddsoddiad hwn, i ddarparu darpariaeth cwnsela ychwanegol i bobl ifanc yn ein cymunedau.

Mae'r prosiect hwn yn cynyddu'r cymorth cwnsela am ddim sydd ar gael yn y fwrdeistref ar gyfer pobl ifanc rhwng 7 ac 19 oed mewn ymateb i heriau ychwanegol a achoswyd gan y pandemig.

Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd drwy'r Grŵp Llwybrau Cadarnhaol yn dangos er nad yw nifer y bobl ifanc sy'n gofyn am gymorth ychwanegol yn cynyddu'n sylweddol ar hyn o bryd, gyda'r galw yn dychwelyd i'r lefelau cyn COVID, mae nifer o newidiadau pryderus yn y galw yn dod i'r amlwg, oherwydd y ffactorau canlynol:

- Nododd yr holl asiantaethau oedd yn bresennol, lefelau uwch o bryder ymysg pobl ifanc yn gyffredinol a bod diffyg lles ar draws ystod oedran y bobl ifanc y maen nhw'n gweithio gyda nhw.
- Mae pobl ifanc yn mynegi pryder am ddychwelyd i'r ysgol mewn llawer o achosion ac am drosglwyddo i leoliadau newydd fel coleg neu waith.
- Mae canolfannau gwaith yn dweud nad yw Pobl Ifanc yn ymgysylltu â nhw oherwydd pryder.
- Mae tensiynau yn y gymuned yn dwysau – Mae Diogelwch Cymunedol yn adrodd am ddwysâd yn hytrach na chynnydd yn nifer yr ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gall niferoedd yr achosion fod yn statig (ar y cyfan) ond mae tuedd gyffredinol o ran cymhlethdod cynyddol yr anghenion a gyflwynir.
- Mae pryder eang ymhlith asiantaethau bod gwytnwch llawer o bobl ifanc wedi'i lwyr ymlâdd drwy gydol y pandemig hyd yma, gan arwain at faterion y gellid bod wedi'u trin yn gyflym yn dwysau ac yn galw am ymyriadau mwy sylweddol. Mewnbynau:



Mae ein staff yng Nghanolfan Pobl Ifanc Cwibrân (CCYP) yn gyfrifol am ddarparu a rheoli'r ddarpariaeth ychwanegol, gan gynnig lefel mwy sylweddol o gymorth i'n pobl ifanc.



Llesiant

O ganlyniad i'r pandemig mae cyfoeth o brosiectau wedi'u darparu'n effeithiol gan ein Timau Chwarae, Datblygu Chwaraeon a Gwasanaethau Ieuenctid i gynyddu niferoedd y plant a phobl ifanc.

Trwy weithio ar y cyd, mae ein timau ymroddedig wedi cyflwyno gweithgareddau difyr wrth ddilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol, yng nghanol y pandemig, i sicrhau fod gan blant amgylchedd difyr a diogel i chwarae.

Yn y sesiynau hyn cafodd plant gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys y filltir ddyddiol, gemau tîm, cerddoriaeth, celf a chrefft a mwy.

Yn ystod gwyliau ysgol, cyflwynwyd cyfres o wersylloedd llwyddiannus mewn amryw o ysgolion cynradd ar draws y Fwrdeistref, gan ganolbwyntio ar les a chynnig cyfle i fwy na 120 o blant bregus gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, bod yn greadigol drwy chwarae ac yn gyffredinol, cael cyfle i ollwng rhywfaint o stêm, yn ystod y cyfnod traferthus hwn.

Roedd y gweithgareddau a gyflwynwyd yn gysylltiedig â'r "5 ffordd at les" sy'n annog plant i Gysylltu, Rhoi, Cymryd Sylw, Dal ati i Ddysgu a Bod yn Actif.

Daeth dros 30 o weithwyr chwarae a 5 o weithwyr datblygu chwaraeon at ei gilydd i ddarparu'r sesiynau lles cadarnhaol ac yn ogystal, darparwyd dwy ddarpariaeth lles arbenigol ar gyfer plant ag anableddau a nodwyd gan Ysgol Crownbridge, y Tîm Cynhwysiant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Parhaodd pwyslais mawr drwy gydol 2021/22 ar gefnogi ein disgyblion bregus. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau chwarae a seibiant yn cael eu cyflwyno i blant ag anableddau ac ymddygiadau cymhleth a thrwy weithio mewn partneriaeth gyda'n Tîm Cynhwysiant a'n timau' yn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Mae Plant sy'n Derbyn Gofal, gofalwyr ifanc a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant hefyd wedi cael cymorth i gael mynediad at ddarpariaeth chwarae, yn gysylltiedig ag ysgolion yn ystod gwyliau.

ein mesurau perfformiad	cyfeiriad y daith	targed	perfformiad a adroddwyd 21/22	Perfformiad a adroddwyd 20/21	Taflwybr 2-flynedd
Nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y rhaglen iechyd meddwl a lles	Gorau po isaf	600	1405	0 – oherwydd y cyfnod clo	↑

Gwella a datblygu y dull cynhwysiant digidol i ddysgwyr...

Chwarae

Er mwyn ategu at ddysgu yn y cartref sydd eisoes yn digwydd yn ein hysgolion, ym mis Ionawr 2021, rhoddodd ein Gwasanaeth Chwarae adnoddau a gweithgareddau ychwanegol ar-lein i deuluoedd gymryd rhan ynddynt gartref. O ganlyniad i'r cyfnod clo, teimlwyd yn annatod y dylai plant allu chwarae gan fod ganddo gymaint o fanteision i'w hiechyd corfforol a meddyliol.'



Gan ganolbwyntio ar y cysyniad o ddysgu drwy chwarae, cafodd rhaglen o weithgareddau dyddiol ei gyhoeddi ar dudalen Facebook Adran Chwarae Torfaen – Chwarae Torfaen Play ac aeth y rhaglen rhagddi tan i'r ysgolion ailagor.

Cafodd teuluoedd gyfle i ddefnyddio'r adnodd ar-lein, pan oedd ei angen arnynt, a hynny i gyd-fynd a'u hamserlen ysgol i ddysgu yn y cartref.

ein mesurau perfformiad	cyfeiriad y daith	targed	perfformiad a adroddwyd 21/22	perfformiad a adroddwyd 20/21	Tafllwybr 2-flynedd
Nifer y plant sy'n derbyn gofal a gafodd gymorth i fynychu darpariaeth chwarae	Gorau po uchaf	100	163	160	↑
Nifer y gofalywyr ifanc a gafodd gymorth (cronnus)	Gorau po uchaf	25	80	Mesur newydd ar gyfer 20/21	AMH
Cyfanswm nifer y plant ag anableddau ac Anghenion Addysgol Arbennig a gefnogir gan Staff Chwarae (cronnus)	Gorau po uchaf	140	336	370	↓
Nifer y sesiynau seibiant a ddarperir gan y Gwasanaeth Chwarae	Gorau po uchaf	60	607	278	↑

Dysgu ac Addysgu

O ganlyniad i'r pandemig, bu'n rhaid i ni, ynghyd â'n partner gwella ysgolion - y GCA (Gwasanaeth Cyflawni Addysg) addasu'n gyflym i ailffocysu ein hadnoddau, i gefnogi ffyrdd newydd o weithio ac anghenion gweithredol penodol pob ysgol a lleoliad nad ydynt yn cael eu cynnal. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r ddau sefydliad wedi bod yn ymateb i ofynion newidiol ysgolion a lleoliadau gofal plant, er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad amhrisiadwy gan gynnwys dysgu proffesiynol i alluogi staff i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol trwy ddysgu ar-lein/cyfunol yn effeithiol, yn ogystal â rhoi cymorth i ddisgyblion a staff er mwyn ceisio gofalu am eu lles.

Elfen allweddol o hyn fu'r gefnogaeth i'r rheini sydd dan anfantais ddigidol a datblygiadau TGCh yn y dyfodol ynghylch y Cwricwlwm newydd. Fe wnaeth llawer o ysgolion yn ein Harolwg Penaethiaid 2021 nodi bod ansawdd y gefnogaeth dechnegol a ddarparwyd iddynt ar gyfer TGCh, yn foddhaol neu well, gyda sgôr o 51% yn dda neu'n well. Yn ogystal, nododd pob ysgol bod ansawdd cymorth cwricwlwm ar gyfer TGCh yn foddhaol neu'n well gyda 96% yn dda neu'n well.

Annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg ôl-16 neu hyfforddiant

Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Cafodd canolfan newydd gwerth £24m ar gyfer pob agwedd ar addysg ôl-16 yn Nhorfaen ei agor yn swyddogol ym mis Hydref 2021.

Agorodd Parth Dysgu Torfaen Coleg Gwent, yng Nghwmbryn, i fyfyrwyr ym mis Ebrill 2021. Ers y cyfnod hwn, mae dros 1,300 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gyrsiau Lefel A, amrywiaeth o gymwysterau galwedigaethol, graddau sylfaen a Bagloriaeth Cymru



Mae'r ganolfan newydd, yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf gan gynnwys ystafell gerddoriaeth a chyfryngau, neuadd berfformio a labordai gwyddoniaeth ac mae wedi'i lleoli drws nesaf i archfarchnad Morrisons. Mae ganddo gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus ardderchog o bob rhan o'r fwrdeistref.

Mae'r ganolfan newydd yn disodli chweched dosbarth mewn tair ysgol cyfrwng Saesneg ym Mhont-y-pŵl a Chwbrân.

Cynllunio ar gyfer adeiladau newydd ac adeiladau o well cyflwr sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif...

Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Mae rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn un o ymrwymadau Cymru'n Un, ac mae'n gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynghorau. Mae'n rhaglen fuddsoddi cyfalaf mawr, hirdymor a strategol gyda'r nod o greu cenhedlaeth o Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn creu ysgolion o'r math a'r maint cywir yn y lle cywir.

Mae Band B ein rhaglen fuddsoddi wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod. Mae'r prosiectau'n cynnwys:

- Cwblhau'r ganolfan newydd ar gyfer addysg ôl-16 - Parth Dysgu Torfaen yng Nghwbrân, sy'n disodli'r 6ed dosbarth yn ein hysgolion uwchradd Cyfrwng Saesneg
- Cwblhau'r camau i ddymchwel hen ysgol a chreu llain 2G (Ysgol Croesyceiliog)
- Ymestyn yr ystod oedran o 11-18 i 3-18 o 2021 a buddsoddi mewn safle newydd i gynnwys meithrinfa/darpariaeth meithrin (Ysgol Gyfun Gwynllyw)
- Diogelu cyllid a dechrau'r gwaith o ddyllunio ysgol newydd yn lle ysgol gynradd Maendy
- Dechrau ar y gwaith o ailddatblygu ysgol arbennig Crownbridge
- Parhau â'r gwaith o ailddatblygu ac ailwampio 2 ysgol gynradd (Ysgol Bryn Onnen ac Ysgol Cwbrân)



Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Mai 2021 ar safle Ysgol Gynradd Panteg i leoli darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Dyfarnwyd cyllid cyfalaf Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru i ddatblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ardal Panteg, ar ôl i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn, diwethaf, dynnu sylw at y galw o yn y gymuned.

Mae'r cynnig yn cwmpasu gofal plant i blant 2-12 oed, gan gynnwys gofal cofleidiol, clwb brecwast, clwb ar ôl ysgol a gwyliau at ddibenion cynaliadwyedd hirdymor. Prif bwrpas y rhaglen gyfalaf yw hwyluso a chefnogi cyd-leoliad y Cyfnod Sylfaen a darpariaeth gofal plant ar yr un safle, lle bynnag y bo hynny'n bosib.

Y Gymraeg mewn Addysg

Ar ddiwedd 21/22, fe wnaethom gyflwyno'n [Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg \(WESP\)](#) newydd i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Bydd y gweithgarwch yn y cynllun hwn yn cyflawni canlyniadau a thargedau Llywodraeth Cymru yn lleol ac yn rhoi trosolwg o'r ffordd yr ydym yn bwriadu cynnig addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o ddegawd, a hynny fel dewis go iawn i deuluoedd, i gynyddu nifer y disgyblion mewn addysg Gymraeg i un ymhob 10. Mae hwn yn ofyniad statudol a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 sy'n gwneud darpariaeth i awdurdod lleol baratoi Cynllun deng mlynedd, i ddod i rym o 1 Medi 2022.

Fel rhan o'n paratodau ynghylch y WESP mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud, fel rhan o'n gwaith cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref, e.e. y datblygiad uchod yng Ngwynllyw a darparu lefelau sylweddol o ddysgu ychwanegol ac adnoddau ar draws ein tri lleoliad cynradd cyfrwng Cymraeg.

Teilwra ein haddysg blynyddoedd cynnar a'r gwasanaethau cymorth i deuluoedd i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr a'u rheini / gofalwyr...

Y Blynyddoedd Cynnar

Yn ystod 2021/22, fe wnaeth y rhaglen Dechrau'n Deg barhau i ddarparu cymorth i'r teuluoedd mwyaf difreintiedig drwy leoliadau gofal plant, cymorth i deuluoedd, ymyrraeth iaith drwy alwadau ffôn, a hynny ar lein a thrwy grwpiau ar lein yn ogystal â sesiynau wyneb yn wyneb i'r teuluoedd mwyaf bregus.



Ym mis Hydref 2021, cynhaliwyd arolwg i glywed gan rieni ynghylch a oes digon o ofal plant yn cael ei ddarparu yn Nhorfaen. (Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn asesiad statudol sy'n cael ei gwblhau bob pum mlynedd gan edrych ar yr hyn a ddarperir a'r galw ar y gwasanaethau sydd ar gael).

Mae ein Tîm Blynyddoedd Cynnar wedi llwyddo i dderbyn £187,000 o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i helpu cynaliadwyedd y darparwyr gofal plant cofrestredig yn Nhorfaen y mae COVID-19 wedi effeithio'n uniongyrchol arnynt. Sicrhawyd bod y cyllid hwn ar gael i gefnogi lleoliadau gofal plant sy'n wynebu costau uwch oherwydd yr heriau a gyflwynir yn sgil Covid-19, ac i helpu i gynnal a datblygu darpariaeth o ansawdd da, lle nad oes unrhyw gyllid cyhoeddus arall yn cael ei ddarparu i dalu am yr un costau. Yn ogystal, fe helpodd y gronfa i ddarparu cymorth i deuluoedd trwy ddileu'r angen i ddarparwyr godi ffioedd ar rieni pan nad yw gwasanaeth yn cael ei ddarparu oherwydd COVID-19.

ein mesurau perfformiad	cyfeiriad y daith	targed	perfformiad a adroddwyd 21/22	perfformiad a adroddwyd 20/21	Taflwybr 2-flynedd
% y rieni sy'n dweud bod sgiliau iaith eu plentyn wedi gwella o ganlyniad y grwpiau	Gorau po uchaf	95	86.3 (88 / 102)	100	↓

Cydllynu gweithgarwch adnabod ac atal yn gynnar i sicrhau bod plant yn barod i'r ysgol ac yn cael canlyniadau gwell

Cynhwysiant

Trwy gydol 21/22 mae ein timau ADY a'r Blynyddoedd Cynnar wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu gwasanaeth a gynigir a map darparu i weithwyr proffesiynol i amlinellu'r gwasanaethau a'r systemau/prosesau ar gyfer i adnabod ac ymyrryd ar gyfer disgyblion blynyddoedd cynnar a allai fod ag ADY.

Mae swyddogion ADY y blynyddoedd cynnar hefyd wedi bod yn darparu cymorth i ddisgyblion a'u teuluoedd sydd angen cymorth pontio, a chynhaliwyd cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn i ddisgyblion gyda'u hysgolion sy'n bwydo, i gynllunio ar gyfer disgyblion. Sefydlwyd Panel Ymyrraeth Gynnar Torfaen i gynnal un pwynt mynediad, waeth pa ffrydiau ariannu sydd ganddynt, i ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth ychwanegol i blant a theuluoedd bregus y nodwyd bod ganddynt yr anghenion sy'n dod i'r amlwg, o dan y Gwasanaethau Cyffredinol yr ydym yn eu cynnig.

Cynnig Llesiant/ Cynllun Datblygu Gwasanaethau i Blant

Rydym yn cydnabod bod llesiant plant a phobl ifanc yn hollbwysig, nid yn unig o ran llesiant iechyd corfforol a meddyliol, ond oherwydd y cysylltiad rhwng llesiant a chyflawni potensial mewn bywyd.

Yn 2018-19, gwnaethom ddechrau darn o waith i ganfod sut oedd ein Cynnig Llesiant i Blant a Phobl Ifanc (PaPhi) yn edrych. Gwnaethom ei gwblhau fel darn o waith partneriaeth ehangach, o dan ein cylch gwaith fel arwain ar y cyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar gyfer Amcan 3 (rhoi'r dechrau gorau posibl i blant a phobl ifanc mewn bywyd) Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) Torfaen, ond hefyd wedi'i alinio'n agos i'n cynllun Trawsnewid T22.

I gyd-fynd â'n gwaith, fe wnaeth Archwilio Cymru fynd ati i archwilio'r ffordd yr ydym yn cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ddatblygu ein cynnig llesiant. O ganlyniad i'w canfyddiadau arholi, roedd gofyn i ni adrodd ar ein cynnydd i Archwilio Cymru. Cawsom estyniad o ran amser, oherwydd y pandemig.

Yn rhedeg ochr yn ochr ag argymhellion Archwilio Cymru ar gynnig llesiant, derbyniwyd set arall o argymhellion yn ymwneud â Gwasanaethau Plant mewn Gofal Cymdeithasol a Thai - Cyflawni Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant T22. O ganlyniad, cytunwyd ag Archwilio Cymru, (gan fod y ddau faes yn cyd-fynd yn agos â'i gilydd), bod argymhellion ein Cynnig Llesiant a'r argymhellion ar gyfer y Gwasanaeth i Blant yn cael eu huno mewn un cynllun, sy'n cynnwys set o weithgareddau ar y cyd.

Drwy gydol 2021/22, rydym wedi bod wrthi'n datblygu Cynllun Datblygu Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r cynllun hwn yn sylfaen ar gyfer pob agwedd ar ein dyheadau, sef sicrhau bod pob plentyn, person ifanc a theulu'n cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd a'u bod yn cael eu cynorthwyo mewn modd sy'n hyrwyddo annibyniaeth a gwydnwch. Bydd hefyd yn gosod disgwyliadau clir ar sut y bydd asiantaethau'n cydweithio ac yn cydweithredu i ganfod anghenion a darparu cymorth mewn modd sy'n hyrwyddo lliniaru ac osgoi dwysáu felly'n galw am lai o ymyrraeth gan y gwasanaethau statudol. Cydnabyddir bod darparu cymorth ac ymyrraeth gynnar yn llawer mwy effeithiol o ran hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd yn hytrach nag ymateb pan fydd yr angen ar gynnydd neu wedi ymwreiddio.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori ar y Cynllun ac yn ei gymeradwyo yn 2022, ac rydym yn rhagweld y bydd y cynllun hwn yn disodli'r cynnig llesiant a'r cynlluniau T22 ac yn rhoi sylw i ganfyddiadau Archwilio Cymru.

Blaenoriaeth Ein Cynllun Corfforaethol ac Amcan Llesiant ar gyfer 2021/22 ... Cymorth i'r Trigolion Mwyaf Bregus yn Nhorfaen

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma...

Trwy gydol 2021/22 rydyn ni wedi canolbwyntio ar reoli'r galw ar wasanaethau gofal cymdeithasol, ar draws y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd ac Oedolion.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar ein ffyrdd o weithio sy'n seiliedig ar gryfderau, sydd eisoes wedi'u hymwreiddio yn y ffordd rydyn ni'n gweithio. Arweiniodd hyn at ostyngiad bach yn y galw am wasanaethau, ond rydym yn cydnabod, er mwyn effeithio'n sylweddol ar y galw am yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol, bod angen cynnig cymunedol cryfach arnom, ar draws pob rhan o'r Cyngor.

Rydym wedi gweithio'n helaeth gyda'n holl bartneriaid i gefnogi Cynlluniau Adfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn dilyn COVID-19, a hynny ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i sicrhau bod pobl yn parhau i gefnogi ac amddiffyn y dinasyddion mwyaf bregus yn Nhorfaen.

Galluogi ein pobl fwyaf bregus i gael annibyniaeth, cadw'r annibyniaeth hwnna a hynny gyda llais a rheolaeth yn eu bywydau

Cymorth i Ofalwyr

Yn Nhorfaen rydym yn cydnabod bod angen i ofalwyr gymryd amser i ofalu amdanynt eu hunain. Unwaith eto, mae grant gofalwyr Torfaen wedi bod yn llwyddiannus drwy gydol 2021, gan ei fod wedi rhoi cyfle i ofalwyr benderfynu drostyn nhw eu hunain sut a phryd yr hoffent gael seibiant, neu benderfynu beth fyddai'n gwneud eu bywydau ychydig yn haws.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein timau gofal cymdeithasol wedi helpu mwy na 350 o bobl sy'n gofalu am anwylyd, a hynny thrwy grantiau bach, gwasanaethau seibiant a chyngor



ymarferol. Mae grantiau o hyd at £300 hefyd wedi'u rhoi i helpu gofalwyr gyda phwysau ariannol a wynebwyd yn ystod y pandemig, i'w cynorthwyo yn eu rolau gofalu.

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn un o'n gweithwyr Cymorth i Ofalwyr a enillodd wobr Seren Ofal am y cymorth y mae wedi'i ddarparu i ofalwyr lleol, yn ystod y 15 mis diwethaf. Gan gystadlu yn erbyn 120 o staff gofal o bob cwr o Gymru, cyrhaeddodd ein haelod o staff y 12 olaf ar y rhestr fer, gan ennill gwobr Seren Ofal am 'gymorth gofal cymdeithasol i oedolion. (Mae'r wobr hon yn rhan o fenter Gofal Cymdeithasol Cymru a gafodd ei chreu er mwyn taflu goleuni ar ofal cymdeithasol a gweithwyr blynyddoedd cynnar sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl, yn ystod y pandemig).

Trwy gydol 2021/22, fe lwyddom hefyd i barhau i gynorthwyo'n Cymunedau sy'n Ystyriol o Dementia ledled Gwent, a hynny thrwy weithdai a sesiynau codi ymwybyddiaeth ynghylch dementia a gyflwynwyd ar lein. Cafodd y rhan fwyaf eu cwblhau ar-lein ond fe wnaethom ddarparu ychydig o sesiynau wyneb yn wyneb gyda grwpiau Atgofion Chwaraeon a grwpiau Cymorth Parkinson, i godi ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael yn yr ardal.

Rydym yn parhau i gefnogi'r prosiect cenedlaethol 'mentro Gyda'n Gilydd' yng Ngwent trwy grŵp llywio aml-asiantaeth gyda phartneriaid sy'n cynnwys pobl sy'n dioddef o ddementia, eu gofalwyr, aelodau etholedig ac arweinwyr eraill o'r awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Athrofaol Aneurin Bevan (BIAAB) a'r sector annibynnol/trydydd sector.

Yn ogystal, aethpwyd ati i ddatblygu ac uwch lwytho adnoddau ar wefan Dewis Cymru fel y gallai pobl gael hyd iddynt cyn gadael y tŷ a mynychu lleoliad ([Mentro Gyda'n Gilydd: Fideos i ddarparu cymorth i bobl yng Nghymru y mae dementia'n effeithio arnynt, drwy'r coronafirws | Cymdeithas Alzheimer \(alzheimers.org.uk\)](#)). Cafodd adnoddau Gwent hefyd eu dangos mewn cynadleddau Dementia yn Rhanbarthol a Chenedlaethol, am fod gennym fyfyrwyr Therapi Galwedigaethol BIPAB yn arwain ar ddatblygu'r prosiect, yn rhan o'u lleoliadau arloesol. Rydym yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'r prosiect hwn ac ar hyn o bryd rydym yn treialu ap sy'n cynnwys yr holl adnoddau ac yn caniatáu i bobl dderbyn cynnwys wedi ei deilwra'n well i gefnogi'u hanwyliaid.

Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Gwent ar hyn o bryd, yn treialu band arddwrn Dementia i gefnogi pobl yn y gymuned sy'n dioddef o Dementia. Heddlu Gwent sy'n arwain y prosiect, a dyma'r heddlu cyntaf yng Nghymru i gynnig y fath dechnoleg ddiogelu ychwanegol i ategu at Brotoocol Herbert. Wedi'r cynllun peilot 6 mis, bydd gwerthusiad yn cael ei gwblhau gan Dîm Partneriaeth Ranbarthol Gwent, ac os bydd yn llwyddiannus, ein gobaith yw ei ehangu ymhellach.

Rydym yn parhau i ddarparu cefnogaeth i BIAAB a phartneriaid trwy lansio'r Siarter Ysbytai sy'n Gyfeillgar i Dementia, a fydd yn chwarae rhan fawr wrth symud ymlaen, o ran gwella bywydau pobl sy'n dioddef o ddementia, eu teuluoedd, a gofalwyr fel rhan o waith y Safonau Dementia Cenedlaethol.

ein mesurau perfformiad	cyfeiriad y daith	Targed	Gwirioneddol 21-22	Gwirioneddol 20-21	Taflybr 2-flynedd
Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn (CA/004)	Arwain gan y galw		128	111	AMH
- Gellir diwallu anghenion drwy ddefnyddio cynllun cymorth y gofalwr neu gynllun gofal a chymorth (CA/005a)	Arwain gan y galw		20	13	AMH
- Llwyddwyd i ddiwallu anghenion thrwy ddulliau eraill (CA/005b)	Arwain gan y galw		101	78	AMH
- Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu (CA/005c)	Arwain gan y galw		7	20	AMH

Prydau Cymunedol

Mae gwasanaeth dosbarthu prydau'r Cyngor wedi gweld y galw am ein gwasanaeth yn cynyddu bron i draean dros y flwyddyn ddiwethaf, gan wasanaethu hyd at fwy na 1150 o brydau'r wythnos, o gymharu â 860 ar gyfartaledd yn 2018/19.

Mae'r gwasanaeth, sy'n costio £5 am fwydlen dau gwrs, wedi'i anelu at bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ond sy'n methu paratoi eu prydau eu hunain, yn ogystal â chynnig gwiriadau iechyd gwerthfawr. Mae dros 200 o drigolion wedi cofrestru i dderbyn y gwasanaeth ac mae ganddyn nhw'r opsiwn i dderbyn pryd poeth ac eitemau hambwrdd te ychwanegol, mor aml ag y mynnant, heb contract parhaus. Er bod llawer o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn bobl hŷn, mae'r gwasanaeth Prydau Cymunedol ar agor i unrhyw un sy'n methu paratoi pryd o fwyd, oherwydd eiddilwch, salwch neu anabled.

Er bod y gwasanaeth yn gwneud yn arbennig o dda, mae ein timau Gwasanaethau Oedolion yn parhau i hyrwyddo'r gwasanaeth Prydau Cymunedol ymysg trigolion y maent yn gofalu amdanynt, fel ffordd hyfyw o ddarparu cefnogaeth iddynt yn y cartref, o ran gwiriadau lles a phryd poeth, iach.

Gofal Cartref

Mae gwaith y Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chomisiynu yn parhau i ganolbwyntio ar alluogi annibyniaeth, cefnogi'r camau i gymryd risgiau cadarnhaol a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chysylltedd cymunedol.

Er bod y pandemig wedi effeithio ar bobl a lles y gymuned, mae gwaith anhygoel wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod hwn o argyfwng. Mae wedi atgyfnerthu partneriaethau rhwng ein meysydd gwasanaeth, gyda staff o bob ardal wasanaeth yn barod i gynorthwyo Gofal Cymdeithasol yn ein hymateb i COVID a darparu cefnogaeth i'r dinasyddion mwyaf bregus yn Nhorfaen.



Trwy gydol 2021/22, rydym wedi parhau i weithredu ein Strategaeth Gofal yn y Cartref. (Mae Gofal Cartref yn cynnwys ystod o wasanaethau sy'n darparu cefnogaeth i bobl barhau i fyw yn eu cartref eu hunain, gan ganiatáu iddynt gael dewis a rheolaeth, gan ganolbwyntio ar yr 'Hyn sy'n Bwysig' a chanlyniadau personol). Mae'r problemau o ran recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cartref yn parhau i fod yn gyson ac yn her sylweddol i'r adran. Er gwaethaf mentrau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol mae'r heriau'n parhau ac wedi cynyddu, yn ystod rhan olaf y flwyddyn. O ganlyniad, mae pobl yn parhau i aros am becynnau gofal (tua 80) ac mae ein darparwyr allanol yn ei chael hi'n anodd bodloni eu

hymrwymadau presennol, felly'n gorfod troi at fesurau wrth gefn.

Mewn ymgais i leddfu'r mater hwn, rydym wedi hyfforddi staff o dimau eraill o fewn yr adran Gofal Cymdeithasol a'u hadleoli i ddarparu gofal cartref yn y gymuned. Bydd y trefniadau tymor byr hyn ar waith tan 31 Mawrth 2022 ac maent wedi'u hariannu trwy'r Gronfa Adfer Gofal Cymdeithasol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr gofal cartref i brofi gwahanol ffyrdd o weithio, i geisio denu pobl i'r sector gofal ac i gadw staff sydd eisoes yn gweithio yno, er mwyn gwella'r sefyllfa wrth symud ymlaen.

Gofal yn y cartref

Ym mis Awst 2021, gwahoddwyd pobl a'u teuluoedd, sy'n derbyn gwasanaethau gofal yn y cartref i sôn wrthym am eu profiadau. Nod yr adborth hwn oedd helpu i asesu'r lefelau presennol o ofal yn y cartref sy'n cael eu darparu ar draws y fwrdeistref a helpu i lywio dyfodol gwasanaethau gofal cymdeithasol lleol.

Llwyddwyd i ddenu cyllid Catalydd GovTech gan Lywodraeth y DU i osod her o ran edrych ar ddatblygu atebion technolegol arloesol i'r pwysau sydd ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion. O ganlyniad i'r her, fe wnaethom weithio gyda dau gwmni technoleg i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau gofal cymunedol, gan ddefnyddio atebion technolegol.

ein mesurau perfformiad	cyfeiriad y daith	Targed	Gwirioneddol 21-22	Gwirioneddol 20-21	Taflywbr 2-flynedd
Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn (AD/004)	Arwain gan y galw		1,520	1,607	AMH
- Gyda chynllun gofal a chymorth yn unig y llwyddwyd i ddiwallu anghenion (AD/005a)	Arwain gan y galw		258	272	AMH
- Llwyddwyd i ddiwallu anghenion thrwy ddulliau eraill (AD/005b)	Arwain gan y galw		1,189	1,161	AMH
- Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu (AD/005c)	Arwain gan y galw		73	174	AMH
Canran adolygiadau'r cynllun gofal a chymorth a gafodd eu cwblhau o fewn yr amserlenni statudol	Gorau po uchaf	80%	44% (405 / 921)	31.78%	↑
Cyfanswm y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn (AD/010a)	Arwain gan y galw		238	311	AMH
Nifer y dyddiau ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl	Gorau po isaf	220	339 Cwblhawyd 18 GCi'rA	394	↑

Adolygu ein darpariaeth hirdymor a byrdymor

Ar ddiwedd 2021, fe wnaethom agor ein hwb llesiant newydd gwerth £3.7m yng Nghwmbrân - Tŷ Glas y Dorlan.

Mae'r ganolfan amlbwrpas yn cynnig tai o ansawdd uchel gyda gofal, 6 fflat gofal ychwanegol ar ffurf tenantiaeth barhaol a fflatiau galluogi ac arhosiad byr ar gyfer seibiannau, felly mae gan bobl eu drws ffrynt eu hunain drwy gydol eu harhosiad. Mae Tŷ Glas y Dorlan yn ased cymunedol sy'n ceisio darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddinasyddion, yn ogystal â chyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol i leddfu unigrwydd ac arwahanrwydd a chefnogi llesiant. Y prosiect hwn yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru. Wedi'i ddylunio i alluogi pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Gall gynorthwyo gyda rhyddhau o'r ysbyty (pan na all person ddychwelyd yn uniongyrchol i'w gartref ei hun), cymorth i osgoi ymweliadau ag ysbyty, (drwy ddarparu dewis arall, os nad oes angen i'r unigolyn fod yn yr ysbyty, ond gall barhau yn ei gartref ei hun) ac mae'n rhoi cyfle i ofalwyr gael seibiant.



Mae Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cyngor, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Iechyd, Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol a gwsteion i gyd wedi rhoi adborth cadarnhaol am y ddarpariaeth newydd hon ac mae'n cael ei alw'n brosiect blaenllaw. Mae hyn wedi gwneud y gorau o weithio mewn partneriaeth o fewn y Cyngor, gyda Bron Afon, y trydydd sector a Bwrdd Iechyd Unedol Aneurin Bevan (BIUAB).

Mynd i'r afael â thlodi, yn enwedig tlodi plant

Mae ein gwaith aml-asiantaeth ar dlodi wedi parhau drwy gydol 2021/22. Mae'r Grŵp Diwygio Lles – casgliad o sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector lleol, sy'n cefnogi'r rheini sy'n wynebu tlodi neu sydd mewn perygl o dlodi – wedi ailddiffinio ei rôl. Bydd y Grŵp nawr yn canolbwyntio ar Wydnwch Cymunedol ac mae'n datblygu cynllun gweithredu clir o ran yr ymdrechion ar y cyd a all helpu trigolion gyda phwysau costau byw parhaus. Mae'r grŵp wedi sefydlu dull newydd sy'n edrych at ddarparwyr gwasanaethau a

chymunedau i gyfarwyddo cymorth brys, ataliol ac ysbrydoledig i drigolion bregus. Mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu, un sy'n canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n peri'r pwysau mwyaf – bwyd, ynni, trafniadaeth, tai, cynyddu incwm, cynhwysiant ariannol, materion digidol a chyflogadwyedd.

Darparu cefnogaeth i bobl gael yr arfau sydd eu hangen arnynt i ddelio â'r heriau economaidd ac ariannol y maen nhw'n eu hwynebu

Cynhwysiant Ariannol

Ym mis Hydref 2021, o ganlyniad i gyhoeddiad y Llywodraeth Ganolog i roi'r gorau i'r cynnydd dros dro mewn Credyd Cynhwysol, gwnaethom gynyddu ein Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn £4 yr wythnos, tan fis Mawrth 2023, i helpu rhai o'n trigolion mwyaf bregus.

Er bod cyllideb y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn wedi bod yn hanfodol o ran gallu helpu'r rhai sydd â'r angen mwyaf, roedd yn amlwg i'r cyngor y byddai modd ateb mwy o alw pe ategwyd at y gyllideb.

Ym mis Tachwedd 2021, cymeradwyodd ein Haelodau Cabinet gynlluniau i fuddsoddi 1.2 miliwn arall i helpu'r gymuned adfer yn dilyn effeithiau COVID-19 ac fel rhan o'r buddsoddiad hwn i helpu cynhwysiant ariannol a thaliadau tai dewisol, gan helpu'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf gyda'u costau byw, a oedd yn arbennig o berthnasol o ystyried y cynnydd presennol mewn chwyddiant ac yn arbennig costau gwresogi ynghyd â'r gostyngiad diweddar o £20 mewn taliadau Credyd Cynhwysol.



Rydym yn parhau i ddarparu cymorth ataliol i'r rhai sy'n wynebu'r peryglon mwyaf oherwydd yr argyfwng costau byw, gan gynnwys swyddogion cynhwysiant ariannol, fel rhan o raglen Cymunedau am Waith. Bydd swyddogion hefyd yn parhau i ymchwilio i ffyrdd o gynyddu nifer y swyddogion cynhwysiant ariannol, fel rhan o'r ymateb i gostau byw.

Lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a hynny mewn ffordd ddiogel

Gwasanaethau i Blant

Trwy gydol 21/22, fe wnaethom wella'n gwaith partneriaeth drwy Hwb Cymorth a Diogelu Amlasiantaeth (MASSH) estynedig, sy'n sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Mae'r tîm Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cael ffocws parhaus ar reoli'r galw a roddir ar y gwasanaeth, wrth y drws ffrynt a thrwyddi draw, i'r pwynt lle mae angen i blant dderbyn gofal. Mae'r adran wedi cwblhau darnau sylweddol o waith a hyfforddiant gyda'r nod o newid a datblygu ymarfer, fel bod ymarferwyr yn teimlo'n ddiogel wrth lunio barn a phenderfyniadau, wrth gydbwyso risg a chydabod y cryfderau o fewn teuluoedd a chymunedau. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym hefyd wedi datblygu ein llwybr atgyfeirio ar-lein sy'n alinio i drothwy o angen ac sy'n galluogi atgyfeirwyr proffesiynol i wneud penderfyniadau effeithiol wrth ystyried atgyfeirio at wasanaethau plant a theuluoedd. Y nod yw rheoli'r galw drwy sicrhau bod y gwasanaeth cywir yn cael ei ddarparu ar sail lefel angen.

Trwy ystod o newidiadau o ran ymarfer a mentrau, rydym wedi sicrhau gostyngiad net o ran nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ac rydym wedi lleihau'r angen i ddefnyddio a gwario ar leoliadau preswyl.

Rydym hefyd wedi adolygu'n dogfennau plant sy'n derbyn gofal, tuag at ran olaf 2021 ac wedi cynnal nifer o ddiwyddiadau ymgynghori gyda'n Fforwm Pobl Ifanc yma yn Nhorfaen. Arweiniodd hyn at adolygu a diweddarau gwybodaeth yr ydym yn ei ddarparu i bobl ifanc, sef ein: polisi cwynion, "fy adolygiad", "byw gyda gofalwyr maeth" a llyfrynau "derbyn gofal".

Fel rhan o gyfrifoldebau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, datblygwyd "Arolwg o'r Hyn Sy'n Bwysig" i ganfod safbwyntiau pobl ifanc sy'n gadael gofal, o ran y pethau oedd o bwys iddyn nhw. Cafodd yr arolwg ei ddatblygu gan y bobl ifanc sy'n eistedd ar y Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Bydd canfyddiadau'r arolwg hwn

yn dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir a newid, ac mi fydd yn rhan o Gynllun Datblygu'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn 2022/2023.

ein mesurau perfformiad	cyfeiriad y daith	Targed	Gwirioneddol 21-22	Gwirioneddol 20-21	Tafllwybr 2-flynedd
Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol i blant yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf	Gorau po uchaf	100%	99.98%	99.79%	↑
Cyfanswm yr asesiadau newydd a gwblhawyd i blant yn ystod y flwyddyn	Arwain gan y galw		3,195	3,236	N/A
Cyfanswm y plant â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth	Arwain gan y galw		176	143	N/A
Cyfanswm y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth	Arwain gan y galw		93	80	N/A
Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth	Arwain gan y galw		407	446	N/A
%yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cwblhau o fewn amserlenni statudol	Gorau po uchaf	100%	95% (3,050 o 3,195)	98.21%	↓

Maethu

Ym mis Gorffennaf 2021, unodd gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yng Nghymru i ddod yn 'Maethu Cymru' er mwyn ceisio: cynyddu'r cyfleoedd i gynnig cartref i blant, diwallu eu hanghenion yn eu cymuned leol, darparu mynediad at gymorth arbenigol yn lleol, cynyddu cyfleoedd dysgu a datblygu ac i arfogi gofalwyr maeth, ar gyfer y daith gyffrous sydd o'u blaenau.

Rydym yn gyffrous ein bod yn rhan o'r fenter hon sy'n ein galluogi i: barhau i gadw ein plant sy'n derbyn gofal yn Nhorfaen neu eu helpu i gadw'r cyswllt gyda'u teulu a'u ffrindiau a; sicrhau eu bod yn parhau i fynychu eu hysgol, i gynnal cysylltiadau cymunedol a chynnal eu hunaniaeth.

Trwy gydol 2021, cynhaliwyd amryw o ymgyrchoedd maethu gan Faethu Cymru a'r rhwydwaith o 22 awdurdod lleol, mewn ymgais i recriwtio rhagor o ofalwyr maeth awdurdodau lleol ar gyfer plant lleol. Mae Tîm Lleoli Teuluoedd hefyd wedi bod yn destun adolygiad gwasanaeth cyfan, a'r nod terfynol, cynyddu sefydlogrwydd o fewn ein lleoliadau i'n Plant sy'n Derbyn Gofal, defnyddio mwy o leoliadau maeth mewnol a sicrhau bod ein Gofalwyr Maeth yn parhau i dderbyn yr hyn sy'n angenrheidiol a chymorth gwell.




ein mesurau perfformiad	cyfeiriad y daith	Targed	Gwirioneddol 21-22	Gwirioneddol 20-21	Tafllwybr 2-flynedd
Nifer y rhieni maeth a gymeradwywyd ar gofrestr yr awdurdod lleol ar 31 Mawrth	Arwain gan y galw		121	129	AMH
% y lleoliadau gofal maeth a wnaed yn fewnol o gymharu ag asiantaethau Mewnol	Gorau po uchaf	80%	86% (137/159)	79%	↑

ein mesurau perfformiad	cyfeiriad y daith	Targed	Gwirioneddol 21-22	Gwirioneddol 20-21	Tafllwybr 2-flynedd
% y lleoliadau gofal maeth a wnaed yn fewnol o gymharu ag asiantaethau Asiantaeth	Gorau po isaf	20%	14% (22/159)	21%	↑
% y Plant Sy'n Derbyn Gofal sydd wedi symud lleoliad tair gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn	Gorau po isaf	8%	7% (30 o blant)	9.87%	↑

Gofalwyr Ifanc

Fel cyngor, rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ein gofalwyr ifanc sydd yn ein bwrdeistref, sy'n enghraifft ardderchog o wir ystyr gofalu ac yn amlygu'r berthynas rhwng dibyniaeth ac annibyniaeth. Yn 2021, fe lansiwyd cynllun Cerdyn Adnabod newydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gefnogi ein gofalwyr ifanc.



Ym mis Mehefin 2021, ni oedd un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i lansio'r cynllun cerdyn adnabod i Ofalwyr Ifanc. Mae'r cynllun cardiau'n galluogi pobl ifanc i ddangos i ysgolion, meddygfeydd a fferyllfeydd eu bod yn ofalwyr, a gallant gael sesiynau nofio, sesiynau campfa a dosbarthiadau ffitrwydd am ddim yng nghanolfannau ein Hymddiriedolaeth Hamdden. Mae'n galluogi gwasanaethau i gydnabod yr heriau sy'n wynebu gofalwyr ifanc ac mae'n cydnabod eu hymdrechion a'u gwaith caled.

Darparu cymorth i bobl sydd mewn perygl o golli eu cartref

Mae cael hyd i dai fforddiadwy a chynaliadwy yn hanfodol i fywydau'r holl drigolion yn ein cymuned gan ein bod yn gwybod y gall llety ansefydlog ac anaddas effeithio'n niweidiol ar ganlyniadau unigolion a chymunedau. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol i unigolion ac aelwydydd yn ein cymunedau ac mae heriau pellach ar y gweill i reoli effaith y pandemig, newid deddfwriaeth a'r cynnydd mewn costau byw. Mae Tîm Tai yr awdurdod lleol wedi ymrwymo i gefnogi pobl i gael hyd i lety fforddiadwy a phriodol, ac i'w rheoli a'i gynnal.


Yn ystod 2021/22, fe wnaeth tîm Datrysiadau Tai Torfaen ddarparu gwybodaeth a chyngor i 283 o aelwydydd i'w hatal rhag bod yn ddigartref. Lle nad oedd modd atal digartrefedd, cafodd 437 o bobl / aelwydydd, le mewn llety dros dro.

Mae'r Rhaglen Grant Cymorth Tai yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai y mae mawr ei angen, drwy ddarparu ystod o letyau â chymorth, cymorth lle bo'r angen a gwasanaethau galw heibio i bobl sydd angen cymorth, i gael hyd i lety a chynnal y llety hwnnw.

Mae'r rhaglen yn darparu ystod eang o gymorth ataliol, yn ogystal â gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth i bobl sy'n wynebu digartrefedd, ochr yn ochr ag ystod o faterion heriol eraill (fel cam-drin domestig, iechyd meddwl, materion ariannol, materion yn ymwneud â sylweddau).

Yn 2021 / 22:

- Fe wnaeth 2929 o bobl ddefnyddio ein gwasanaethau cymorth cymunedol (cymorth lle bo'r angen)



Cefnogi camau i sefydlu busnesau bach, a'u cefnogi i lwyddo

Sgiliau a Chyflogadwyedd

Er bod cyllid wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gefnogi busnesau trwy bandemig Covid , mae'r angen i ganolbwyntio ar sefydlu busnesau wedi bod yn hollbwysig.

Ym mis Tachwedd 2021, cymeradwyodd ein Cabinet gynlluniau i fuddsoddi £1.2 miliwn i helpu'r gymuned adfer yn dilyn effeithiau COVID-19 ac fel rhan o'r buddsoddiad hwn, helpu i gynyddu trosiant busnesau lleol. Mae £50,000 a grantiau i fusnesau newydd, yn enwedig i wella TG, sy'n galluogi busnesau i wella'u trosiant yn y dyfodol. Byddai modd gwneud hyn drwy wella neu greu presenoldeb ar-lein, buddsoddi mewn meddalwedd neu galedwedd i hybu cynhyrchiant, neu fuddsoddi mewn technoleg, i leihau eu hól troed carbon.

Trwy gydol 2021, gwnaethom hefyd helpu i gefnogi ein busnesau yn y Fwrdeistref i dderbyn bron i £1.3m o gronfa newydd Llywodraeth y DU. Trwy wahodd yr holl sefydliadau lleol i wneud cais am gyfran o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU, mae ffocws y gronfa'n cyd-fynd yn fawr â'n blaenoriaethau ar gyfer economi lewyrchus a gwydn sy'n cynnig cyfleoedd gwaith sy'n galw am sgiliau uchel ac yn cynorthwyo'r rheini sy'n ddi-waith i ddychwelyd i fyd gwaith.



Yn benodol, roedd mentrau llwyddiannus fel a ganlyn:

- Bydd prosiect CELT (Connect, Engage, Listen and Transform) yn treialu technegau ac ymyraethau newydd i ddarparu cefnogaeth i'r rheini sy'n ddi-waith yn y tymor hir i ymuno a'r byd gwaith ar draws 10 awdurdod lleol yn Ne Cymru. Bydd y canfyddiadau'n llywio ceisiadau yn y dyfodol am gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin newydd Llywodraeth y DU a chyllid grantiau arall ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd.
- Food 4 Growth: Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gysylltu diwydiannau amaethyddol yng nghefn gwlad â chanol trefi yn Nhorfaen, Caerffili a Sir Fynwy. Bydd yn cynnwys astudiaeth ddichonoldeb i archwilio ynni adnewyddadwy cymunedol, swmp-brynu tanwydd, arallgyfeirio; hybu bwyd lleol a rhaglen gymorth arloesol ar gyfer cefn gwlad.
- Stepping Stones: Rhaglen entrepreneuriaeth gyda'r nod o ddarparu cefnogaeth i'r rheini dros eu 50au, sy'n ddi-waith, i gychwyn eu busnesau eu hunain.
- Prosiect Cefnogi Busnesau Bach ym Mhont-y-pŵl a Blaenafon: Hybu busnesau newydd a phrynu 'busnes i fusnes' ym Mhont-y-pŵl a Blaenafon. Bydd hefyd yn datblygu llwyfan cyfnewid sgiliau i gefnogi busnesau newydd, cyfleoedd i dreialu adeiladau tymor byr a chyfle i weithio gyda landlordiaid er mwyn ailddefnyddio eiddo gwag.
- The Life You Want: Rhaglen cyflogadwyedd a hyder, sy'n targedu'r rheini sy'n dioddef cam-drin domestig yn benodol. Cefnogir cymwysterau drwy ddsygu digidol neu yn y dosbarth
- Young Enterprise Torfaen: Bydd y prosiect yma'n cefnogi pobl ifanc i mewn i hunangyflogaeth trwy eu helpu i ddatblygu sgiliau, fel arbenigedd digidol ac entrepreneuriaidd, a hyder.
- Pecyn Digidol Llawn i Fusnesau yn Nhorfaen: Cynigir cefnogaeth i fusnesau yn Nhorfaen sydd heb bresenoldeb ar-lein, a hynny thrwy ddatblygu ap a gwefannau penodol

Hyrwyddo ac annog adfywio canol-tref drwy gefnogi gweithgarwch newydd ac amrywiol

Diogelwch Cymunedol

Trwy gydol 2021, rydym wedi cynnal gwahanol ddiwrnodau ymgysylltu gyda'r gymuned i godi ymwybyddiaeth o fewn y gymuned, ynghylch y gwahanol asiantaethau sy'n cydweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Y prif nod oedd cynyddu hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus a helpu trigolion i deimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.

Cyn COVID, fe wnaethom gynnal sesiynau mewn ardaloedd a nodwyd yn fannau lle mae yna dipyn o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG), neu lle'r oedd tensiynau cymunedol. Casglwyd y wybodaeth hon, drwy ddefnyddio data gan Heddlu Gwent a gwybodaeth gan y cyhoedd, cynghorwyr lleol ac asiantaethau eraill CBST. Fe wnaethom hefyd dargedu ardaloedd, lle nad oedd llawer o gyfathrebu gan y cyhoedd gyda chyfraddau uchel o YG (y mae'r heddlu a phartneriaid yn gwybod amdanynt), a chyfraddau isel o adrodd.

Helpodd hyn i feithrin perthynas â chymunedau penodol ac i helpu trigolion i deimlo eu bod wedi'u harfogi i wneud newidiadau yn eu hardal drwy roi gwybod am YG, fel y gellir adnabod y rhai sy'n ei achosi, a chymryd camau priodol, i leddfu unrhyw densiynau ac anrhefn bellach. Fel arfer rydyn ni'n cynnal tua 2 neu 3 o'r sesiynau hyn y flwyddyn, lle ar gyfartaledd, mae 80 o bobl yn mynychu bob tro. Ar adegau, dyblwyd presenoldeb pe baem yn gwneud digwyddiad gyda'r nos, i sicrhau bod modd i blant a phobl ifanc fynychu ac i fod yn rhan ohono.

Mae ein Tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i weithio'n agos gyda'r Heddlu a'r Gwasanaethau Troseddau leuenctid, i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd ac anhrefn ac anghydfodau mewn cymdogaethau ledled y fwrdeistref, gan anelu at ymyrryd cyn gynted â phosibl. Mae holiaduron YG hefyd yn cael eu dosbarthu'n rheolaidd, er mwyn ceisio darganfod profiadau trigolion o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardaloedd.

Adfywio

Rydym yn cydnabod bod COVID-19 wedi taro canol trefi'n galed, gyda rhai o gadwyni mawr y stryd fawr yn diflannu, a dirywiad yn nifer yr ymwelwyr, ar wahanol adegau drwy gydol y flwyddyn.

Mae hyn wedi tynnu sylw at faint y mae cymunedau'n dal i ddibynnu ar eu tref leol fel canolbwynt i gael cyflenwadau a gwasanaethau hanfodol, ac fel canolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol a hamdden. Bydd ein Cynlluniau Lleoedd (a chais i'r Gronfa Ffyniant Bro wedi hynny) yn mynd i'r afael â'r buddsoddiadau mwy hirdymor sydd eu hangen i drawsnewid ein trefi ac i arallgyfeirio'r dewis o weithgareddau sydd ar gael i bobl yn y trefi. Yn y tymor byr fodd bynnag, cydnabuwyd fod yna bethau y mae angen eu gwneud nawr i wella cyflwyniad a golwg y trefi yn gyffredinol, a helpu i ddenu buddsoddiad mwy hirdymor.

Ym mis Tachwedd 2021, cymeradwyodd ein haelodau Cabinet gynlluniau i fuddsoddi £1.2 miliwn i helpu'r gymuned i adfer yn dilyn effeithiau COVID-19 ac i helpu i ymateb i ystod o effeithiau negyddol ar y gymuned. Nod y gronfa 'untro' ar gyfer cyfres o brosiectau oedd darparu cefnogaeth i gymunedau yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig ac yn arbennig i fynd i'r afael â'r effaith ar bobl ifanc, iechyd meddwl, addysg, cyflogaeth pobl a rhai materion a arweiniodd at anghydraddoldeb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol dilynol.

Penodwyd a dyrannwyd rheolwr prosiect i bob prosiect gyda rhai prosiectau'n gallu dechrau ar unwaith ac eraill yn galw am gynllunio a chyflawni o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt. Roedd y prosiectau'n cynnwys:

- £466,000 i greu gwelliannau yng nghanol trefi Pont-y-pŵl a Blaenafon
- £259,365 ar gyfer offer chwarae synhwyraidd cynhwysol ar safle Llyn Cychod Cwmbrân a Pharc Pont-y-pŵl
- £200,000 i helpu cynhwysiant ariannol a thaliadau tai yn ôl disgrisiwn, i helpu'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf gyda'u costau byw
- £30,000 i wella asedau ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol
- £70,000 i weithio gyda Chyfeillion Parc Pont-y-pŵl i drwsio ac ailagor y Groto Cregyn a'r Tŵr i ddenu ymwelwyr
- £50,000 i fusnesau bach a grantiau i fusnesau newydd, i ganolbwyntio ar welliannau digidol
- £40,000 ar gyfer gwasanaethau cwnsela ychwanegol am ddim i bobl ifanc 7-19 oed yng Nghanolfan Pobl Ifanc Cwmbrân



- £25,000 ar gyfer cyrsiau hyfforddi cymorth cyntaf iechyd meddwl i bobl ifanc ac oedolion
- £59,635 i ddechrau'r broses o ddatblygu llain chwaraeon cymunedol â llifoleuadau ar gyfer pob tywydd, yng ngogledd y fwrdeistref.

Yn ogystal, rydym wedi cymeradwyo £490,000 i ddatblygu cynnig ar gyfer Cronfa Ffyniant Bro yn y DU i gefnogi canol trefi. Mae'r cynigion (datblygu economi bwyd a diwylliant ym Mhont-y-pŵl a hybu nifer yr ymwelwyr i safle treftadaeth y byd drwy greu gwesty nodedig) wrthi'n cael eu datblygu, gyda thrafodaethau'n mynd rhagddynt gyda phartneriaid. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflwyno'r cynigion i Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2022.

Ar ben hynny, mae swyddogion adfywio yn gweithio'n agos gyda pherchnogion canol tref Cwmbrân ar ôl i ganol y dref gael ei feddiannu yn 2021. Mae trafodaethau wedi bod yn gadarnhaol, ac er ei fod yn gynnar eto, rydym yn cefnogi'r perchnogion i gael arian allanol i aildefnyddio dau safle mawr sydd yn wag ar hyn o bryd.

3. Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd

Yn y 18 mis diwethaf dechreuwyd ar y broses newid sefydliadol. Penodwyd Prif Weithredwr newydd i'w ddilyn gan ethol Cyngor newydd a'r angen i osod cynllun newydd mwy hirdymor ar gyfer Torfaen. Felly, rydym wedi bod yn mynd drwy broses o adolygu, ailystyried ein blaenoriaethau ac asesu'r ffordd orau i'w cyflawni.

Mae cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, (yn enwedig y drefn newydd ynghylch perfformiad a llywodraethu a'r pwyslais ledled Cymru i roi mwy o amlygrwydd i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), wedi rhoi ffocws defnyddiol ar ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Bydd y newidiadau yr ydym yn eu gwneud i'r sefydliad yn rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn, o ran yr hyn yr ydym am ei gyflawni, ond hefyd yn y ffordd y byddwn yn gweithio tuag at ein hamcanion. Mae Deddf LICD 2015 yn darparu glasbrint i wella llesiant ar draws Torfaen.

Mae ein Cynllun Sirol newydd wedi'i ddatblygu, gan nodi ein naw amcan y byddwn yn ymdrechu i ganolbwyntio arnynt. Datblygwyd ein hamcanion, a byddant yn cael eu cyflawni yn unol â'r Ddeddf. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, bydd ein hamcanion llesiant yn ffurfio'r fframwaith ac ar sail y fframwaith hwn byddwn yn cynllunio, yn cyflawni, yn adrodd ac yn atebol am yr hyn rydyn ni'n ei wneud.


Ochr yn ochr â datblygu ein Cynllun Sirol, rydym wedi cynhyrchu cyfres o amcanion sy'n canolbwyntio'n fewnol, a fydd yn asesu ein hunain yn erbyn - ein hwyth nodwedd sy'n diffinio Cyngor rhagorol. Credwn fod y nodweddion hyn yn diffinio'r amodau a fydd yn ein galluogi i ffynnu fel cyngor, ein galluogi i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol a rhoi'r cyfle mwyaf i ni gyflawni'r amcanion a nodir o fewn y Cynllun Sirol.

Yn ogystal â hyn, bydd cyfres o strategaethau allweddol yn sail i'n hamcanion llesiant o fewn y Cynllun Sirol newydd, fydd yn rhoi mwy o fanylion am yr hyn rydyn ni'n mynd i'w wneud. Bydd gan strategaethau sydd newydd eu datblygu, gynllun cyflenwi cysylltiedig yn nodi'r camau y bydd angen eu cymryd, er mwyn cyflawni dyheadau'r strategaeth. Bydd pob strategaeth hefyd yn diffinio trefniadau rheoli y bydd pawb yn glynu atynt, er mwyn sicrhau ein bod yn monitro bod pob cynllun yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

Mae ein fframwaith strategol yn nodi sut, wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau, y dylid rhoi ystyriaethau iddynt; Cynllun Sirol y Cyngor, nodau ac egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf LICD 2015 i'n galluogi i gyflawni ein cenhadaeth ar gyfer Torfaen.

Yn sail i'r cynllun sirol a'r strategaethau sy'n bwydo mae ein proses gynllunio gwasanaethau, sef ein cyfrwng i gyflawni, monitro ac adrodd ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud wrth gyflawni ein hamcanion.

Sut dylai wasanaethau cyhoeddus weithio:
Pum ffordd o weithio



Yr hyn y mae gwasanaethu cyhoeddus yn anelu ato: Saith nod llesiant cenedlaethol



Sut – creu'r amodau cywir i gymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn ffordd gyson ac ystyrlon:

8 nodwedd sy'n diffinio cyngor rhagorol:

1. Arloesol
2. Ysbrydoledig a gweledigaethol
3. Perfformio'n uchel
4. Cydweithredol a chynhwysol
5. Cael ei rheoli'n dda
6. Ysgogol a hygyrch
7. Craff o ran materion ariannol
8. Digidol a dan arweiniad data

Ein gwerthoedd craidd:

- ✓ Teg
- ✓ Cefnogol
- ✓ Effeithiol
- ✓ Arloesol

– y seilwaith sy'n caniatáu inni gymhwyso'r pum ffordd o weithio i'r eithaf

Sut – yn sail i lywodraethu:

Cynllun Gweithlu	Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd	Strategaeth Rheoli Asedau
Strategaeth Caffael	Cynllun Ariannol Tymor Canolig	Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Fframwaith Rheoli Perfformiad	Cynllunio Corfforaethol	Rheoli Risg
Fframwaith Cydweithio	Rheoli Perfformiad	Rheoli Prosiectau

Beth –cynyddu ein cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol, i'r eithaf:

Ein 9 datganiad cenhadaeth /amcanion llesiant:

- 1.Codi cyrhaeddiad addysgol
- 2.Annog a hyrwyddo pobl ifanc a theuluoedd
3. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb
4. Cysylltu pobl a chymunedau
5. Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur
6. Sicrhau bod Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes
7. Hyrwyddo ffyrdd o fyw iach
8. Cefnogi diwylliant a threftadaeth a chreu lleoedd ffyniannus, diogel a deniadol
- 9.Darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer

Beth – strategaethau a chynlluniau creiddiol (enghreifftiau):

Economi a Sgiliau	Plant a Phobl Ifanc
Argyfwng Hinsawdd a Ntatur	Cynllun Llesiant Cymunedol (wrthi'n cael ei ddatblygu)
Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf (wrthi'n cael ei ddatblygu)	Cynllun Datblygu Lleol

4. Crynodeb o'r gwelliannau sydd eu hangen

- Ein Heriau Allweddol

Mae angen i ganlyniadau i ddysgwyr yn Nhorfaen wella ymhob ysgol. Wrth i ni ymateb i'n harolygiad gan Estyn, rydym yn datblygu systemau hunan arfarnu cadarn i sicrhau y gallwn gynllunio a chanolbwyntio ein gwaith yn well, a hynny gyda chefnogaeth ein partneriaid yn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA), i gefnogi pob ysgol i wella ansawdd eu harweinyddiaeth a'u haddysgu i gael canlyniadau gwell i bob dysgwr.

Bydd cwricwlwm newydd i Gymru hefyd yn cael ei gyflwyno yn ein holl ysgolion cynradd a rhai o'n hysgolion uwchradd o fis Medi 2022. Gan symud i ffwrdd o Gwricwlwm Cenedlaethol rhagnodedig, bydd ysgolion yn symud i fframwaith eang sy'n eu galluogi i ddylunio eu cwricwlwm ysgol eu hunain. Dyma un o'r newidiadau mwyaf ym myd addysg ers cenhedlaeth.

Rhaid i ni ymateb i'r nifer cynyddol o ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cymhleth. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi parhau i weld cynnydd cyson yn niferoedd y dysgwyr ag anghenion lluosog a chymhleth. Rydym yn ehangu ysgol Crownbridge a byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion i ddeall a chynllunio'r ffordd orau i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd, canolfannau adnoddau arbenigol a'n hysgol arbennig yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Fel rhan o'r uchelgais genedlaethol i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 rydym yn wynebu rhai heriau sylweddol i ddatblygu siaradwyr Cymraeg mewn ardal lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd yn isel ac rydym yn wynebu rhai heriau gwirioneddol o ran recriwtio staff i'n lleoliadau addysg.

Mae angen i ni greu darpariaeth ychwanegol ar gyfer Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar, gan ymestyn y cyfleoedd am addysg yn y Gymraeg a mynd i'r afael â'r angen am gyfleoedd i ddysgwyr "ymdrochi" fel y gallant ymuno ag ysgol cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach yn eu siwrnai addysgol a gwella ansawdd ein hysgolion Cymraeg.

Mae anghenion y cwricwlwm a dysgwyr wedi trawsnewid dros y 40 mlynedd diwethaf ac maent yn parhau i esblygu. Cynlluniwyd y rhan fwyaf o adeiladau ein hysgolion ar gyfer oes oedd yn bodoli cyn y rhynggrwyd pan oedd dulliau addysgu yn canolbwyntio i raddau helaeth ar addysgu dosbarth cyfan. Mae gofynion y cwricwlwm modern a'r dulliau addysgu yn golygu bod yn rhaid i nifer o athrawon ddod o hyd i ffyrdd o oresgyn y diffygion sydd ynghlwm â'n hadeiladau. Mae ein rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif wedi ein gweld yn creu nifer sylweddol o ysgolion newydd a chamau i adnewyddu ysgolion i fynd i'r afael â hyn ac mae llawer mwy i'w gyflawni o hyd.

Mae amrywiaeth o heriau sy'n ymestyn ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n ymwneud â'r galw cyffredinol a roddir ar disgwyl, ar wasanaethau statudol ddiwallu lefel y galw. O'r her hon mae angen parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu a darparu gwasanaethau sydd â'r nod o atal sefyllfaoedd rhag dwysau yn y gwasanaethau a thrwyddynt.

Mae ffocws parhaus ar leihau'r galw am Ofal Cymdeithasol i Blant a Theuluoedd a hynny mewn modd diogel, drwy gydnabod a datblygu cryfderau cymunedol, y teulu ac unigolion. Wrth leihau lefel y galw ar y gwasanaeth gallwn symud a thargedu mwy o adnoddau i ddatblygu ac ehangu ein cynnig lleol a sicrhau bod gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon ac wedi'u targedu i'r rhai sydd angen gwasanaethau statudol.

Mae galw mawr am Ofal Cymdeithasol i Oedolion, yn enwedig o ganlyniad pandemig COVID-19 a'r sgil-ffaith o fewn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein gwaith yn pwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth, cyngor a chymorth a chyfeirio addas er mwyn sicrhau nad yw dinasyddion yn cael eu tynnu i mewn i system a gwasanaeth y byddai, cymorth anstatudol amgen, yn eu galluogi i gynnal eu hannibyniaeth a byw'r bywyd y maen nhw eisiau ei fyw.

Mae galw mawr am dai fforddiadwy, o ansawdd da, nid yn unig yn Nhorfaen ond hefyd ledled Cymru a'r DU. Mae prisiau prynu tai a rhenti ar eu lefel uchaf erioed, sy'n effeithio ar yr hyn sydd ar gael, a hynny'n fforddiadwy ac o fewn cyrraedd i'r cyhoedd, yn enwedig gan ein bod mewn argyfwng costau byw ar hyn o bryd.

Mae hyn hefyd yn effeithio ar ddigartrefedd gan nad yw aelwydydd yn gallu cael mynediad at dai fforddiadwy. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid mewn ymateb, nid yn unig o ran gweithgarwch atal

digartrefedd, ond hefyd gyda'n LCC sy'n bartneriaid, i ddod â thair newydd yn ogystal â'r rheini sydd eisoes yn bodoli, i'r blaen, cyn gynted â phosibl.

Mae balchder a hyder ein trigolion yn eu Sir yn aml yn cael ei ffurfio ar sail y ffordd y maen nhw'n gweld ac yn teimlo eu hamgylchedd lleol - sef ble maen nhw'n byw, ble maen nhw'n gweithio a ble maen nhw'n mynd o ran hamdden a siopa.

Rydym am i'n trefi, ein strydoedd a'n hamgylchedd naturiol fod yn hardd, yn ddeniadol, yn lân ac yn gynaliadwy. Yn rhy aml o lawer mae'r balchder aruthrol mewn cymunedau lleol a hyrwyddir gan y mwyafrif yn cael ei niweidio gan y lleiafrif. Er nad yw'n wahanol iawn i'r ardaloedd cyfagos, rydym yn gweld gormod o sbwriel, mae gennym ormod o dipio anghyfreithlon ac rydym am weithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i ddileu'r ymddygiad hwn er lles pawb.

Mae cynyddu cyfraddau ailgylchu a chompostio, yn un ffordd y gall trigolion fynd ati i fyw'n fwy cynaliadwy. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyrraedd targed ailgylchu a chompostio sy'n 70% erbyn 2024/25, sy'n rhan allweddol o strategaeth 'Tuag at Ddim Gwastraff' Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn her sylweddol i Dorfaen a bydd angen i ni weithio'n agos gyda'n cymunedau i gyrraedd y garreg filltir hon.

Mae cynnal a buddsoddi yn ein hasedau fel ein parciau, ein mannau gwyrdd a naturiol a hefyd ein ffyrdd a'n palmentydd i hyrwyddo teithio llesol, yr hyn a ddefnyddir gan ein cymunedau, a hwyluso cysylltedd rhwng cymunedau, cymdogion a helpu pobl i gael hyd i gyfleoedd hamdden a swyddi yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau'r cynllun hwn.

Drwy weithio gyda chymunedau a hefyd gyda rhaglenni cenedlaethol, rhaid i ni sicrhau bod Torfaen, fel arweinydd cymunedol, yn gallu hwyluso newid system gyfan i garbon sero net er mwyn sicrhau ein bod yn diogelu ein hamgylchedd, ein ffordd o fyw a'n llesiant ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod.

Mae llwyddiant a ffyniant yr economi leol yn sylfaenol i gyflawni llawer o'r hyn sydd yn y Cynllun Sirol. Mae cysylltiad sydd wedi ei brofi, rhwng canlyniadau economaidd gwell i iechyd unigolion, llesiant cymunedol, a hyder ymysg pobl ifanc i anelu a llwyddo, beth bynnag yw eu huchelgais. Ni all economi Torfaen weithredu ar ei phen ei hun. Mae'n rhan o jig-so llawer mwy, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol ond gall y rhaglenni rydyn ni'n eu darparu, a'r perthnasoedd rydyn ni'n eu ffurfio hwyluso ac annog twf.

Rydym am fanteisio ar gryfder ein gweithlu medrus iawn, yn bennaf yn seiliedig ar weithgynhyrchu blaengar i arallgyfeirio'r sectorau sy'n caniatáu i weithgynhyrchu blaengar dyfu, gyda ffocws penodol ar y sector gwyddor bywyd.

Gan adeiladu ar raglenni cenedlaethol a rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo arloesi, rydym am feithrin entrepreneuriaeth a hyder yn lleol er mwyn cyrraedd marchnadoedd newydd, cymryd cyfleoedd ac adeiladu economi ddeinamig, actif sy'n cael ei arwain gan ymchwil.

Trwy greu Cynlluniau Bro ar gyfer canol ein trefi, mae'r Cyngor eisiau newid eu pwrpas. Er mwyn atal y dirywiad a meithrin uchelgais a gobaith, mae'r Cyngor am ennyn hyder yng nghanol ein trefi, gyda buddsoddi arloesol, uchelgeisiau beiddgar wrth adfywio i greu mannau mae ein trigolion, ein busnesau a'n hymwelwyr i gyd am ymweld â hwy i helpu i gadw'r bunt i gylchredeg yn yr economi leol.

Mae angen i ni fanteisio ar y rôl y mae Cymunedau eisoes yn ei chwarae wrth gyfleu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, a sut yr ydym yn defnyddio adnoddau ymyrraeth ac atal cynnar yn fwy effeithiol. Mae cyflawni hyn yn golygu ailgynllunio ein gwasanaethau o amgylch y cwsmer a sut maen nhw'n byw eu bywydau ac yn defnyddio ein gwasanaethau.

Un o'n prif gyfrifoldebau yw rhoi'r sgiliau a'r adnoddau i'n cymunedau er mwyn iddynt allu dod yn fwy gwydn i'r heriau sy'n eu hwynebu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydym am gefnogi a grymuso ein cymunedau fel y gallwn ddylunio ymatebion i'r bygythiadau hyn gyda'n gilydd mewn ffordd sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf ac yn adlewyrchu pa mor unigryw yw pob ardal. Yn fyr, rydym am ddatblygu dull cymunedau wrth fynd ati i ymdrin â gwasanaeth cyhoeddus.

Mae cymunedau wrth wraidd pob un o'n 9 amcan llesiant. Mae cyd-ddylunio a chyd-ddarparu gwasanaethau gyda chymunedau yn hanfodol os ydym am godi dyheadau ymhlith ein pobl ifanc, lleihau anghydraddoldeb,

cefnogi ffyrdd iach o fyw, ac ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. I wneud hyn mae angen i ni fod yn glir ar sut, pryd a chan bwy y gall ein drigolion gael gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chefnogaeth. Rydym am greu 'drws ffrynt a rennir' gyda'n cymunedau a'n partneriaid, yn cyfeirio pobl at y lefel gywir o gymorth ar yr adeg gywir o'r ffynhonnell gywir felly pan fydd angen cefnogaeth y Cyngor ar bobl, caiff ei gyflawni'n gyson ac i'r ansawdd uchaf.

Wrth gwrs, mae heriau ynghlwm â datblygu dull cymunedau o ymdrin â gwasanaeth cyhoeddus. Mae pob ardal yn wahanol gyda'i set ei hun o anghenion gwasanaeth a'r hyn y gall ei gymuned ei hun ei gynnig. Ar hyn o bryd does dim digon o drigolion yn teimlo y gallan nhw siapio neu ddylanwadu ar y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig yn eu hardal leol, ac mae angen i ni wella cyd-lynu gwirfoddolwyr ar draws y fwrdeistref.

- Datblygu ein Cynllun Newydd

Datblygwyd ein Cynllun Sirol newydd ochr yn ochr â'n Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol a'n Datganiad Llesiant Statudol (ein dogfen allweddol sy'n nodi'r sail dystiolaeth ar gyfer ein Cynllun Sirol newydd).

Mae ein Cynllun Sirol yn nodi 9 blaenoriaeth allweddol a fydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio ein hamcanion llesiant drwy gydol y Cynllun Sirol:

EIN HAMCANION LLESIANT 2022-27

Amcan Llesiant 1 - Byddwn ni'n codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol

Amcan Llesiant 2 - Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu

Amcan Llesiant 3 - Byddwn ni'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad

Amcan Llesiant 4 - Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn gorfforol.

Amcan Llesiant 5 - Byddwn yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol

Amcan Llesiant 6 - Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuriaidd.

Amcan Llesiant 7 - Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol.

Amcan Llesiant 8 - Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef

Amcan Llesiant 9 - Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau.

Datblygwyd yr amcanion hyn o'r ymrwymadau a'r sbardunau allweddol blaenorol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly, maent yn disgrifio 9 blaenoriaeth, yr ydym ar y cyd, yn ystyried mai dyma'r meysydd cywir i ganolbwyntio arnynt, i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Torfaen, trwy geisio sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

Mae pandemig COVID wedi ein hatgoffa'n sylweddol am bwysigrwydd gwasanaethau rheng flaen a'n rôl ganolog o ran cefnogi cymunedau. Cadarnhaodd hefyd, pŵer gweithio ar y cyd, i fynd i'r afael â materion allweddol ac i wneud gwelliannau i fywydau pobl.

Rydym yn realistig ynghlwm â maint yr her - colli cyllid y llywodraeth, costau cynyddol a gofynion sy'n newid, gan arwain at ddewisiadau anodd ynghlwm â lle rydyn ni'n ffocysu ein hadnoddau. Mae ein gwasanaethau o ddydd i ddydd yn bwysig o ran ei gwneud yn bosib i drigolion fwrw ymlaen â'u bywydau bob dydd, i fusnesau ffynnu, a rhoi cymorth i bobl ar wahanol gyfnodau o'u bywydau.

Ein Rhaglen Gyflawni 2022 – 2023

Mae ein Cynllun Cyflawni ar gyfer blwyddyn gyntaf Cynllun y Sirol, yn amlygu'r gweithgarwch allweddol a gynlluniwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, wrth gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn y Cynllun Sirol. Mae ein cynllun cyflenwi yn canolbwyntio ar ymrwymadau y tu hwnt i'r gwasanaethau dydd i ddydd, i ddangos sut y byddwn yn datblygu ein blaenoriaethau o ran diwallu'n gweledigaeth. "Gan barchu ein gorffennol a llywio ein dyfodol, byddwn yn gwella cynaliadwyedd, cysylltiadau a llesiant ein sir, drwy atgyfnerthu ein cymunedau, trwy greu economi leol ffyniannus a thrwy amddiffyn a gwella ein hamgylchedd."

Mae ein Cynllun Cyflawni 2022-23 ar gael yn llawn yma.

- Ein Bwriad ar gyfer 2022-27

Nid yw'r Cynllun Sirol yn lasbrint diffiniol ar gyfer ein gwaith, ond mae'n fframwaith sy'n ein caniatáu i annog newid, ei gyfeirio ac ymateb iddo. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac, wrth i gynlluniau a phrosiectau gael eu datblygu, byddan nhw'n dod yn rhan o gynllun cyflawni blynyddol sy'n symud o fod yn uchelgais i gam gweithredu. Mae'r dull hwn yn arbennig o bwysig fel y gall y cynllun fod yn ailadroddol ac ystwyth, fel y gellir ymateb i fentrau, heriau a chyfleoedd newydd drwy gydol oes y cynllun (fel gwaith Marmot gan y BGC rhanbarthol). Er y bydd ein ffordd o gyflawni ein Cynllun Sirol yn datblygu dros amser, rydym wedi ymrwmo i gyflawni nifer o fwriadau ar gyfer pob un o'n Hamcanion Llesiant newydd erbyn 2027, y byddwn yn ei ddefnyddio i asesu ein llwyddiant o ran cyflawni ein huchelgeisiau.

Mae rhestr lawn o'n bwriadau ar gyfer 2027 ar gael yma.

5. Torfaen: Dod yn Gyngor Rhagorol

Rydym yn ceisio datblygu diwylliant lle mae pob rhan o'r sefydliad yn anelu at wella ym mhopeth a wnawn, waeth pa mor dda maen nhw eisoes yn perfformio. Mae hunanasesu gonest ac agored yn hanfodol er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn.

Mae hyn yn golygu bod rhaid gennym brosesau ar waith i asesu'n barhaus a ydym ni'n;

- Ymarfer ein swyddogaethau'n effeithiol
- Defnyddio ein hadnoddau mewn modd darbodus ac effeithiol, a
- Sicrhau bod trefniadau rheoli ar waith, i sicrhau'r uchod.

Felly, mae'n bwysig i'r sefydliad, nid yn unig i adolygu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'n trigolion a'n busnesau, a'r effaith y maent yn ei chael, ond rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar ein cyfer, mor effeithlon ac effeithiol â phosibl a bod gennym systemau a phrosesau cadarn ar waith i'n cefnogi i ddefnyddio ein hadnoddau a chyflawni ein swyddogaethau.

Mae datblygu ein cynllun sirol yn bwysig wrth bennu ein blaenoriaethau a'n hymrwymadau, ond heb amodau sefydliadol penodol, ni fyddwn byth mor effeithiol ag y gallwn fod a sicrhau'r holl ganlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni.

Yn ystod 2021-22, rydym wedi bod drwy broses o ddatblygu fframwaith i'n helpu i asesu 8 o nodweddion y byddwn yn eu defnyddio i ddiffinio Cyngor rhagorol a byddwn yn ein galluogi i asesu ein perfformiad a darparu strwythur ar gyfer ein hunanasesiad blynyddol, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol 2021.

Mae ein 8 nodwedd wedi eu nodi isod. Diffinnir pob nodwedd ymhellach gan gyfres o ddatganiadau ategol, sy'n egluro mwy am yr hyn y mae'r nodweddion yn eu golygu, felly'n ein galluogi i asesu i ba raddau yr ydym yn gweithredu fel cyngor rhagorol.

Wrth ddatblygu ein fframwaith ar gyfer Cyngor Rhagorol rydym nid yn unig wedi ystyried yr hyn sy'n bwysig o'n safbwynt ni ein hunain, ond rydym hefyd wedi croesawu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan roi ystyriaeth i'r egwyddor gynaliadwyedd a'r 7 maes llywodraethu corfforaethol a ddiffinnir. Bydd y

nodweddion hyn, ynghyd â'n gwerthoedd fel sefydliad yn ein helpu i greu'r amodau cywir i gymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn ffordd gyson ac ystyrlon.

Creu'r amodau cywir i gymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn ffordd gyson ac ystyrlon:

Nodweddion Cyngor rhagorol

1. Arloesol - Defnyddio dulliau arloesol i fynd i'r afael ag achosion yn hytrach na'r symptomau, fel y gallwn atal heriau rhag codi.	2. Ysbrydoledig a galwedigaethol - Cynllunio ar gyfer y tymor hir i ddatblygu ymatebion sy'n atal a lliniaru risgiau a galluogi bachu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
3. Perfformio ar lefel uchel - Gweithio mewn ffordd integredig i gyflawni ein hamcanion llesiant ac felly gallwn wneud y mwyaf o'n cyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol.	4. Cydweithredol a chynhwysol - Gweithio ar y cyd gyda phob rhan o'n cymunedau, ar draws y cyngor a chyda phartneriaid allanol er mwyn cyflawni ein hamcanion llesiant.
5. Cael ei rheoli'n dda - Gwella ansawdd, gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau deinamig ac ymatebol sy'n cefnogi llesiant.	6. Ysgogol a hygyrch - Cynnwys pob rhan o'n cymunedau i adnabod ein heriau llesiant a'r camau i'w cymryd i fynd i'r afael â nhw.
7. Craff o ran materion ariannol - Darparu gwasanaethau sy'n gost-effeithiol, integredig a chynaliadwy, gan gynnwys yn y tymor hir fel ein bod yn targedu cefnogaeth i'r rhai sydd ei angen fwyaf	8. Digidol ac yn cael ei arwain gan ddata – Rhoi cyfrif am y tueddiadau a'r materion allanol sy'n debygol o gael effaith ar Dorfaen dros yr 20-30 mlynedd nesaf, sydd â'r potensial i yrru anghydraddoldebau pellach, lleihau gwytnwch ac effeithio ar y galw am wasanaethau.

Gwerthoedd craidd

<p>✓ Arloesol</p> <p>Defnyddio dulliau arloesol i fynd i'r afael ag achosion yn hytrach na'r symptomau, fel y gallwn atal heriau rhag codi.</p>	<p>✓ Teg</p> <p>Gwerthfawrogi barn a safbwyntiau pobl a chynnig cyfleoedd cynhwysol i gydweithio a chymryd rhan</p>
<p>✓ Cefnogol</p> <p>Hyfforddi ein staff i weithio'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.</p>	<p>✓ Effeithiol</p> <p>Dangos y cynnydd yr ydym yn ei wneud tuag at cyflawni ein hamcanion llesiant.</p>


Ar ôl datblygu ein fframwaith rydym wedi ei ddefnyddio i hunanasesu'r sefydliad, gan ddod i gasgliadau a nodi'r camau y mae angen eu cymryd. Bydd cynnydd o gymharu â'n hymrwymyiadau yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn ac yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ein hunanasesiad. Er mwyn ystyried ein cynnydd, bydd canfyddiadau allweddol ein hunanasesiad yn cael eu hadrodd drwy Adroddiadau Hunanasesu a Llesiant Blynyddol yn y dyfodol, ochr yn ochr â'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion llesiant ein Cynllun Sirol sydd newydd gael eu diffinio.

Datblygwyd ein Hunanasesiad yn dilyn proses drwyadl i sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan amrywiaeth eang o dystiolaeth ac mai'r casgliadau a nodwyd yw'r rhai cywir.

Rhan allweddol o'r broses hon yw mewnbwn ein haelodau etholedig. Fe wnaeth pwyllgor trosolwg a chraffu Materion Trawsbynciol ac Adnoddau ein Cyngor graffu ar y broses i ddatblygu'r hunan-asesiad a'i gynnwys

ym mis Gorffennaf 2022. Wedi hynny, cafodd y casgliadau allweddol a nodwyd yn ein hadroddiad hunanasesu eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r broses statudol ym mis Medi 2022. Mae llywodraethu democrataidd cadarn yn elfen allweddol i ni fod yn sefydliad sy'n cael ei reoli'n dda ac felly mae'n hanfodol i fodloni ein gofynion perfformiad (mae trosolwg wedi ei nodi isod, mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein [cyfansoddiad](#)).

EIN TREFN LYWODRAETHU DDEMOCRATAIDD



6. Pwyntiau Dysgu allweddol yn dilyn ein Hunanasesiad

Datblygwyd ein hunanasesiad drwy ddefnyddio'r wybodaeth helaeth sydd ar gael ar ein cyfer, er mwyn cynhyrchu darlun cyflawn o'n Cyngor. Mae trosolwg o'r pwyntiau dysgu allweddol a'r canfyddiadau wedi'u nodi isod.

1. Cyngor Arloesol sy'n...

- Drawsnewidiol ac yn barod i wneud pethau'n wahanol
- Un sy'n frwdfrydig i gymryd risg
- Meithrin arloesi yn y gweithle a thu allan
- Un sy'n chwilfrydig ac yn agored i dueddiadau a thechnolegau newydd

Casgliadau Allweddol

Rydym wedi datblygu atebion arloesol i rai heriau y mae gwasanaethau a'r sefydliad yn eu hwynebu, yn enwedig yn ystod pandemig COVID, ac mewn ymateb iddo. Mae'n amlwg i ni fod arloesi yn digwydd pan fydd yr amodau y mae sefydliad yn eu creu yn caniatáu camau i archwilio i ddulliau amgen o ddarparu gwasanaethau a heriau sefydliadol. Mae amodau o'r fath fel arfer yn cynnwys mwy o dderbyn risg rhesymol a pharodrwydd i arbrofi, cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid gydag amrywiaeth o safbwyntiau wrth datblygu ateb, a pharodrwydd i groesawu dulliau amgen a llai uniongred pan allant ddangos bod gwelliant yn ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarperir.

a. Meysydd Allweddol i'w Gwella

- Rydym wedi creu Cyfarwyddiaeth Cymunedau, Cwsmeriaid a Materion Digidol newydd a fydd yn sbardun ar gyfer dull mwy arloesol a deniadol o ddarparu gwasanaethau â ffocws cymunedol yn y blynyddoedd nesaf wrth i ni gydnabod yr angen i addasu a thrawsnewid ein dull o ddarparu gwasanaethau yn barhaus a bod yn barod i wneud pethau'n wahanol.

- Rydym wedi creu cymunedau o ddiddordeb i'n helpu i ddatblygu ein dull o gynllunio'r gweithle yn dilyn y pandemig a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi gweithio hybrid yn well. Mae'n amlwg i ni fod y cymunedau hyn o ddiddordeb wedi dod â safbwynt amrywiol o ran yr heriau a gyflwynwyd, sydd wedi arwain at greu atebion mwy arloesol nag a fyddai wedi bod pe byddem wedi dilyn dull proffesiynol / arbenigol mwy uniongred ac felly dull persbectif unigol. Ein bwriad yw sefydlu mwy o gymunedau o ddiddordeb sy'n cynnwys, dinasyddion a phobl ifanc i ymgysylltu â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu fel y gellir cael persbectif mwy cynhwysol ac amrywiol wrth gynllunio atebion o ran y gwasanaethau a ddarperir a'r heriau sefydliadol.

b. Meysydd Allweddol i'w Datblygu Ymhellach

Gallwn ddangos dull creadigol ac arloesol, wrth gynllunio atebion i heriau o ran cyflawni gwasanaethau a heriau sefydliadol deallwn yr amodau y mae angen i ni eu creu, er mwyn caniatáu arloesi a thrawsnewid, a hynny mewn ffordd haws. Mae'r wybodaeth ganlynol yn nodi'r gweithgareddau allweddol sydd angen eu cynnal dros y flwyddyn sydd i ddod. Credwn y byddant yn cefnogi ein huchelgais i fod yn Gyngor mwy arloesol:

- Ymwreiddio'r dull cymunedau o ddiddordeb, lle bo hynny'n briodol mewn rhaglenni a phrosiectau trawsnewid.
- Rhoi'r newidiadau a wnaed gennym i'n prosesau Rheoli Risg ar waith, i atgyfnerthu'r ffordd yr ydym yn rheoli ein risgiau ymhellach.

c. Cryfderau Allweddol y Sefydliad

Ni fydd Cyngor arloesol byth yn fodlon â'n lefel bresennol o berfformiad a bydd bob amser yn ceisio ffyrdd newydd o wella. Rydym wedi bod ar daith drawsnewidiol ers nifer o flynyddoedd gan ddechrau gyda'n prosiect trawsnewid T22, sy'n gosod llinell sylfaen i ni ac yn gosod sylfeini cadarn o ran ein paratodau ar gyfer y dyfodol. Mae enghreifftiau da o'n dull presennol, o fod yn Gyngor arloesol, fel a ganlyn:

- Lluniwyd Cynllun Datblygu newydd ar gyfer y Gwasanaethau i Blant. Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar seiliau cadarn i ddarparu cefnogaeth i'r trigolion mwyaf bregus yn Nhorfaen, a osodwyd fel blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol presennol 2016-2021 a'u cymhwyso drwy waith trawsnewid T22. Wrth i ni symud i gyfnod newydd, i sicrhau bod y cynllun yn "addas i'r dyfodol" ac yn parhau i fod yn effeithiol, mae wedi esblygu ac mi fydd yn parhau i wneud. Rydym yn cydnabod bod datblygu yn broses barhaus, a bydd y cynllun datblygu'n cael ei adolygu'n barhaus. Er mai'r ffocws yw'r gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc, mae'r cynllun yn sicrhau perchnogaeth a chyfrifoldeb corfforaethol a thraws adrannol.
- Rydym wedi llwyddo i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, a hynny ddiogel, i 479 i 426 – gostyngiad o dros 3%. Dyma'r tro cyntaf i ni gyflawni gostyngiad net mewn 7 mlynedd ac mae'r ffigurau hyn yn parhau i ostwng yn ystod 2022-23.
- Rydym wedi datblygu a gweithredu prosiectau digidol arloesol, fel ein Bot Torfaen newydd a'n Cymhwysiad Hunanwasanaeth newydd i Weithwyr, sydd wedi symleiddio'r ffyrdd y gall y cyhoedd gael hyd i wasanaethau a galluogi staff i gael cymorth yn gyflym. Rydym wedi gallu gwella lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid a lleihau/rheoli'r galw ar Wasanaethau Adnoddau Dynol, yn well.
- Rydym wedi croesawu Ailgynllunio Gwasanaethau lle cydnabuom fod angen gwneud pethau'n wahanol i addasu i ddigwyddiadau sy'n newid yn barhaus. Enghraifft allweddol yw, effaith COVID-19 a sut roedd angen i ni addasu i ffyrdd newydd o weithio.
- Rydym yn croesawu arloesi sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, lle bynnag y bo modd, gyda'r nod bob amser mewn golwg, i wella gwasanaethau i'n trigolion.
- Rydym wedi cyflwyno rhaglen trawsnewid y gweithle sydd wedi cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid yn y camau dylunio a gweithredu.

2. Cyngor ysbrydoledig a gweledigaethol sy'n...

- Gwella bywydau drwy arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion effeithiol
- Adnabod a bachu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol
- Gosod cyfeiriad clir a nodau hirdymor
- Lleihau ei ôl-troed carbon

Casgliadau Allweddol

Fel Cyngor ysbrydoledig a gweledigaethol, byddwn yn cael ein diffinio gan arweinyddiaeth gref ac effeithiol. Bydd arweinyddiaeth gan swyddogion ac aelodau yn gosod llwybr clir i'r Cyngor er mwyn i ni fod y gorau y gallwn, gan gyflwyno'r gwelliannau ar gyfer y bobl a Thorfaen yn gyffredinol. Rhai o'r meysydd y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt i gyflawni'r gwelliannau hynny yw:

a. Meysydd Allweddol i'w Gwella

- Rydym yn datblygu ein Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygu, mewn ymateb i'n Harolygiad diweddar gan Estyn. Er bod ffocws ein cynllun yn benodol ar y materion a nodwyd, rydym hefyd yn gweithio gyda'n holl randdeiliaid i ddatblygu ein cynllun strategol ar gyfer addysg yn y fwrdeistref dros y pum mlynedd nesaf – sef ein datganiad 'Uchelgeisiau a Rennir'. Bydd hyn yn amlinellu'r rhan y gall pob plaid ar draws y bartneriaeth addysg yn Nhorfaen - y gwasanaeth addysg, y Cyngor ehangach, ein cyrff sy'n bartneriaid, a'n hysgolion – ei chwarae, wrth gefnogi pob lleoliad addysg, i gyflawni addysgu rhagorol, wedi'i gefnogi gan arweinyddiaeth wych, fel y gallwn fod yn hyderus y gall dysgwyr a theuluoedd yn Nhorfaen gael hyd i'r addysg ragorol y maen nhw ei hangen a'i haeddu.
- Rydyn ni wedi creu Cyfarwyddiaeth Cymunedau, Cwsmeriaid a Materion Digidol newydd, gan y bydd angen i ni weithio gyda chymunedau er mwyn codi dyheadau. Mae hyn yn golygu ein bod yn ysbrydoledig o ran cwrmpas ac uchelgais y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'n cymunedau, ond hefyd yn codi dyheadau unigol a chyfunol y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn ein cymunedau.


b. Meysydd Allweddol i'w datblygu Ymhellach

Mae gennym eisoes feysydd gwaith sydd angen datblygu ymhellach. Dyma nhw:

- Byddwn yn gweithio i gwblhau a gweithredu ein Cynllun Sirol/Corfforaethol newydd, a fydd yn nodi ein cyfeiriad am y 5 mlynedd nesaf. Bydd y cynllun sirol newydd yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer Torfaen yn 2027, gyda 9 amcan llesiant uchelgeisiol, sy'n dangos yn glir sut y byddwn yn cyflawni'r weledigaeth honno.
- Byddwn yn parhau i gyflawni'n blaenoriaethau, fel y nodir, o fewn ein Strategaeth Wastraff, gan ddarparu gwasanaeth sydd nid yn unig yn cyflawni targedau'r llywodraeth, ond a fydd yn darparu cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion fod yn falch ohono.
- Mae angen i ni sicrhau bod graddfa a chyflymder priodol, ar draws y Cyngor cyfan, wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd – yn fwy penodol ein bod yn gwneud cynnydd i fodloni'r ymrwymiad cryf sydd wedi'i wneud, i ddod yn sero carbon net erbyn 2030. Byddwn ni'n ystyried Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol - Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 yn ofalus ac yn ymateb iddo.
- Byddwn yn ystyried ffyrdd eraill o wella effeithlonrwydd ein stoc adeiladu ysgolion presennol (toeau a waliau) o ran gwres. Byddwn ni'n anelu at gyrraedd lefelau mewn rhai ysgolion, lle gallai technolegau fel aer a systemau ffynhonnell ddaear fod yn ymarferol.
- O ran y nod cychwynol i gynyddu ein fflyd trydan, yn unol â nodau Llywodraeth Cymru, byddem yn gobeithio newid cymaint â phosibl o gerbydau llai y fflyd, yn y 2-3 blynedd nesaf.

c. Cryfderau Allweddol y Sefydliad

Rydym wedi gweithio'n ddyfal fel Cyngor i fod yn gyngor ysbrydoledig a gweledigaethol. Mae rhai enghreifftiau o'r gwaith hwn i'w gweld isod:



- Gwnaed penderfyniadau ariannol i gynyddu'r Taliad Disgresiwn at Gostau Tai tan fis Mawrth 2023, gan fuddsoddi £1.2 miliwn yn fwy, i helpu'r gymuned i adfer yn dilyn effeithiau COVID-19.
- Mae lansio'r cynllun cerdyn adnabod i Ofalwyr Ifanc, ym mis Mawrth eleni, yn galluogi pobl ifanc i ddangos i ysgolion, meddygfeydd a fferyllfeydd eu bod yn ofalwyr, felly'n eu caniatáu i gael mynediad am ddim i sesiynau nofio, sesiynau campfa a dosbarthiadau ffitrwydd, o fewn yr Ymddiriedolaeth Hamdden.
- Yn ddiweddar fe wnaethom gyflwyno "Fframwaith Llesiant Strategol Torfaen", sy'n esbonio sut rydym yn bwriadu cyflawni ein cenhadaeth. Byddwn yn defnyddio'r fframwaith hwn i ymgysylltu â staff a thrigolion i egluro'r cyfeiriad yr ydym am ei ddilyn wrth symud ymlaen.
- Datblygu ein cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a phrosiectau eraill hefyd, fel ein cynllun 15 mlynedd i ddatblygu ac adeiladu llwybrau teithio llesol ledled y fwrdeistref. Yn benodol, bydd ein 2 brif gynllun cludiant yn darparu cyfleoedd gwell i'r sawl sy'n gyrru ceir preifat, i newid i ddulliau mwy cynaliadwy:
 - Adeiladu Gorsaf Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd, fel rhan o'r rhaglen Metro Plus.
 - Datblygu cynigion ar gyfer Canol Tref Cwmbrân, i wella cysylltiadau rhwng Gorsafoedd Bysiau a Threnau Cwmbrân

- Rydym ni wedi dechrau lleihau ein hallyriadau ac o'r herwydd rydym wedi cynyddu'r adnewyddadwy yr ydym yn ei gynhyrchu a'i ddefnyddio. Mae hyn yn cyd-fynd, â tharged Llywodraeth Cymru i gynhyrchu 70 y cant o'r trydan yr ydym yn ei ddefnyddio o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2030.
- Rydym yn gweithio tuag at gynyddu ein fflyd drwy ddefnyddio cerbydau trydan, y mae gennym 12 ohonynt ar hyn o bryd, ond rydym yn gweithio tuag at gynyddu capasiti cyflenwi yn sylweddol yn ein depo yn Y Dafarn Newydd, a'r potensial i gynyddu'r capasiti gwefru yn sylweddol ar gyfer cerbydau trydan.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen a'n hysgolion i ddarparu ystod o gynlluniau effeithlonrwydd ynni, i leihau ein hallyriadau carbon a lleihau costau i wasanaethau.

3. Cyngor sy'n perfformio ar lefel uchel, sy'n...

- Cyfleu blaenoriaethau a disgwyliadau'r cyngor
- Un sydd bob amser yn dysgu ac am wella
- Mesur yr hyn sy'n bwysig i drigolion a chymunedau
- Un sy'n hunanwerthuso i ganolbwyntio ar effaith a chanlyniadau
- Un sy'n deall ei bwrpas ac yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol

Casgliadau Allweddol

Ar ôl casglu'r dystiolaeth i gefnogi'r nodwedd hon, mae ein canfyddiadau yn gliriach yma, nag yn unrhyw rhai o'r meysydd eraill. Yn ôl y disgwyl, gwelwyd llawer o enghreifftiau o'r hyn rydym ni'n ei wneud yn dda, ond nid oes dystiolaeth bob amser i ddangos "sut ydym ni'n gwybod" a "pha effaith a gafodd hyn".

Mae angen i ni fod yn fwy ymwybodol pam rydym ni'n gwneud pethau, ac arfarnu mwy ar ôl i ni eu gwneud nhw. Bydd hyn yn ein galluogi i fesur, p'un a yw'r hyn rydym ni wedi'i wneud, yn cael yr effaith yr ydym yn ei ddymuno ar ein trigolion. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwneud hynny'n gyson ar draws y Cyngor.

Mae'r dystiolaeth a ddarperir i ddangos sut y credwn ein bod yn cwrdd â phob nodwedd, yn aml yn benodol ac yn weithredol ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'n amlwg felly, mewn llawer o achosion, bod angen dulliau strategol wedi'u diffinio'n well, o ran cyflawni ein nodweddion diffiniedig, a fydd yn sbarduno gwelliannau ar draws y Cyngor. Felly rydym yn bwriadu canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol i wella hyn.

a. Meysydd Allweddol i'w Gwella

- Rydym yn derbyn argymhellion arolwg Estyn ar gyfer y Gwasanaeth Addysg. Mae'r gwasanaeth Addysg yn paratoi Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygu (PIAP) a fydd yn sicrhau newid systemig ar draws y Gwasanaeth Addysg a'r Cyngor ehangach, a fydd yn gwella ar ein diwylliant perfformiad a'n fframwaith atebolrwydd – y mae'r ddau ohonynt yn hanfodol i sicrhau gwelliant sylweddol a pharhaus yn nhermau canlyniadau i ddysgwyr, dros amser.
- Byddwn yn adolygu ein dulliau o gynllunio gwasanaethau a hunanwerthuso, rheoli risg ac adrodd ar berfformiad (ar gyfer gweithgarwch, risgiau a data perfformiad), fel rhan o ddatblygu a dogfennu ein dull cyffredinol o berfformio, mewn fframwaith rheoli perfformiad (FfRhP) diwygiedig.
- Rydym wedi dechrau gweithio ar gyflwyno Power BI, i gefnogi ein dyhead i ddod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata a gwybodaeth, trwy wella hygyrchedd a gwelededd data.
- Byddwn ni'n ailgyflwyno meincnodi, wrth asesu ein perfformiad yn y dyfodol, yn dilyn y tarfu a achoswyd gan COVID ar argaeledd a chywirdeb setiau data cenedlaethol.
- Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) yn y Cyngor. Bydd y PMO yn sicrhau bod y rhaglenni a phrosiectau i greu newid wedi'u cynllunio fel eu bod yn cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, bod ganddynt yr adnoddau cywir a'u bod yn cael eu rheoli'n gywir o fewn y gyllideb ac o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt i ddarparu'r manteision a fwriadwyd.
- Rydym yn datblygu ein Cynllun Sirol newydd am y 5 mlynedd nesaf, gan gyfleu ein blaenoriaethau ar gyfer gwella mewn ffordd glir, ac yn gefn i ni bydd ein cynllun cyflawni blynyddol, a fydd yn dangos yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i gyflawni ein blaenoriaethau.

b. Meysydd Allweddol i'w Datblygu Ymhellach

I fod yn Gyngor sy'n perfformio'n uchel, credwn fod angen i ni fod yn dysgu bob amser a cheisio gwella, ac rydym eisoes wedi nodi meysydd, lle mae hyn yn digwydd:

- Mae angen cwblhau Cynllun Datblygu'r Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc, er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r camau gweithredu sydd wedi eu nodi ynddo a'r fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi'i greu, mae angen ei ymgorffori ar draws holl haenau'r gwasanaethau plant a theuluoedd.
- Nodwyd bod y gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff yn risg gorfforaethol ac mae rhaglen waith yn mynd rhagddi i wella perfformiad. Mae'n cynnwys:
 - adolygu cynllun gweithredu'r strategaeth a'r mesurau y gallwn eu cyflwyno ar reoli gwastraff gweddilliol, i gynyddu nifer y rheini sy'n berchen ar dai, sy'n mynd ati i ddefnyddio gwasanaethau ailgylchu bwyd a sych wrth ymyl y ffordd erbyn mis Mawrth 2023; a
 - gweithredu gwasanaeth newydd mwy effeithlon yn y tymor hir, gan gynnwys cyflwyno 19 o gerbydau ailgylchu newydd a strategaeth i greu cyfleuster ailgylchu canolog hirdymor, gwydn a chynaliadwy, i brosesu a chynyddu ailgylchu eitemau o'r cartrefi, cyn eu gwerthu i'r farchnad.

c. Cryfderau Allweddol y Sefydliad

Rydym bob amser yn ceisio dysgu a gwella a theimlwn fod yna agweddau sydd eisoes wedi bod yn llwyddiannus fel y dangosir isod:

- Cyflwyno Fframwaith Strategol ar gyfer Llesiant yn Nhorfaen, sy'n cynnwys ein cenhadaeth a sut rydym yn bwriadu ei gyflawni, yw'r camau cychwynnol i gadarnhau ein blaenoriaethau a'n disgwyliadau i'n staff a'n trigolion. Mae'n cynnwys ein blaenoriaethau a'n gwerthoedd ac yn arwain ymlaen at 8 Nodwedd sy'n diffinio Cyngor Rhagorol, sydd wedi bod yn sail i ffurfio'r hunan-asesiad cyntaf dan sylw.
- Rydym wedi derbyn Safonau Ansawdd Efydd, Arian ac Aur yn y Gwasanaeth Ieuenctid, am yr amrywiaeth o gyfleoedd sy'n cael eu darparu i'n pobl ifanc 11-25 oed, yn eu clybiau ieuenctid cymunedol lleol, allan ar y strydoedd gyda'n tîm sy'n gweithio o bell, yn ein hysgolion lleol a thrwy ein gweithgareddau a'n prosiectau ieuenctid cyffrous. Cafodd y gwaith a wnaed yn y maes hwn, ei gydnabod gan Estyn, yn eu harolygiad diweddar.
- Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 (ein hadroddiad diweddaraf), derbyniodd yr awdurdod gyfanswm o 75 o gwynion; 63 ar gam 1, 0 ar gam 2 a 12 trwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (dyma'r nifer isaf yng Nghymru yn 2020/21).
- Mae ein hadroddiad Cwynion Blynyddol hefyd yn cofnodi nifer y canmoliaethau yr ydym yn eu derbyn, ac am y flwyddyn 2020/21 cawsom 106 o ganmoliaethau gan ddefnyddwyr y gwasanaeth o gymharu â 57 yn y flwyddyn flaenorol. Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni gofnodi mwy o ganmoliaeth na chwynion.

4. Cyngor cydweithredol a chynhwysol sy'n...

- Meithrin natur gynhwysol a chyfartal
- Cydnabod cyfraniad eraill
- Croesawu her a chyfathrebu gan gydweithwyr, cyfoedion a phartneriaid
- Canolbwyntio ar gryfderau partneriaid a chymunedau
- Agored i rannu adnoddau gyda phartneriaid a chymunedau
- Croesawu syniadau ac yn agored i gefnogi i gyflawni ei flaenoriaethau strategol

Casgliadau Allweddol

Rydym wedi gwneud cynnydd cadarn o ran dod yn Gyngor cydweithredol a chynhwysol, fel y tystia trwy gydol y ddogfen hon. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn gallu cael effaith gadarnhaol, wrth sicrhau bod Torfaen yn lle gwych i fyw a gweithio a bydd ein meysydd allweddol ar gyfer gwella, fel y nodir isod, yn sicrhau bod hyn yn digwydd:

a. Meysydd Allweddol i'w Gwella

- Byddwn yn symud tuag at Ddull Cymunedol o ran Llesiant a Gwytnwch ac yn buddsoddi yn y fath ddull, fydd yn ein galluogi i:
 - Leihau lefelau'r galw am wasanaethau ffurfiol (cynghori a statudol)
 - Cynyddu gwytnwch cymunedau, er mwyn addasu i heriau'r dyfodol

- Gwella llesiant yn y gymuned
- Gwella perchnogaeth gymunedol a chanfyddiadau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd

b. Meysydd Allweddol i'w Datblygu Ymhellach

- Byddwn yn parhau i ymateb i Adolygiad Addas ar gyfer y Dyfodol gan Archwilio Cymru, drwy wneud rhagor o waith gyda'n Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, i sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hystyried yn weithredol, fel rhan o'u hagwedd at ymgymryd â gweithgarwch craffu.
- Rydym wedi cynnwys amrywiaeth eang o staff, wrth ddatblygu ein fframwaith ymddygiadau (Y Ffordd Rydym yn Gweithio) ac yn fwy diweddar wrth ddylunio a gweithredu'r Project Trawsnewid yn y Gweithle. Mae'r dull cydweithredol o ymdrin â'r gweithgareddau hyn wedi arwain at gynhyrchion terfynol sy'n adlewyrchu anghenion y gweithlu yn well ac yn dangos gwerth dull cydweithredol o ddatrys problemau. Byddwn ni'n ymgorffori ein dull newydd sef 'cymunedau o ddiddordeb' yn holl waith datblygu'r sefydliad yn y dyfodol.

c. Cryfderau Allweddol y Sefydliad

- Gallwn ddangos tystiolaeth o'r ffordd yr ydym yn meithrin natur gynhwysol a chyfartal drwy gyfeirio at nifer o gynlluniau neu weithgareddau strategol, sydd wedi'u cynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf, sef:
 - Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024
 - Ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer y Gymraeg Mewn Addysg
 - Gweithio ar y cyd gyda phartneriaid fel *Displaced People in Action* a Chymunedau am Waith a Mwy, yn enwedig pan ddechreuodd y cynllunio i gefnogi Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan.
- Rydym yn gweithio'n dda gydag eraill a gallwn ddangos y llwyddiant drwy gyfeirio at rhai o'n cydweithrediadau, fel a ganlyn:
 - Torfaen sy'n cynnal yr unig wasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a Rennir, yng Nghymru.
 - Mewn ymateb i strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) Llywodraeth Cymru, fe ddangoson ni ein hymrwymiad i gydweithio, drwy ein rôl yn sefydlu Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau (TGAU) Gwent. Roedd hon yn bartneriaeth rhwng y pum awdurdod lleol yng Ngwent a Bwrdd Iechyd Athrofaol Aneurin Bevan.
 - Daeth y Gwasanaeth Rhannau Adnoddau (GRhA) ag achos busnes gwerth miliynau o bunnoedd i bedwar partner ein Hawdurdod Lleol, er mwyn symud eu holl wasanaethau technoleg cynradd, o Flaenafon i ddarparwr canolfan ddata breifat, yng Nghasnewydd.
 - Rydym wedi atgyfnerthu ein camau i weithio mewn partneriaeth trwy ehangu'r Hwb Diogelu a Chymorth Amlasiantaeth (MASSH).
- Cyfeiriodd Estyn yn eu hadroddiad arolygu diweddar, at y ffaith bod gennym hanes cryf o weithio ar y cyd ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth. Mae hyn, ynghyd â dull lleol o ddatblygu arweinwyr diwygio ADY, a gweithio clwstwr, wedi darparu cefnogaeth dda i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer diwygio ADY a'i weithredu.

5. Cyngor wedi ei rheoli'n dda, sydd yn...

- Croesawu ei werthoedd craidd
- Gwerthfawrogi llesiant a chyfraniad staff
- Buddsoddi mewn staff a meddu ar gynlluniau ar gyfer gweithlu'r dyfodol
- Ffordd dda o reoli i sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn

Casgliadau Allweddol

Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu ar gyfer y nodwedd hon yn ein helpu i ddod i'r casgliad ein bod yn Gyngor a reolir yn dda, er ein bod yn cydnabod bod y pandemig wedi e gohirio ein gallu i gyflawni gwelliannau, o fewn y meysydd lle'r oeddem yn gwybod bod angen gwelliannau neu ddatblygiadau. Rydym bellach yn ôl ar y trywydd iawn ac yn ail-fywiogi'r gwaith rydyn ni'n gwybod y mae ei angen i'n helpu ni i wella, sef:

a. Meysydd Allweddol i'w Gwella

- Byddwn ni'n cynllunio ar gyfer ein gweithlu yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gadarn.
- Byddwn yn datblygu porth recriwtio, a fydd yn "gwerthu" y rheswm fod Torfaen yn lle gwych i weithio. Bydd ein porth yn amlinellu'r manteision a'r cyfleoedd ac yn esbonio ein gweledigaeth, gwerthoedd a'n dyheadau a hefyd yn arwain at recriwtio mwy effeithiol a chyflymach.
- Byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd yr ydym yn eu darparu i bobl ifanc Torfaen ddechrau a datblygu eu gyrfaedd gyda'r Cyngor, trwy gynyddu'r prentisiaethau yr ydym yn eu cynnig, a dechrau ar ein Cynllun i'r rheini sy'n Gadael yr Ysgol. Byddwn ni hefyd yn cynyddu nifer y cyfleoedd yr ydym yn eu darparu o ran cyflogaeth â chymorth, i bobl ag anawsterau dysgu.
- Byddwn ni'n diwygio ein hymagwedd tuag at Ddeddf LICD 2015 trwy gychwyn prosiectau, datblygu strategaethau a gwneud penderfyniadau i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar lesiant yn Nhorfaen.

b. Meysydd Allweddol i'w Datblygu Ymhellach

- Byddwn yn diweddarau ac adolygu ein Strategaeth Gweithlu, wrth i ni ddod allan o'r pandemig, ac wrth i gyfeiriad strategol y Tîm Arweinyddiaeth a'r Cynllun Corfforaethol ddod yn fwy eglur.

c. Cryfderau Allweddol y Sefydliad

Mae yna lawer o enghreifftiau y gallwn eu defnyddio i ddangos ein cryfderau yn y maes hwn, fel a ganlyn:

- Mae gwerthoedd yn chwarae rhan hanfodol yn niwylliant unrhyw sefydliad. Trwy werthoedd, rydyn ni'n golygu'r credoau craidd a'r egwyddorion arweiniol, ac rydyn ni'n cyflawni ein busnes a'r berthynas sydd gennym ni gydag eraill. Gwerthoedd craidd Torfaen yw:
 - Cefnogol
 - Teg
 - Effeithiol
 - Arloesol
- Datblygwyd y 'Ffordd Rydym yn Gweithio' trwy gyfres o sgysiau a sesiynau ymgysylltu â staff, gyda'r nod o wireddu ein gwerthoedd.
- Mae gennym ein Grŵp Ffocws Staff ein hunain, sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, o drawstoriad o wasanaethau a rolau'r Cyngor ar bob lefel. Fe'i sefydlwyd yn 2018 ac mae'n darparu fforwm i staff gyfrannu at wella ein hamgylchedd gwaith a chefnogi dull cyson, ar draws y Cyngor.
- Yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno ein Polisi i Ofalwyr, a gafodd ei greu gyda chymorth Gweithgor Gofalwyr, a sefydlwyd i sicrhau bod y polisi yn cael ei greu i aelodau staff, sydd hefyd yn ofalwyr di-dâl.
- Rydym yn deall yr angen i fuddsoddi yn ein staff presennol, ond mae hefyd angen edrych ymlaen, trwy gynllunio olyniaeth a chael rhaglen brentisiaeth ar waith, sydd nid yn unig yn edrych i benodi pobl newydd i'r cyngor, ond hefyd yn galluogi'r rhai sy'n gweithio gyda ni, i hyfforddi, fel rhan o'r rhaglen i brentisiaid.
- Y Prif Weithredwr Cynorthwyol sy'n gadeirydd ar ein Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg ac mae'n goruchwyllo ac yn adolygu trefniadau llywodraethu, i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn cymryd yr awenau, drwy'r Swyddog Monitro, wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Isod, gellir gweld enghreifftiau o'r ffyrdd yr ydym yn gweithio ar hyn o bryd i leihau ein hól-troed carbon:
 - Mae ein Cynllun Gweithredu yn nodi ein dull o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030 a sut y byddwn yn diogelu a gwella adnoddau naturiol gwerthfawr Torfaen a'r fioamrywiaeth y maent yn eu cefnogi.
 - Defnyddio technegau adeiladu arloesol, dyluniadau sy'n gynaliadwy/arbed ynni/leihau carbon, yn enwedig o fewn y gosodiadau mecanyddol a thrydanol.
 - Rydym wedi cynyddu nifer y cerbydau trydan yn ein fflyd (mae gennym 12 cerbyd ar hyn o bryd).
 - Rydym wedi cyflwyno pwyntiau gwefru mewn 7 maes parcio cyhoeddus.

6. Cyngor ysgogol a hygyrch sy'n...

- Defnyddio ystod eang o offer i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid
- Cynnwys staff a thrigolion ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw
- Manteisio ar syniadau gan gwsmeriaid a staff
- Agored ac yn onest gyda staff a thrigolion
- Rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad amserol ac yn dathlu llwyddiant

Canfyddiadau Allweddol

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cyfathrebu ac ymgysylltu â'n staff, trigolion, partneriaid a rhanddeiliaid ar y materion sy'n effeithio arnynt ac rydym yn anelu at wneud hyn, bob amser. Mae angen i ni wneud llawer mwy o waith er mwyn gwella ar hyn, fel a ganlyn:

a. Meysydd Allweddol i'w Gwella

- Yn ystod 2022/23, bydd ein cyfarwyddiaeth Cymunedau newydd yn sefydlu cynllun gweithredu clir, gan nodi sut y byddwn yn gweithio gydag unigolion, grwpiau, a sefydliadau (fel cynghorau cymuned), o fewn pob un o'n cymunedau, i nodi a chyflawni yn erbyn eu blaenoriaethau llesiant.
- Byddwn yn ymateb i argymhellion adroddiad Archwilio Cymru 'Bwrw 'mlaen– Asedau a'r Gweithlu' drwy ddarparu dull strategol o atgyfnerthu ein gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, yn y tymor byr a'r tymor hwy.

b. Meysydd Allweddol i'w Datblygu Ymhellach

- Yn 2022/23, mae angen i ni ganolbwyntio ar y meysydd sy'n galw am y ffocws mwyaf, fel yr amlygwyd yng nghanlyniadau'r Arolwg i Aelodau Trosolwg a Chraffu a byddwn yn gwneud hyn drwy barhau i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r arolwg, gan adolygu a datblygu ein prosesau yn rheolaidd, mewn ymgynghoriad â Chadeiryddion Pwyllgorau Craffu, yn ein Cyfarfodydd Cadeiryddion Anffurfiol rheolaidd.
- Mae angen i ni annog aelodau ein Bwrdd Rhianta Corfforaethol (BRhC) i chwarae rhan weithredol ym musnes y BRhC, sy'n cynnwys ychwanegu eitemau agenda a chraffu ar bynciau perfformiad, data a chyflwyno. Dylai hyn fod yn digwydd wrth symud ymlaen, ac mae'n fater fydd yn cael ei annog.
- Byddwn yn datblygu modd i gynnwys y cyhoedd yn well, wrth weithio gyda ni. Byddwn ni'n gweithredu'r protocolau o ran cyfranogiad ac yn cynnwys y cyhoedd, a mabwysiadwyd hyn yn ein Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth, ar draws pob maes gwasanaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi cyfle i bobl ddweud eu dweud am y ffordd rydym ni'n gweithio a'r penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud sy'n effeithio arnyn nhw.

c. Cryfderau Allweddol y Sefydliad

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu â'n staff, aelodau, trigolion, partneriaid a rhanddeiliaid a gellir dangos hyn, fel a ganlyn:

- Ein Prosiect Trawsnewid yn y Gweithle – rydym wedi bod yn cyfathrebu'n barhaus â'n staff, ers Haf 2020, trwy arolygon, cylchlythyrau, ac e-byst, i sicrhau bod staff yn cymryd rhan yn y broses i drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio, wrth symud ymlaen.
- Mae ein Grŵp Ffocws Staff - sy'n cynnwys gwirfoddolwyr o drawstoriad o wasanaethau a rolau'r Cyngor ar bob lefel, i ddarparu fforwm i aelodau staff, fel eu bod yn gallu cyfrannu at wella ein hamgylchedd gwaith a chefnogi dull cyson, ar draws y Cyngor.
- Ein Gwasanaeth E-fwletin – Rydym yn cyhoeddi rhwng 3-5 datganiad i'r wasg ar gyfartaledd bob wythnos, gydag ychydig dros 3,300 o bobl wedi tanysgrifio i'w derbyn. Rydym hefyd yn cyhoeddi bwletin Newyddion Wythnosol, y mae tua 15,500 o bobl wedi tanysgrifio i'w dderbyn ac mae'n crynhoi newyddion yr wythnos honno gan Gyngor Torfaen.
- Cynhelir Arolygon Blyneddol i Drigolion i ganfod lefelau boddhad o ran gwasanaethau'r cyngor ac i gasglu gwybodaeth "ar lawr gwlad" am feysydd cyflenwi sydd angen gwella.
- Rydym wedi gweithredu'r cynnyrch "Taro'r Bwrdd" ar ein gwefan newydd "Dweud Eich Dweud" Torfaen, sef ein llwyfan cyfranogiad cyhoeddus a'n "siop-un-stop" i ymgysylltu â'r gymuned.

- Cafodd ein Gwasanaeth Ieuentid ei asesu'n allanol yn ddiweddar ar gyfer y Marc Ansawdd Gwaith Ieuentid Arian ac yna Aur. Roedden ni eisoes wedi cyflawni Efydd, yn 2021. Ar y lefel Arian cawsom ein hasesu ynghylch p'un ai fod gan y sefydliad strategaeth neu gynllun ar waith, i sicrhau bod pobl ifanc yn medru cyfranogi ac ymgysylltu'n barhaus.
- Rydym yn ymgynghori'n eang yn rheolaidd ag aelodau'r cyhoedd a'n partneriaid ac yn gweithredu lle bo modd, yn ôl y safbwyntiau a'r syniadau, rydym yn eu derbyn, o ganlyniad i'r ymgynghoriadau hynny.
- Arolwg i'r Aelodau – arolwg blynyddol sy'n cael ei gynnal i geisio barn aelodau; ar y gefnogaeth maen nhw'n ei dderbyn, i gyflawni eu rolau, gan gynnwys y broses graffu, ac effaith a chanlyniadau gweithgarwch craffu.

7. Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol, sy'n...

- Meddu ar ddulliau llywodraethu ariannol cadarn
- Rheoli adnoddau'n llwyddiannus ac yn ceisio gwerth am arian
- Cynhyrchu incwm lle bo hynny'n briodol
- Hyrwyddo mewnfuddsoddi i'r eithaf
- Buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol

Casgliadau Allweddol

Fel Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol, rydym yn deall y gofyniad am lywodraethu ariannol cadarn, er mwyn sicrhau gwytnwch/sicrwydd ariannol a; ein bod yn rheoli ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi bod mwy y gallwn ei wneud bob amser, i wella, fel y gwelir yn yr adrannau isod:

a. Meysydd Allweddol i'w Gwella

- Mae Cod Rheoli Ariannol CIPFA yn gweithredu fel modd o hunanwerthuso ein rheolaeth ariannol a'n llywodraethu fel Cyngor. Mae'r meysydd sylweddol i'w gwella yn cynnwys: dealltwriaeth glir a chyson ynghylch beth y mae gwerth am arian yn ei olygu; canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau ariannol yn y tymor canolig a'r tymor hwy; datblygu cynllun buddsoddi strategol ehangach i gefnogi'r strategaeth gyfalaf a mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Byddwn yn ymateb i adroddiad Archwilio Cymru ar Fasnacheiddio ac yn benodol, gan benderfynu sut y dymunwn ei ddilyn e.e. gweithredu gwasanaethau'n fwy effeithlon drwy, er enghraifft, lleihau cost, codi taliadau, denu cwsmeriaid neu ddefnyddwyr newydd; lleihau costau sybsideiddio rhai gwasanaethau; darparu gwasanaethau'n wahanol

b. Meysydd Allweddol i'w Datblygu Ymhellach

- Byddwn yn ymateb i Adroddiad Asesu Cynladwyedd Ariannol Archwilio Cymru
- Byddwn yn datblygu ein dull gweithredu, ar y cyd â Chynghorau Caerdydd a Sir Fynwy, fel rhan o gydweithrediad ein Gwasanaethau Caffael. Bydd y trefniant yn cynyddu ein gallu a'n harbenigedd i ddarparu mwy o wytnwch a sefydlogrwydd i'r swyddogaeth gaffael
- Byddwn yn ceisio sicrhau buddion ychwanegol o'n gwariant trydydd parti, i ddylanwadu ar yr agenda datgarboneiddio a sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol a buddion cymunedol.

c. Cryfderau Allweddol y Sefydliad

Fel cyngor sy'n graff o ran materion ariannol, rydym yn deall y gofyn am rheoliaeth ariannol cadarn, er mwyn sicrhau gwytnwch/sicrwydd ariannol ac rydym yn rheoli ein hadnoddau mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Gellir gweld hyn yn ôl y canlynol:

- Glynu at y Cod Rheoli Ariannol (RhA) - a gynlluniwyd i gefnogi arferion da mewn rheolaeth ariannol (ac agweddau llywodraethu ehangach) a chynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol eu hunain. Mae'r Cod RhA yn nodi safonau rheoli ariannol ar gyfer bob awdurdod lleol, ac yn canolbwyntio ar werth am arian, llywodraethu ac arddulliau rheoli ariannol, gwydnwch ariannol a chynaliadwyedd ariannol.

- Mae gan y sefydliad fframwaith effeithiol o atebolrwydd ariannol y gellir ei ddangos gan ein trefniadau cadarn, ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol drwy weithdrefnau cyfrifo'r Awdurdod a Rheoliadau Ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio cyllideb cyfalaf a refeniw sefydledig, gosod a monitro gweithdrefnau.
- Trefniadau Llywodraethu Effeithiol – rydym yn cael ein llywodraethu gan Gyfansoddiad cynhwysfawr sy'n cael ei ddiweddarau a'i ystyried yn rheolaidd gan y Cyngor. Mae elfennau allweddol y Cyfansoddiad yn amlinellu'r ffordd yr ydym yn gweithredu, cylch gwaith yr holl bwyllgorau a grwpiau perthnasol, sut y cynhelir y cyfarfodydd hyn, sut mae'r cynllun dirprwyo yn gweithredu a pha brosesau sy'n cefnogi'r broses ddirprwyo.
- Y Gweithgor Llywodraethu a Rheoli Risg - goruchwylio ac adolygu'r trefniadau llywodraethu, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol, ac yn cymryd yr awenau, drwy'r Swyddog Monitro, wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Ein Strategaeth Rheoli Asedau - nodi sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn arfer stiwardiaeth o ran ein hasedau eiddo, i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, er budd y trigolion presennol a hefyd er budd cenedlaethau'r dyfodol.
- Caffael – rydym wedi penderfynu cydweithio gyda Chynghorau Caerdydd a Sir Fynwy i ddarparu gwasanaethau caffael, oherwydd y diffyg gallu ac arbenigedd o fewn y Cyngor.

8. Cyngor sy'n ddigidol, sy'n cael ei arwain gan ddata, ac sy'n...

- Defnyddio data i rhagweld anghenion
- Creu proffiliau digidol i ddeall siwrneiau cwsmeriaid yn well
- Bob amser ymlaen – galluogi trigolion i gael mynediad at ystod eang o wasanaethau digidol
- Cynnwys trigolion drwy gynhwysiant digidol a llwyfannau digidol

Casgliadau Allweddol

Fel Cyngor digidol sy'n cael ei arwain gan ddata, rydym yn cydnabod yr angen i gasglu data a deall sut i'w ddefnyddio er mwyn deall anghenion ein cwsmeriaid. Byddwn ni'n ymdrechu i wneud hyn drwy:

a. Meysydd Allweddol i'w Gwella

- Byddwn yn cyflwyno ein Strategaeth Cwsmeriaid 'Digidol yn Gyntaf', sy'n debygol o gynnwys elfennau Digidol, Data a Thechnoleg sy'n galluogi gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid sy'n cael ei yrru gan ddata. Bydd gwneud penderfyniadau ataliol yn allweddol o ran y ffordd y byddwn yn gwella o fewn y maes hwn.
- Yn aml gall ailgynllunio gwasanaethau fod yn ymgynghorol o hyd gyda llais cwsmeriaid yn cael ei gyflwyno'n rhy hwyr yn y broses ddylunio. Byddwn yn cyflwyno personâu cwsmeriaid i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu hystyried yn gynnar, mewn unrhyw waith dylunio gwasanaethau. Mae'r rhain wedi'u seilio ar ystod o ddata demograffig sy'n eang a dwfn ac arferol. Bydd y personâu yn cyflwyno llais cwsmeriaid i drafodaethau cynnar, ond ni fydd yn disodli ymgysylltu â thrigolion nac ymchwil defnyddwyr, a fydd yn cael ei atgyfnerthu, wrth i ni fynd ati i ddylunio gwasanaethau.
- Byddwn yn gwella ein proses recriwtio digidol, i wneud y broses yn fwy effeithiol ac yn gyflymach i ymgeiswyr.

b. Meysydd Allweddol i'w Datblygu Ymhellach

- Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r argymhellion a ddaw i'r amlwg yn adroddiad Archwilio Cymru – Rheoli Gwybodaeth – Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran defnyddio data. Mae ein Maes Gwasanaeth newydd – Cymunedau, Cwsmeriaid a Materion Digidol bellach ar waith a bydd yr argymhellion hynny yn cael eu monitro'n rheolaidd a'i diweddarau'n unol a hynny, yn rhan o'u gwaith.
- Byddwn yn gweithredu system rheoli dogfennau electronig effeithiol ac effeithlon sy'n galluogi ein gweithlu i gael hyd i wybodaeth, ei storio, ei hadfer a'i rhannu, ble bynnag y maen nhw a bydd hyn yn galluogi mynediad haws at fewnwelediad a dadansoddi data i lywio anghenion busnes ac anghenion cymunedau.

c. Cryfderau Allweddol y Sefydliad

- Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ein trigolion ac rydym yn dechrau deall mwy am oblygiadau'r ffyrdd yr ydym yn meithrin cyswllt â hwy i wella eu bywydau, er gwell. Gallwn ddangos sut rydym yn gweithio tuag at hyn, drwy wneud y canlynol:
 - Monitro ein cyswllt â chwsmeriaid, p'un a yw hynny'n bersonol, dros y ffôn neu ar lein,
 - Monitro'r gwasanaethau sydd ar gael ar lein, i sicrhau eu bod "ymlaen o hyd" gyda chyn lleied o fylchau â phosibl, a
 - Sicrhau bod ein swyddogaethau ar lein ar gael i bawb – Yn Chwarter 2 yn 2022 fe wnaeth ein gwefan gyrraedd y 26ain safle o blith 411 o gynghorau (1 oedd y gorau), a hynny am fod mor hygyrch.
- Er mwyn bod yn Gyngor digidol sy'n cael ei arwain gan ddata, rydym wedi cydnabod yr angen i gasglu data a deall sut i'w ddefnyddio, er mwyn deall anghenion ein cwsmeriaid. Drwy gasglu data gan ein cwsmeriaid yn ystod COVID, roeddem yn gallu gweithredu prosesau digidol newydd i gynyddu cynhwysiant digidol ledled y fwrdeistref. Gellir dangos hyn, trwy'r canlynol:
 - Gan weithio gyda'n partneriaid yn y GRhA, darparwyd gliniaduron wedi'u hadnewyddu, y gallai disgyblion eu defnyddio gartref i alluogi dysgu cyfunol.
 - Roedd mynediad o bell i amrywiaeth o e-lyfrau a chylchgronau e-gylchgronau, drwy gynllun poblogaidd BorrowBox y Gwasanaeth Llyfrgell.
 - Cyflwynwyd amrywiaeth o sesiynau, fel grwpiau darllen, amseroedd rhigwm i fabanod, amseroedd stori, sesiynau crefft a sesiynau Lego, a hynny'n ddigidol, a wnaeth helpu gyda chynhwysiant digidol ac unigrwydd.

7. Cydgysylltu ein gofynion deddfwriaethol

Mae'r darpariaethau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (2021) hefyd yn alinio â dyletswyddau eraill sy'n cael eu rhoi ar gynghorau, fel y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016).

Bydd yr adran hon o'r adroddiad felly yn manylu'r ffordd yr ydym wedi bod yn gweithio tuag at ein gofynion deddfwriaethol eraill.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd benodol ar gynghorau, i ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) bob pedair blynedd, ynghyd ag Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol sy'n amlinellu'r cynnydd o ran ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#), mewn perthynas â chyfrifoldebau statudol.

Yn ein hadroddiad blynyddol rydym wedi dangos ein cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas decach drwy'r gwasanaethau yr ydym yn eu cyflawni, gan roi sylw priodol i ddileu gwahaniaethu, canolbwyntio ar amcanion cydraddoldeb strategol penodol ac archwilio'r gwaith yr ydym wedi'i wneud o gymharu â phob amcan, dros y flwyddyn ddiwethaf.

Er gwaethaf yr amgylchiadau ariannol hynod heriol y mae'r sector cyhoeddus yn parhau i'w hwynebu, a'r pwysau sy'n deillio o'r pandemig, rydym wedi gallu parhau i wneud cynnydd gwirioneddol mewn sawl maes yn ein Hamcanion Cydraddoldeb, yn aml drwy weithio mewn partneriaeth, harneisio hyblygrwydd lleol ac integreiddio ein gwaith i ddatblygu dull cydlynol, wrth gyflawni ein blaenoriaethau i gymuned Torfaen.

Mae ein cynnydd yn 2021/22 mewn perthynas â'n cyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn cydymffurfio ac mae'n foddhaol a gwnaed cynnydd sylweddol yng nghyd-destun nifer o amcanion cydraddoldeb allweddol:

- Gan atgyfnerthu ein statws fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym wedi creu a gweithredu hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol i bob aelod o staff er mwyn codi ymwybyddiaeth, gan sicrhau bod staff yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth,
- Fe wnaethom weithredu strategaeth iechyd meddwl a hyfforddiant i staff a rheolwyr (gorfodol i reolwyr),
- Fe wnaethom hyrwyddo ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth sy'n gysylltiedig â Nodweddion Gwarchoddedig, a gweithio'n agos gyda sefydliadau'r trydydd sector h.y., Rygbi'r Dreigiau. Cafodd adnoddau a gweithgareddau'r ysgol hefyd eu rhoi ar waith drwy gydol y flwyddyn

- Darparwyd cefnogaeth i 430 o bobl ifanc bregus i leihau eu risg o fod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) trwy ein rhaglenni cymorth amrywiol,
- Parhawyd i hyrwyddo dealltwriaeth a dathlu amrywiaeth drwy ymgyrchoedd cyfathrebu amrywiol a chyfleoedd hyfforddi,
- Draftiwyd ac ymgynghorwyd ar Gynlluniau Bro ar gyfer Pont-y-pŵl a Blaenafon a fydd yn llunio cais am gyllid gwerth dros £20M gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU i greu mannau hamdden, mannau lletygarwch, a mannau diwylliannol newydd yng nghanol ein trefi,
- Darparwyd cefnogaeth i Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan a Chynllun Cartrefi ar gyfer Wcráin, sy'n caniatáu i unigolion, elusennau, grwpiau cymunedol a busnesau yn y DU ddod â phobl i fan diogel – gan gynnwys y rhai hynny heb gysylltiadau teuluol â'r DU,
- Crëwyd canolfan galw heibio, o fewn ein gwasanaeth llyfrgell, sydd hefyd yn ganolfan ddsbarthu ar ran banc bwyd y cwm dwyreiniol. Dyma oedd un o'r canolfannau dosbarthu mwyaf poblogaidd, ar draws Torfaen,
- Agorwyd ein canolfan llesiant £3.7 miliwn newydd yng Nghwmbrân, sef Tŷ Glas y Dorlan, sy'n cynnig lletyau â gofal, o ansawdd uchel,
- Datblygwyd "Arolwg Yr Hyn Sy'n Bwysig" i glywed barn pobl ifanc sy'n gan adael gofal, am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Cafodd yr arolwg ei ddatblygu gan y bobl ifanc sy'n eistedd ar y Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir, a byddant yn rhan o Gynllun Datblygu'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer 2022/2023,
- Rhoddwyd cymorth i 200 o drigolion eraill i ddod o hyd i waith ystyrlon a help i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd,
- Parhawyd i ddarparu cefnogaeth i'n Cymunedau Sy'n Ystyriol o Dementia ledled, Gwent gyda gweithdai a sesiynau ymwybyddiaeth dementia ar-lein, a
- Pharhawyd i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i leisio'u barn ar faterion sy'n effeithio arny'n nhw.

Yr Iaith Gymraeg

Fel rhan o'n rhwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid i ni gyhoeddi strategaeth pum mlynedd sy'n dangos sut y byddwn yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Cafodd Strategaeth y Gymraeg, ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 20 Mehefin 2016, gan amlinellu'i gyfeiriad strategol yn ystod 2017 – 2022 a fydd yn cynorthwyo twf y Gymraeg o fewn y Fwrdeistref a chefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Adroddwn ein cynnydd yn erbyn y strategaeth hon bob blwyddyn, a hynny yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y Safonau Iaith Cymraeg.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi:

- **Gwaredu ar Rwystrau** - Drwy gyfrwng y Safonau Iaith, cynyddu capasiti a chael gwared ar rwystrau a allai gyfyngu ar adrannau rhag darparu gwasanaethau Cymraeg. Adroddir ar ganlyniad yr adolygiad hwn, o fewn ein hadroddiad blynyddol nesaf
- **Glynu at Bolisi Arwyddion** – Rydym wedi annog datblygwyr eiddo i ddefnyddio enwau Cymraeg ar strydoedd newydd yn y fwrdeistref a byddwn yn parhau i wneud hynny. Yn ystod 2021/22, ni chyflwynwyd enwau strydoedd newydd trwy'r broses gynllunio. Rydym wedi ymrwymo i enwi 50% o'r holl strydoedd newydd (o fewn unrhyw flwyddyn ariannol) yn Gymraeg. Nid ydym bellach yn cyfieithu enwau strydoedd sydd eisoes yn bodoli, yn dilyn arweiniad gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- **Ystyried cyfieithu i'r Gymraeg mewn Cyfarfodydd** - Cynhaliwyd y mwyafrif o gyfarfodydd drwy Microsoft Teams, ac mae'r heriau yr ydym yn eu hwynebu wrth gyfieithu ar y pryd drwy system Microsoft wedi dod yn fwy amlwg. Oherwydd pryderon ynghylch diogelwch, a gyda chynngor gan ein darparwr technoleg gwybodaeth, rydym wedi dewis defnyddio plattform diogel Microsoft Teams. Ar hyn o bryd nid yw'r plattform yn cynnig nifer o ffrydiau sain sydd eu hangen i alluogi cyfieithu ar y pryd i weithio'n ddi-dor. Mae Microsoft yn gweithio ar ddatrysiad, ond mae'n debygol o fod yn ddiweddarach yn 2022, cyn y bydd hyn ar gael. Mae ein darparwr technoleg gwybodaeth yn parhau i weithio gyda Microsoft i sicrhau bod systemau'n cael eu diweddarau ar unwaith pan fydd newyddbethau ar gael.
- **Hyrwyddo Digwyddiadau Diwylliannol** - I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, mewn partneriaeth â Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, llwyddom i gynnig gŵyl fyw ar lein, sef 'Torf-hwyl'. Fe wnaeth nifer o artistiaid berfformio'n fyw (ar lein) drwy gydol y dydd, a hynny ymysg gweithgareddau ar gyfer grwpiau oedran gwahanol, a gwybodaeth am ddysgu Cymraeg. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol ymhlith trigolion yn Nhorfaen a thu hwnt o ran gwyllo'r cyngerdd ar-lein.

- **Dylanwadu ar Ddatblygu Polisiâu** – Mae ein Gwasanaeth Cymraeg yn parhau i fod yn rhan o'r Asesiad Llesiant Integredig, ar benderfyniadau'n ymwneud â pholisiâu. Mae angen Asesiad Effaith Integredig i bob gweithgaredd sy'n creu newid a fydd yn effeithio ar bolisi'r cyngor neu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i drigolion / grwpiau / busnesau lleol, sy'n cynnwys asesiad o'r Gymraeg. Cyn i unrhyw adroddiad gael ei gyflwyno i Aelodau ein cyngor, darllenir yr adroddiad i sicrhau bod effeithiau positif a negyddol wedi cael eu hystyried, yn unol â Safon y Gymraeg.

Bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yn thema drawsbynciol i lywodraeth leol sydd â chysylltiadau cryf â phob mater arall sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy. Mae yna amrywiaeth o ddeddfwriaeth yn cynnwys Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 sy'n rhoi dyletswydd ar holl adrannau'r awdurdod lleol i roi sylw i fioamrywiaeth. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau o ran diogelu a gwella bioamrywiaeth yn Nhorfaen.

Mae cynefinoedd naturiol o'r radd flaenaf yn nodweddiadol o Dorfaen ac mae'n cynnwys ardaloedd o bwysigrwydd cadwraeth genedlaethol a lleol. Mae pedwar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, tua 200 o Safleoedd o Bwys o ran Cadwraeth Natur a saith Gwarchodfa Natur Leol. Mae Afon Lwyd yn goridor ecolegol pwysig yn Nhorfaen ochr yn ochr â chamlas Mynwy ac Aberhonddu.

Mae'r cynefinoedd allweddol yn cynnwys coetir collddail hynafol, gwlypdiroedd, glaswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau a grug sy'n dominyddu'r rhostir ucheldirol. Mae coetiroedd yn gyffredinol yn cynnwys tua 5% o gyfanswm yr ardal yn Nhorfaen, gyda sawl enghraifft o goetiroedd hynafol yng Nghwmbrân sy'n fwy na 400 mlwydd oed.

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Torfaen yn nodi sut y byddwn yn cadw ac yn gwella bioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol y fwrdeistref. Mae'r cynllun, a hwylusir gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen, yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar wahân i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol penodol.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi:

- Derbyn cymeradwyaeth o ran ein Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a'n Cynllun Gweithredu, gan nodi cyfleoedd i wella'r ffyrdd o reoli ein mannau gwyrdd,
- Rheolwyd 7 Gwarchodfa Natur Leol er budd natur a phobl. Mae'r rhain wedi'u lleoli'n strategol ledled Torfaen ac maent yn hybiau bioamrywiaeth o fewn ein seilwaith gwyrdd,
- Gweithio gyda'r Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru i daclo tanau anghyfreithlon oddi ar y ffordd a thanau gwyllt ar yr ucheldiroedd,
- Darparu cefnogaeth i wirfoddolwyr rheoli'r rhwydwaith hawliau tramwy a gwarchodfeydd natur lleol yn Nhorfaen,
- Darparu cyfleoedd hyfforddi/ prentisiaethau i 8 unigolyn,
- Cynnal adolygiad annibynnol o'n Gwasanaeth Amgylchedd a Strydlun i greu arbedion a chanfod cyfleoedd i gysoni'r gwasanaeth â nodau'r Strategaeth Seilwaith Werdd,
- Mapio holl fannau gwyrdd y Cyngor ar ein System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i alluogi presgripsiynau rheoli gwydn a phriodol yn nhermau ecolegol a hinsawdd, i'w symud ymlaen trwy Weithrediadau Strydlun
- Gweithio gyda Thai Cymunedol Bron Afon i ganfod cyfundrefnau eraill i reoli glaswelltiroedd mewn modd mwy cynaliadwy,
- Paratoi Cynllun Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau yn nodi sut rydyn ni'n cyfrannu at y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Adfer Natur,
- Mapio'n Hasedau Seilwaith Gwyrdd Trefol a chanfod coridorau sydd angen eu diogelu a'u gwella i sicrhau cysylltedd ecolegol drwy'r ardal drefol,
- Treialu dull newydd o dorri gwair ar ymylon ac mewn dolydd newydd i wella bioamrywiaeth. Hyd yma, mae dros 60 o safleoedd yn rhan o'r cynllun newydd ac rydym yn gobeithio ehangu hyn i fwy o safleoedd,
- Fel rhan o brosiect cydweithredol Ucheldiroedd Cadarn De Ddwyrain Cymru, cynhaliwyd gwaith adfer ar rai cynefinoedd mawndir sy'n hanfodol bwysig ar gyfer storio carbon a dŵr,
- Trwy gyfrwng prosiectau Gwent Gydnherth a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gweithiwyd mewn partneriaeth i ddarparu prosiectau gwella bioamrywiaeth a llesiant yn y gymuned,

- Dechreuwyd datblygu proses wneud penderfyniadau i helpu i ystyried seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen
- Cyhoeddwyd strategaeth coed a fydd yn helpu i sicrhau bod coed stryd, coetiroedd a gwrychoedd Torfaen yn cael eu gwerthfawrogi, eu rheoli a'u gwella er budd cenedlaethau, yn awr, ac yn y dyfodol.

8. Costau ein Gwasanaethau (ein cyllideb ar gyfer 2021/22)

Ein Cyllideb Refeniw

Mae ein perfformiad ariannol yn 2021-22 wedi ei gynnwys yn ein [Datganiad o Gyfrifon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#)

Cafodd ein cyllideb 2021/22 ei chymeradwyo ym mis Mawrth 2021 gyda chyllideb refeniw gros gwerth £283 miliwn a ariannwyd drwy £88 miliwn o grantiau, ffioedd a thaliadau penodol i'r llywodraeth am wasanaethau a chyfraniadau cyllid a chyfraniadau eraill. Ariannwyd ein cyllideb net gwerth £194.7 miliwn drwy £145 miliwn o gyllid wedi ei adneuo gan Lywodraeth Cymru a £48 miliwn gan y Dreth Gyngor.

Cynhyrchodd ein haldro refeniw yn 2021/22 tanwariant net, ar ôl cyfraniadau i gronfeydd wrth gefn, gwerth £3.3 miliwn o gymharu â'n cyllideb £194.7 miliwn. Llwyddwyd i weithredu'r trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn am sawl rheswm, crynhoir yr amrywiannau generig fel a ganlyn:

- Derbyniwyd £3.7 miliwn o grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'u defnyddio'n briodol i wneud yn iawn am gyllid craidd y gyllideb, gyda £3.1 miliwn yn ymwneud â'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol.
- Derbyniwyd cyllid newydd gan Lywodraeth Cymru (£856,000) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, i ganiatáu datblygu cynllun cymorth dewisol costau byw.
- Derbyniwyd grantiau pellach nas gyllidebwyd gan Lywodraeth Cymru (£1.1 miliwn).
- Cyllid grant sy'n fwy na lefelau cyllideb sylfaenol (£0.5 miliwn).
- £1.9 miliwn o danwariant ar draws gwasanaethau mewn perthynas â chostau gweinyddu cyffredinol a darpariaeth gwasanaethau.
- £3.6 miliwn o dan wariant staff, gyda £1.4 miliwn mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol.

Yn ogystal â'r cyllid grant penodol ychwanegol, a amlinellir uchod, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth 2022, eu bod yn dosbarthu £60 miliwn o Grant Cymorth Refeniw ychwanegol i'r 22 o Gynghorau unedol yng Nghymru - gyda Thorfaen yn derbyn £1.82 miliwn yn ychwanegol o gyllid heb ei neilltuo. Wrth ddosbarthu'r adnodd hwn, nododd Llywodraeth Cymru y gallai'r adnodd gael ei ddefnyddio i helpu i reoli chwyddiant a'r pwysau ar y gwasanaeth a'r diwedd ar Gronfa Caledi Llywodraeth Leol, yn ogystal â helpu i barhau i ddatgarboneiddio gwasanaethau ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur (gan gynnwys darparu mynediad i gerbydau trydan). Yn yr olaf yn hyn o beth, mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosglwyddo £300,000 i gronfa wrth gefn benodol i gynorthwyo gyda throsglwyddo ein fflyd trafndiaeth i dechnoleg Cerbydau Trydan (EV).

Ein Cyllideb Gyfalaf

Yn ogystal â'r gwariant refeniw gwnaethom hefyd wario £18 miliwn ar ein hasedau drwy ein rhaglen gyfalaf yn 2021/22, gan gynnwys gwario ar ysgolion, ffyrdd, llwybrau troed, a chynnal a datblygu ein hadeiladau. Fe wnaeth y rhaglen:

- barhau i weithredu'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt), a wnaeth: arwain at adeiladu Ysgol Gyfun newydd Croesyceiliog, symud ymlaen i ehangu Ysgol Gyfun Gwynllyw, i greu darpariaeth addysg gyflawn ar y safle presennol, dechrau ar y gwaith i ymestyn ysgol Crownbridge, adeiladu ysgol Maendy, a'r gwaith i ailddatblygu Ysgol Bryn Onnen ac Ysgol Gymraeg Cwmbrân.
- dechrau ar ddatblygu'r cyfleuster parcio a theithio yng ngorsaf drenau Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd.
- dechrau datblygu safle Y British.
- dechrau datblygu cyfleuster newydd i grynhoi a chywasgu eitemau swmpus; a
- parhau i fuddsoddi mewn grantiau cyfleuster anabl, i ddarparu cefnogaeth i'n dinasyddion bregus.

Fe wnaeth ein rhaglen gyfalaf 2021/22 wynebu llithriad o £4.3 ar ddechrau 2022/23.

9. Ymgynghori ynghylch ein Perfformiad

Mewn ymateb i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), sy'n rhoi mwy o ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth, rydym ni wedi datblygu drafft o Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd cyntaf Cyngor Torfaen.

Aeth ein strategaeth ddrafft i ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Mai 2022 ac Awst 2022 a chynhaliwyd gweithdai wyneb yn wyneb gyda rhai o'n paneli dinasyddion, gan gynnwys Fforwm Ieuenctid Torfaen a Fforwm Mynediad Torfaen. Bydd eu hadborth yn cael ei ddefnyddio er mwyn diwygio'r strategaeth, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet ym mis Hydref 2022.

Pan fydd ein strategaeth wedi'i chymeradwyo, byddwn yn cychwyn ar raglen o ymgysylltu â staff a hyfforddiant i ymgorffori egwyddorion y strategaeth yng ngwaith y timau, yn cynnwys cynllunio prosiectau ac adolygu'r gwasanaeth. Er enghraifft, mae cyd-gynhyrchu yn rhan allweddol o'r strategaeth newydd ac mae'r tîm yn gweithio gyda'r Cydlynnydd Camlesi i ennyn diddordeb trigolion lleol o ran helpu i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu, yn hytrach nag ymgynghori â nhw ynghylch strategaeth sydd eisoes wedi'i hysgrifennu. Bydd y strategaeth ddrafft wedi hynny'n cael ei gyflwyno i'r cyhoedd i gael adborth.

Un o brif egwyddorion eraill ein strategaeth newydd yw'r ymrwymiad i ddweud wrth bobl sydd wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau sut y defnyddiwyd eu sylwadau a'u hadborth.

Er mwyn datblygu ein fframwaith ar gyfer cyngor rhagorol rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o staff. Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn datblygu ein dull o ymgynghori ymhellach ar berfformiad er mwyn deall mwy am sut y mae eraill yn ein gweld.

Mae 'Dweud eich Dweud Torfaen', ein canolfan ymgysylltu cymunedol newydd, ar-lein, yn cynnig un ffordd i dimau gyfathrebu â'r sawl sy'n ymateb. Mae ein platfform yn caniatáu i bobl gofrestru fel cyfranogwyr a derbyn cylchlythyrau rheolaidd yn cynnig y wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriadau cyfredol a'r rhai sydd ar y gorwel, a pha gamau sy'n cael eu cymryd yn dilyn ymgynghoriadau sydd wedi dod i ben.

Rydym hefyd wedi defnyddio'r platfform newydd i greu ardal bwrpasol i drigolion gyflwyno syniadau y gellir craffu arnynt yn barhaus. Er bod gwybodaeth ar y wefan gorfforaethol yn nodi sut y gall trigolion gysylltu â'r pwyllgorau, roeddem yn teimlo y byddai cael ardal sy'n hawdd i'w chyrraedd i bobl sydd â diddordeb mewn ymgysylltu â gwaith y cyngor yn cynyddu nifer y bobl sy'n cyfrannu at y broses graffu. Mae gan yr ardal ffotograffau o gadeiryddion y pwyllgor, esboniad byr o'r hyn y mae pob pwyllgor yn ei ystyried, yn ogystal â fideo yn hyrwyddo pwysigrwydd y broses graffu.

Ym mis Gorffennaf 2022 penodwyd swyddog ymgysylltu a chyfranogiad etholiadol newydd i'r tîm cyfathrebu ac ymgysylltu er mwyn cefnogi'r dull strategol o ymgysylltu a chynghori, a chefnogi timau o ran arferion gorau yn nhermau ymgysylltu, yn cynnwys datblygu cysylltiadau cryfach gyda Phanel Pobl Torfaen, paneli dinasyddion ac ymgynghoriadau yn y gymuned.

Mae'r wefan gorfforaethol yn parhau i fod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr bwysig i drigolion ac rydym wedi datblygu ardal sy'n ymroddedig i gyngor ar gostau byw.

Mae'r nifer sydd wedi tanysgrifio i dderbyn ein datganiadau i'r wasg ac e-fwletinau wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn parhau i annog pobl i gael mynediad i'n hadnoddau digidol, gan gynnwys ap gwasanaethau ar-lein Fy Nhorfaen sy'n caniatáu i'r trigolion ofyn am wasanaethau, adrodd neu dalu am wasanaethau 24/7.

Ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yw'r prif ffordd yr ydym yn cyfathrebu'n uniongyrchol â thrigolion ac mae gan ein tudalen Facebook dros 20,000 o ddilynwyr. Yn ddiweddar fe wnaethom greu cyfrif TikTok i gyfathrebu'n uniongyrchol gyda thrigolion iau ac mae'n sianel rydyn ni'n bwriadu ei datblygu yn y flwyddyn nesaf.

Rydym wedi mabwysiadu Orlo, sef llwyfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Digidol, i wella ein gallu i amserlennu a gwrandao ar lefel gymdeithasol.

Mae gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, sydd ar ddod yn cynnwys ein harolwg blynyddol i drigolion, ymgynghori ynghylch y gyllideb ac ymgysylltu'n barhaus ag aelodau staff o ran trawsnewid gweithle'r Ganolfan Ddinesig.

10. Cyflawni a Monitro Cynnydd

Bydd gweithgarwch yn cael ei reoli drwy ddull cadarn o reoli prosiectau er mwyn sicrhau y gellir gweld cynnydd, risgiau ac atebolrwydd o ran cyflawni.

Mae cynnwys trigolion a rhanddeiliaid wrth ddatblygu gwasanaethau a phrosiectau yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir, ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir. Fel rhan o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau rydym wedi adolygu ein trefniadau llywodraethu a chyfranogi yn sylweddol, a arweiniodd at eglurder ar sut y gall aelodau'r cyhoedd fod yn rhan o benderfyniadau, craffu a dwyn y cyngor i gyfrif.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r rôl ganolog y mae ein gweithwyr yn ei chwarae wrth gyflawni'r cynllun hwn a'r ffordd y mae ein llu o wasanaethau statudol yn cael eu rhedeg. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n sicrhau ein bod yn denu ac yn cadw gweithlu medrus ac ymroddedig, gan wneud y gorau o weithio gyda phartneriaid allanol, i rannu arbenigedd penodol, i sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei gyflawni.

Mae ein Cynllun Sirol yn cysylltu'r gweithgareddau yn ein cynllun â'r amcanion llesiant a nodwyd. Mae ein Cynllun Sirol 2022-27 yn dangos yr allbynnau y byddwn yn eu monitro i ddangos cynnydd a'r canlyniadau lefel uchel, a fydd yn dangos llwyddiant ein huchelgeisiau. Bydd y rhain yn sail i adroddiadau a monitro chwarterol ar gyfer 2022/23.

Bydd ein proses o ran cynllunio gwasanaethau yn ganolog i gyflawni ein dyheadau. Rydym yn datblygu'r broses i sicrhau bod cynlluniau pob maes gwasanaeth yn ddogfennau cynhwysfawr, byw sy'n gyfrwng i gyflawni, adrodd a rhoi ystyriaeth i'r holl gynlluniau a strategaethau lefel uchel. Byddwn yn parhau i feithrin diwylliant o berfformiad uchel ledled y Cyngor, gan fonitro'r gwaith o gyflawni ein gweithgareddau, ein risgiau a'n data perfformiad yn rheolaidd, a fydd, ar y cyd, yn ein galluogi i ddatblygu fel sefydliad a chyflawni ein dyheadau ar gyfer Torfaen.

**TORFAEN
COUNTY
BOROUGH**



**BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN**

Lluniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Hydref 2022

I gael mwy o wybodaeth neu i gynnig sylwadau am y ddogfen hon, cysylltwch â'r:

Y Tîm Gwella a Chraffu
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl,
Torfaen
NP4 6YB

Rhif Ffôn: 01495 766298
E-bost: corporate.plan@torfaen.gov.uk

